ECO'R WYDDFA

RHIF 356 MEHEFIN 2008 PRIS 40c

Yn y Rhifyn Hwn...

- **Colli a Ffeindio** – tud. 8
- **Ffrwydriad y Powdwr Oel** – tud. 13
- **Atgofion Hen Sgotwr** – tud. 25
- **Rhedeg Mynydd** – tud. 28

Medal Gee i Goronwy Jones

Goronwy Jones, Cilan, Bethel – a dderbyniodd y Fedal Gee am wasanaeth ffyddlon i'r Ysgol Sul.

LLONGYFARCHIADAU i Goronwy Jones, Cilan, aelod o Gapel Cysegr, Bethel, ar gael ei anrhydeddu yn ddiweddar gan dderbyn y Fedal Gee mewn Cyfarfod Gwobrwyo ffyddloniaid yr Ysgol Sul. Aeth llond bws o'i gyd-aelodau a chyfeillion, ynghyd â'i weinidog, i Rhuthun i dystio i'r achlysur. Dyma'r aelod cyntaf o'r capel i dderbyn yr anrhydedd sydd yn cael ei chyflwyno i rai sydd wedi cyfrannu i'r Ysgol Sul ac i'r capel am flynyddoedd. Mae Goronwy Jones wedi bod yn aelod ffyddlon a gwerthfawr yn y Cysegr ers 1948. Fe ddechreuodd Ddosbarth yr Ifanc yn 1949, a hefyd bu'n Llywydd ar y cyfarfod wythnosol am ddeuddeng mlynedd. Ym 1951 fe'i codwyd yn Arolygwr yr Ysgol Sul, ac yna yn flaenor yn 1963.

Di-dâl y job, rhowch Fedal Gee
– am hau
ym maes ein capeli;
a gweld blagur tosturi'n
agor un hafn i'n Gair ni.

RLJ

Gwneud yr Ymdrech Unwaith Eto

AR ddydd Sul, Mai 11, bu Malcolm ac Alwena yn beicio am 50.12 milltir ar hyd Lôn Eifion, o Gaernarfon i Fryncir ac yn ôl i Gaernarfon – ddwy waith. Gwnaethant hyn y llynedd hefyd ac mae'r arian yn cael ei gyflwyno i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr.

Collodd Malcolm ei wraig, Yvonne, ar Fehefin 22 ddwy flynedd yn ôl, pan gollodd ei brwydr yn erbyn canser a hithau ond 47 oed, ac maent yn ddiolchgar iawn am y gofal a'r caredigrwydd a roddwyd i Yvonne dros y blynyddoedd.

Roedd Malcolm ac Yvonne yn ffrindiau mawr gydag Alwena a'i gŵr, Bob, a'r teulu, ac mae Malcolm yn ddiolchgar iawn i Alwena am ei chwmni i feicio ddwy flynedd yn olynol.

Hefyd, fe nofiodd Malcolm 126 hyd pwll nofio Plas Menai ar Mai 6ed a'r 13eg – sef cyfanswm o 2.6 milltir. Hoffai ddiolch i Hans a Darren, Plas Menai, am ei ddysgu – rai blynyddoedd yn ôl bellach. Nid gwaith hawdd oedd hynny gan fod Malcolm yn ei chael yn anodd i gofio cyfarwyddiadau yn dilyn ei ddamwain.

Bwriad Malcolm yw gwneud yr ymdrech hon yn flynyddol os bydd iechyd yn caniatáu. Mae'n ddiolchgar i'w blant, Mark a Fiona, am eu cefnogaeth gan nad yw bywyd wedi bod yn hawdd ers colli Mam.

Diolch hefyd i bawb fu'n casglu enwau ar y ffurflenni noddi ac i bawb a gyfrannodd yn hael i gefnogi ei ymdrech.

Mac ac Alwena yn cychwyn.

Mac yn y pwll ym Mhlas Menai.



ECO'R WYDDFA

RHIF 356
MEHEFIN 2008
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasggwynedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
DYDD LLUN, 16 MEHEFIN
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 26 MEHEFIN
Dyddiad Gosod
SUL 22 MEHEFIN am 5.00

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Gorffennaf	16 Mehefin	26 Mehefin	Bethel	Geraint Elis	(01248) 670 726
Medi	**25 Awst**	**4 Medi**	Dinorwig	Marian Jones	870 292

RHODDION

£20: Mrs Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

£10: Yr Archdderwydd Selwyn Iolen; Elwyn Foulkes, 3 Rhes Bryn, Cwm y Glo; John V. Morris, Clwt y Bont; Teulu 10 Rhes Marian, Deiniolen; Mrs Mair Jones, 18 Mountain Street, Caernarfon; Nellie Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Tom Parry, Hagley; Rosalie Lamburn, Mogerhanger.

£7: Iolo Llywelyn, Llanrug

£6: Di-enw, Llanrug

£5: Mr a Mrs Arthur Ellis, Min y Nant, Waunfawr; Alun a Nancy Williams, 28 Bro Eglwys, Bethel; Evelyn Jones, Deiniolen; Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, Penisarwaun; Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, Penisarwaun; 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis; Ceinwen Williams, 5 Cambrian Terrace, Llanberis; Alvona Jones, Prestatyn.

£2: Di-enw, Llanrug.

£1: G. Lloyd, 4 Rhes Plastirion, Llanrug.

Cyngerdd Blynyddol Seindorf Arian Deiniolen

Mynydd Gwefru, Llanberis nos Wener, 27 Mehefin am 7.00 y.h.

Artistiaid
Seindorf Deiniolen
Lleisiau Mignedd
Gwenllian Elias
Parti Plant 'Lleisiau Llanbabs'

Arweinydd y Noson
Kev Bach (Champion 103)

Noddwyr: Silver Star

Mynediad ar y drws:
£5 oedolion; £2 plant

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

CYNLLUN EFE

Yn y rhifyn hwn o'r *Eco* fe welwch hysbyseb arall am Weithiwr Ieuenctid Cristnogol dan nawdd Cynllun Efe. Yn dilyn yr hysbyseb cyntaf ychydig wythnosau'n ôl, penderfynwyd ein bod yn ail hysbysebu'r swydd gan wneud ymdrech arall i'w llenwi.

Bydd yr hysbyseb yn ymddangos mewn papurau eraill yn fuan, a gobeithiwn allu penodi erbyn canol mis Gorffennaf, fel bod y gweithiwr newydd yn cychwyn gweithio ym mis Medi.

Cynhaliwyd y ddau gyfarfod gweddi a phwyllgor diwethaf yng Nghapel Caeathro a Chapel Coch, Llanberis; a bydd y nesaf yng Nghapel Caeathro eto am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Gorffennaf 15. Mae croeso cynnes i unrhyw un i'r cyfarfod gweddi a'r pwyllgor, wrth gwrs.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu Taith Gerdded arall i godi arian ar gyfer Efe. Cynhaliwyd y daith gerdded 'Pererinoddi' gyntaf fis Medi diwethaf, a bydd cyfle arall i gerdded a chodi arian pan gynhelir 'Pererinoddi' eto ddydd Sadwrn, 5 Gorffennaf .

Gwahoddwn eglwysi ac Ysgolion Sul yr ardal, ac unrhyw un arall sy'n dymuno ein cefnogi, i ddod i gerdded ar hyd Lôn Las Peris o Ben Llyn, Brynrefail i Lanberis. Byddwn yn cychwyn oddi wrth yr hen bont ym Mhen Llyn am 11.00 o'r gloch ac yn cerdded i Lanberis, lle cawn baned yn festri Capel Coch. Dowch â phecyn bwyd efo chi, gan y bydd yn amser cinio erbyn i ni gyrraedd yno. Mae'r daith hon ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion.

Bydd cyfle i oedolion sy'n fwy mentrus, ac yn gerddwyr profiadol, i fynd ar daith y Copaon yr un diwrnod. Bydd hon yn daith ar gyfer rhai dros 18. Bydd pawb yn cyfarfod wrth yr arosfa bws dros y ffordd i Siop Joe Brown yn Llanberis am 9.30 o'r gloch, er mwyn dal y bws i Ben y Pass. Oddi yno, bydd y cerddwyr un ai'n dilyn y llwybr heibio i Lyn Llydaw i Ben yr Wyddfa ac i lawr i Lanberis, neu'r llwybr dros y Glyder Fawr a'r Garn ac i lawr i Nant Peris.

Gobeithio'n fawr y cawn ni dywydd braf ar gyfer y Sadwrn hwnnw.

CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH PADARN 2008

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Coch, Llanberis, bnawn Sul, 4 Mai 2008. Arweinydd y Gân oedd Mr Gareth Jones, Llanberis, a'r Organydd oedd Mrs Bethan Holden, Capel Coch. Llywydd y cyfarfod oedd y Parchedig D. John Pritchard, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth dechreuol gan aelodau Ysgol Sul Capel Coch. Gwobrwywyd y canlynol yn ystod y cyfarfod:

Dan 4 oed: Luke Desmond, Becca Morris, Deio Llwyd Roberts a Cadi Thomas, Capel Coch; Tomos William Gibson, Elis Jones, Cai Moss a Haf Mwyn Williams, Cysegr.

Dan 5 oed: Lowri Collins a Ffion Jones, Capel Coch; Cai Llwyd Jones, Twm Henri Williams, Tomos Siôn Morris, Heledd Prys Huws, Bedwyr Lewis Jones, Ioan Emyr Ifans, Siôn Lewis Jones a Celt Moss, Cysegr; Gwion Llewelyn Griffith, Deiniolen.

Dan 6 oed: Elis Arddu Morris a Sara Fflur Henderson, Capel Coch; Ywain Emrys Jones, Gwenllian Dauncey Griffiths, Huw Gwyn ac Owain Lewis Jones, Cysegr; Alys Mair Jones a Cian Henry Griffith Pleming, Deiniolen.

Dan 7 oed: Aled Siôn Pritchard, Siôn Ifan Morris, Cari Davies a Iolo Llewelyn Roberts, Capel Coch; Elan Jones, Cysegr; Becca Medi Jones a Glain Meleri Hughes, Deiniolen.

Dan 8 oed: Alaw Meleri Henderson, Capel Coch; Elen Haf Gwyn Ifans, Cysegr; Gerwyn Llwyd Jones a Prys Wyn Hughes, Deiniolen.

Dan 9 oed: Megan Pritchard, Capel Coch; Harri Ifans, Cysegr.

Dan 10 oed: Gethin Wyn Harper, Alaw Prys Huws ac Elliw Lewis Jones, Cysegr.

Dan 11 oed: Gareth Pritchard, Capel Coch; Elliw Geraint Hughes a Llŷr Garmon Jones, Deiniolen.

Dan 12 oed: Iwan Huw Harper, Cysegr.

Carai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Coch am eu cymorth parod yn trefnu'r Gymanfa ac am drefnu'r baned ar ddiwedd y cyfarfod. Diolch yn fawr iawn i Gareth Jones am arwain y gân, i Mrs Bethan Holding, yr Organydd, i'r Parch D. John Pritchard am Lywyddu ac i'r rhai fu'n gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol. Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r arholwyr am eu gwaith ac i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth.

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG - WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CHWILOTA

'BATALIWN O BOTELI'

A dyfynnu'r llinell uchod, dyna'n union oedd yn wynebu rhywun wrth gerdded i mewn i ystafell gul mewn siop ail-law yn Amwythig yn ddiweddar. Silffoedd ar silffoedd, o'r llawr i'r nenfwd, wedi eu llenwi â phob math o boteli – rhai gwydr a rhai pridd. Ac yn eu plith, roedd poteli yn deillio o'r ardal hon. Ac am unwaith, dyma grwydro fymryn o'r tu allan i fro'r '*Eco*' a thresmasu ar dir '*Papur Dre*', oherwydd poteli o dref Caernarfon oedd dwy o'r rhai ar y silffoedd yno. Ac yr oedd y siopwr newydd eu derbyn y diwrnod cynt – medda fo!

Eglurodd fod ganddo ddau gasglwr diwyd yn chwilota drwy hen domennydd sbwriel wedi eu cau yn ardal Wrecsam, ac mai o'r ardal honno y daeth y poteli i'r fei. Roedd y casglwyr wedi cynnig hanner canpunt y diwrnod i ryw ffermwr er mwyn cael hawl i dyllu mewn hen domen ar ei dir – ac yntau'n gwrthod. Felly, roedd y ddau gasglwr yn cyrchu yno'n ystod y nos i wneud eu tyllu, a hynny dan fygythiad cael eu saethu gan y ffermwr os deuai ar eu traws! Dyna'r stori beth bynnag, ac mae'n siŵr fod y 'perygl' o chwilio am y poteli yn ychwanegu at eu gwerth ac at y pris a ofynnai'r siopwr amdanynt.

Potel wydr yw'r gyntaf, gyda'r farblen yn parhau yn ei gwddf; peth eithaf prin, oherwydd unwaith y byddai'r ddiod wedi ei wagio o'r botel, byddai'r gwddf yn cael ei dorri er mwyn i'r plant gael y farblen i chwarae â hi. Ond roedd y botel hon yn gyfan, a'r farblen yn clecian tu mewn i'r gwddf. A'r enw ar y botel oedd 'E. Noble's Mineral Water Works Carnarvon.' Islaw mae llun draig, a'r geiriau 'Draig coch ddyry cychwyn' wedi eu hysgrifennu otanodd. Ar gefn y botel mae enw'r gwneuthurwr – Dan Rylands o Barnsley.

Pwy felly oedd yr Edward Noble hwn o Gaernarfon? Mae'n ymddangos yn y *Slaters Directory* am 1880 fel 'manufacturer of mineral and other waters' yn Ffordd Balaclafa, Caernarfon. Erbyn 1886 mae'n disgrifio'i hun fel 'specialist in soda water and lemonade made from the dew of Snowdon.' Felly dyna'r cysylltiad â'r fro hon! Yr un pryd mae'n berchen tafarn y Patent Slip yn Turkey Shore, ac wedi ei drwyddedu i werthu pob math o ddiodydd alcoholig. Cynyddodd ei fusnes, mae'n amlwg, ac yn 1889 yn y *Sutton's Directory*, yn ogystal â gwerthu diodydd o bob math, mae hefyd yn hysbysebu ei hun fel 'ice merchant'. Yn y flwyddyn hon hefyd yr ymddengys perchnogion yr ail botel am y tro cyntaf, sef Thomas & Edwards, ond mwy amdanyn nhw yn nes ymlaen.

Dal i gynyddu roedd busnes Edward Noble, ac yn y *Slaters Directory* am 1895 mae'n parhau gyda'i fusnes yn Ffordd Balaclafa a Turkey Shore, ond mae erbyn hyn hefyd yn nodi ei gyfeiriad cartref, sy'n arwydd o ddringo ym mywyd cymdeithasol tref Caernarfon, gan ei fod yn byw yn Pennant Villa, Uxbridge Square. Roedd hyn yn rhoi statws iddo fel gŵr busnes llwyddiannus. Bedair blynedd yn ddiweddarach, tra'n hysbysebu yn *Bennetts Directory*, mae'n berchen ffôn, a gwahoddir cwsmeriaid i gysylltu ag ef ar Gaernarfon 20. Sgwn i gan bwy yn yr ardal roedd y rhifau o 1 i 19? Y tro olaf i mi ddod ar ei draws oedd yn y *Bennetts Directory* am 1910. Tybed a ddiflannodd y busnes yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, oherwydd does dim sôn amdano yn 1917.

Potel bridd yw'r ail botel; eiddo Thomas & Edwards. Arni mae eu henwau a 'Stone Ginger Beer Carnarvon'. Mae'r cwmni yn ymddangos gyntaf yn 1889 fel 'mineral water manufacturers – new harbour.' Yr harbwr newydd hwn oedd Doc Fictoria, wrth gwrs, ac mae'n ymddangos fod cystadleuaeth felly i gwmni Noble oedd â phencadlys gerllaw yn Ffordd Balaclafa. Parhaodd y cwmni hwn ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, a cheir cyfeiriadau atynt yn y *Wales Trades Directory* yn 1917 ac wedyn o 1927 hyd 1929. Ond does dim sôn amdanynt yn 1930. Yn y blynyddoedd diweddar hyn roedd y cwmni yn hysbysebu eu hunain fel 'aerated water manufacturers', gyda warws yn Ffordd Balaclafa. Tybed a oeddynt wedi prynu busnes Edward Noble?

A dyna, hyd yn hyn, yw'r unig wybodaeth sydd gen i am y cwmnïau oedd yn cynhyrchu diodydd yng Nghaernarfon. Ond, wrth gwrs, doedd cwmnïau o'r fath ddim yn unigryw i Gaernarfon. Cafwyd hanes cwmnïau yn Llanberis yn yr *Eco* rai blynyddoedd yn ôl, ac yr oedd cwmni Kansco ym Mhenisarwaen yn potelu dŵr gwyrthiol Ffynnon Cegin Arthur ar un cyfnod hefyd. Tybed oedd mwy o gwmnïau o'r fath ym mro'r *Eco*? Rhowch wybod.

Damwain â'r Car Gwyllt

Cafwyd cryn sôn yn rhifynnau cynnar yr *Eco* am hanesion o Chwarel Dinorwig, gan gynnwys hanes y rheilffordd a'r ceir gwyllt a ddefnyddid gan y gweithwyr i fynd a dod o'r gwaith.

Yn ddiweddar deuthum ar draws hanes cwest i un o'r gweithwyr rheini, sef Owen Thomas, chwarelwr ifanc a laddwyd ym mis Awst 1892 tra'n gyrru un o'r ceir gwyllt hyn ar y rheilffordd ger Brynrefail. Yr oedd ar ei ffordd adref o'r chwarel, ac yn teithio ar beth cyflymder, pan dorrodd echel y cerbyd a'i daflu yntau oddi arno. Fe'i clwyfwyd yn ddifrifol, a bu farw'n ddiweddarach yn Ysbyty'r Chwarel yn y Gilfach ddu. 'Velocipede', wrth gwrs, yw'r enw a roir ar y car gwyllt yn adroddiadau'r crwner.

Darllenwch fwy o'u hanes yn llyfrau'r diweddar Emyr Jones am hanes Chwarel Dinorwig.

Llinos Gwynedd

Ychydig fisoedd yn ôl cynhwyswyd llun gyda'r golofn hon yn dangos Myfanwy o'r Bryn mewn gwisg Gymreig, a gwraig arall hefyd mewn gwisg gyffelyb. Bryd hynny, roedd tybiaeth mai o Gaernarfon y deuai, a'i bod yn cadw caffi'r 'Willow Pattern' yn Stryd Fawr, Caernarfon.

Erbyn hyn daeth gwybodaeth mai Mrs Florence Jones oedd ei henw, genedigol o ardal Penrallt, Caernarfon. Priododd filwr o Awstralia tua diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, a mudodd i'r wlad honno i fyw. Ond roedd hiraeth am Gaernarfon yn ei llethu, a dychwelodd hi a'i gwr i'r dref tua dechrau neu ganol y 1930'au. Yr oedd yn gantores dda, ac ymunodd â Chôr Telyn Eryri dan arweinyddiaeth Edith Evans, Beddgelert. Telynores Eryri roes iddi'r enw Llinos Gwynedd.

Collodd ei gŵr yn ifanc ac aeth ati i gadw Caffi Gwalia yn 7 Stryd Fawr, Caernarfon – nid y 'Willow Pattern'. Roedd hefyd yn wniadwraig fedrus, ac yn cynllunio, gwneud a dilladu doliau Cymreig. Câi'r rheini eu harddangos yn ffenestr y caffi er mwyn denu ymwelwyr i'w prynu. Efallai fod rhai o'r darllenwyr yn cofio'r ffenestr yn y Stryd Fawr gyda doliau Cymreig ei llond.

Yn sgil y wybodaeth hon, daeth llun arall ar fenthyg i'r *Eco*. Llun o Gôr Adrodd Llanrug dan hyfforddiant Morris D. Jones (Glan Caledffrwd). Yn y llun hwnnw mae Myfanwy o'r Bryn a merch arall mewn gwisg Gymreig. Tybed a'i Llinos Gwynedd yw honno? Sylwch fod dol yn cael ei

Aelodau o Gôr Adrodd Llanrug.

Rhes gefn (o'r chwith): Lily Williams, Annie Williams, ? , Menai Owen, ? , ?.
Rhes ganol: Rosa Thomas, Nancy Roberts, Frances Williams, Megan Williams, Janet Griffith, Nell Owen a Laura Owen.
Rhes flaen merched: Llinos Gwynedd?, ? , ? , ? , Bessie Jones (gwraig Morris D. Jones), Myfanwy o'r Bryn.
Rhes flaen: Parch Richard Jones, Morris D. Jones, ? , Parch Goronwy Williams.

harddangos yn y llun hwn hefyd. Mae enwau nifer o aelodau'r côr adrodd ar gael. Oes bosibl cael gwybodaeth am y gweddill a beth yn union oedd yr achlysur.

Does ryfedd fod Myfanwy o'r Bryn a Llinos Gwynedd yn ymddangos ar Stesion Caernarfon pan fudodd y teulu o Frynrefail i Awstralia. Byddai Myfanwy o'r Bryn a'i gŵr yn eu dilyn yn fuan, ac yr oedd Llinos Gwynedd newydd ddychwelyd o'r wlad honno.

Teulu'r Clossiaid

Mae aelodau Americanaidd o'r teulu lluosog hwn yn bwriadu ymweld â'r ardal yn ystod y misoedd nesaf. Y bwriad yw gwasgaru llwch un o'r teulu ym mynwent y Nant. Maent mewn cysylltiad â rhai aelodau o'r teulu yn y wlad hon ac yn yr ardal hon. Mwy o wybodaeth i ddilyn yn ystod y rhifyn nesaf.

Cŵn Hela Penrhos, Caeathro

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd pac o gŵn hela yn cael eu cadw ym Mhenrhos, a'r gŵr oedd yn gyfrifol am eu cadw a'u meithrin oedd William Hughes. Rumsey Williams, y cyfreithiwr, oedd perchennog y pac hela.

Yn ddiweddarach, symudodd i Gaernarfon, a dilyn yr un swydd gyda chŵn hela'r Caernarvon Harriers. Bu farw yn 1870 a chodwyd carreg ar ei fedd drwy danysgrifiadau aelodau'r Caernarvon Harriers.

Os oes unrhyw un â gwybodaeth am William Hughes neu am y cŵn hela, cysylltwch.

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu wybodaeth am hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515)

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Y mis hwn rwyf am roddi nodiadau y dyddiadur am y flwyddyn 1926.

15 Ionawr, 1926: Priodi Charles Parry, Ceunant Street yn Capel Moriah, Caernarfon, ac yn eira mawr.

29 Ionawr: Priodi Dilys Wiliams, Ceunant Street ar ddydd Gwener yn Nant Padarn.

1 Chwefror: Priodi Mathew Foulkes, Fron Goch yn Gaernarfon.

5 Chwefror: Claddu Rhys Williams, Nant Uchaf ac hefyd marw Tommy Hughes, Cwm y Glo, eto Arthur Jones, Brithdir.

11 Mawrth: Marw Evan Hugh Evans, Pen Bont.

13 Mawrth: Claddu Tommy Jones, Llibart.

24 Mawrth: Claddu merch i John Owen, Caegorniog, dod â'r corff o Dolgarog wedi llosgi trrwy achub ei phlentyn bach.

27 Mawrth: Claddu David Roberts, Turner Street.

1 Mai: Priodi Arthur Williams yn Gaernarfon. Hefyd yr un diwrnod claddu gwraig John Parry, Tap.

5 Mai: Marw William Jones, Butcher.

9 Mai: Marw Ritchard Pritchard, ac hefyd marw Bob David Owen, Castle Hotel yn sydyn.

14 Mai: Marw Sarah Ann Jones, Ceuanant Street.

18 Mai: Marw Glyn Williams.

5 Mehefin: Priodi Ann Hughes, Tŷ Newydd Bach.

12 Mehefin: Claddu Owen Jones, Snowden Street.

8 Gorffennaf: John Griffith, Brynrefail, yn taflu ei hun o dan trên chwarel.

15 Awst: Priodi Howell Morris, Bethesda Street.

21 Awst: Claddu Robert Williams, Coed Mawr, a merch bach ei ferch yn cael ei bedyddio.

8 Tachwedd: Marw Llywelyn Williams, Penceunant, yn sydyn iawn yn y chwarel. Ac hefyd marw gwraig John Roberts, Bron Graig, ac hefyd bu farw Lizzie Plas Coch.

26 Tachwedd: Marw Thomas J. Roberts, Talafon.

24 Rhagfyr: Marw gwraig Owen Hughes, Victoria Terrace, ac hefyd gwraig Ritchard Jones, Eilian Terrace, a claddu'r ddwy yr un diwrnod.

29 Rhagfyr: Priodi merch i Michael Jones, Bethesda Street, Llanberis, yn Capel Coch.

30 Rhagfyr: Claddu Thomas Owen, Fron.

R. Elwyn Griffith

UN FUNUD FACH

BUSNAS EGLWYS

Busnas trydanwr yw trydan.
Busnas plymwr yw plymio.
Busnas siopwr yw cadw siop.
Busnas athro yw dysgu.
Busnas yr Eglwys Gristnogol yw..., beth?

Un peth y gallwn ei ddweud yn bendant yw nad busnas yr Eglwys Gristnogol yw deud wrth bobl sut i fyw. Byddai digon o bobl o'r tu allan i'r Eglwys yn cytuno â hynny, gan fynnu nad oes gan Gristnogion hawl i ddeud wrth neb sut i fyw eu bywydau. Mae pobl eisiau rhyddid i fyw fel y mynnont, heb orfod gwrando ar neb arall yn deud wrthynt beth i'w wneud. Pa hawl sydd gan yr Eglwys, meddir, i ddeddfu ac i orfodi pobl i fyw mewn ffordd arbennig?

Mae'n drueni mawr os yw'r Eglwys yn rhoi'r argraff i bobl mai yn y busnas o ddeud wrthynt sut i fyw y mae hi. Oherwydd mae ganddi waith pwysicach o lawer na hynny i'w wneud. Ac mae angen i'r Eglwys ei hun sylweddoli hynny. Gwaith yr Eglwys yw gwasanaethu Crist a gwasanaethu ei haelodau a gwasanaethu pobl o'i chwmpas. Gwaith yr Eglwys yw tystio i'r Efengyl ac i'r cynnig sydd ynddi o fywyd tragwyddol i bawb sy'n credu yn Iesu Grist. Rhannu newyddion da, a gwahodd pobl i dderbyn y bywyd newydd a geir trwy'r Iesu yw ein gwaith fel Cristnogion, ac nid deud wrth neb arall sut i fihafio.

Mae gennym reolau wrth reswm. Byddai'n rhyfedd iawn i ni wadu hynny. Wedi'r cwbl, rydym yn gwasanaethu'r Duw a roddodd i ni'r Deg Gorchymyn, ac yn credu yn yr Iesu a ddysgodd ei ddilynwyr i fyw bywyd glân o gariad a daioni. Ond nid gwthio rheolau ar bobl a wna'r Eglwys na gorfodi pobl i blygu i ddeddfau. Mae cannoedd o bobl yn gefnogwyr brwd o gantorion dawnus a thimau pêl-droed llwyddiannus. Does neb yn eu gorfodi i'w dilyn; ond maen nhw'n gwneud hynny o ddewis a chydag egni mawr. Ac felly mae hi gyda rheolau'r bywyd Cristnogol. Mae pobl yn plygu iddyn nhw o'u gwirfodd ac nid o orfod. Mae'r Cristion yn ufuddhau i'r gorchmynion am ei fod wedi dod i garu'r Un sy'n eu rhoi. Mae'r awydd i gadw deddfau Duw yn codi o'r galon newydd a gawn wrth ddod mewn ffydd at yr Arglwydd Iesu.

A dyna awgrym o'r wyrth fawr sy'n digwydd pan ddaw rhywun i gredu yng Nghrist. Nid yw'n naturiol i'r Cristion, fwy na neb arall, blygu i Dduw a'i orchmynion. Nid yw yntau chwaith am ildio'r hawl dros ei fywyd i neb, hyd yn oed i'w Dduw. Ac er mai brwydr yw hi, a bod y Cristion yn sylweddoli bob dydd nad yw'n plygu fel y dylai i'w Arglwydd, y mae'n dymuno bod yn ufudd i orchmynion Iesu. Cynnig y newyddion da am y galon newydd hon yw busnas mawr yr Eglwys o hyd.

John Pritchard

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLEN • LLANRUG A LLANBERIS
Ffoniwch Dylan(Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394
Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

Hefyd
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Croesawodd Dafydd Thomas bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Eryl Roberts am gadeirio yn ystod y cyfarfod diwethaf yn ei absenoldeb.

Rhoddwyd croeso arbennig i'r Pensaer, Mr John Pritchard, oedd wedi mynychu'r cyfarfod i drafod cynlluniau i ddatblygu cae chwarae Cwm y Glo. Cyflwynodd Mr Pritchard ei hun ac aeth ymlaen i egluro strwythr ei waith, ei fod am gael mewnbwn cychwynnol gan y Cynghorwyr yn y cyfarfod hwn ac yna mewnbwn gan y plant a thrigolion Cwm y Glo eu hunain o beth y buasent hwythau yn hoffi ei weld yn cael ei ddatblygu. Wedi hynny, fe fyddai'n paratoi rhyw fath o ddogfen cychwynnol a'i gyflwyno i'r Cyngor yng nghyfarfod mis Mai. Cynigiodd ambell Gynghorydd syniadau eu hunain ond credai pawb ei bod yn well trafod y mater gyda'r plant er mwyn sicrhau y byddai defnydd yn cael ei wneud o'r datblygiad.

Cytunwyd y byddai'n syniad cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn y pentref yn dilyn ein cyfarfod ym mis Mai pan y byddai rhywbeth i'w gyflwyno i'r trigolion. Diolchwyd i Mr Pritchard am fynychu a dywedwyd y byddai'r Cynghorwyr yn edrych ymlaen am ei adborth nesaf.

Cadarnhawyd fod y plac i goffáu y drychineb wedi ei osod wrth y Fricsan yng Nghwm y Glo a bod Brian Jones am geisio cynnal gwasanaeth coffa ar ôl trafod y mater gyda phrifathrawes yr ysgol.

Aethpwyd ymlaen i drafod y gwaith o dacluso'r eiddew ar wal y fynwent a phenderfynwyd mynd i weld y gwaith cyn talu'r anfonebion oedd wedi eu derbyn, cytunodd grŵp o'r Cynghorwyr i wneud hynny y diwrnod canlynol.

Penderfynwyd gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd yn rhestru'r llwybrau sydd angen eu torri ar gyfer 2008/09 a gofyn iddynt pa rai y byddent hwy yn ei addalu. Gofynnwyd i'r clerc ddweud wrth y contractriwr am beidio â dechrau torri tan y byddai'n cael y wybodaeth yma gan y Cyngor.

Cafwyd cadarnhad fod Pwyllgor Cynllunio Aarfon wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- Estyniad i 10 Stad Minffordd;
- Caniatâd adeilad rhestredig i newid defnydd, estyniad cefn a mân newidiadau eraill i'r adeilad er mwyn creu ystafelloedd cyfarfod ar y llawr gwaelod a 5 ystafell wely ar y llawr cyntaf yng Ngwesty Seiont Manor;
- Codi modurdy ar wahân: Llwyfor, Ffordd yr Orsaf, Llanrug;
- Estyniad deulawr ac ystafell haul unllawr ar gefn yr eiddo: Goleufryn, Cwm y Glo;
- Newidiadau mewnol a mân newidiadau allanol i adeilad a ganiatawyd eisoes: Ealine's Llwyfor, Ffordd yr Orsaf.

Daeth y newidiadau canlynol gerbron y Cyngor Cymuned:

Dim gwrthwynebiad:

- adeiladu estyniad unllawr i'r cefn: Tai'r Lôn, Llanrug;
- dymchwel ac ailadeiladu adeilad presennol Band Llanrug, ble cafodd buddiant ei ddatgan gan y Cynghorydd Avril Jones.

Gwrthwynebwyd: Dim.

Methodd y Cynghorwyr roddi barn ar ddau gais oherwydd diffyg gwybodaeth a dderbyniwyd i werthuso'r ceisiadau gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd y ceisiadau hyn yn ymwneud â dymchwel y sied bresennol a chodi sied newydd: rhan o Lleiniau, Llanrug; a dymchwel yr adeilad allanol presennol a chodi modurdy a storfa newydd: Tyddyn Rhyddid, Llanrug.

O ganlyniad, penderfynwyd ysgrifennu at bennaeth yr Adran Gynllunio yn mynegi pryderon y Cynghorwyr am safon diweddar y cynlluniau oedd yn cael eu derbyn gan swyddogion y Cyngor a'u pasio ymlaen i'r Cyngor Cymuned eu trafod.

Derbyniwyd y gŵyn ganlynol:

- Nad oedd adeilad ar dir Mur Coch, Cwm y Glo, byth wedi ei ddymchwel er bod gorfodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i wneud hyn ers peth amser. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn am eglurhad am hyn.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Pwll Moelyn bellach wedi ei gofrestru yn enw Cyngor Cymuned Llanrug gyda'r Gofrestfa Tir ac y bydd y ddau werthiant yn mynd yn eu blaen gyda'r cyfreithiwr. Trafodwyd cyflwr y safle a phenderfynwyd y byddai'r un Cynghorwyr ac a fyddai'n archwilio'r gwaith yn y fynwent hefyd yn archwilio safle Pwll Moelyn y diwrnod canlynol, er mwyn asesu beth sydd angen ei wneud yno.

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd gan y contractwyr i dorri gwair y fynwent, y cae chwarae a llwybrau'r gymuned ar gyfer 2008/09. Penderfynwyd rhoddi'r gwaith i'r contractwyr yma.

Cafwyd llythyrau gan Gyngor Gwynedd yn cynnwys datganiad o'r personau a enwebwyd ar gyfer pob ward o'r gymuned gyda chais i'r datganiadau yma gael eu harddangos. Penderfynwyd dangos y rhestrau yn swyddfeydd post Llanrug a Chwm y Glo.

Ymhlith yr ohebiaeth a dderbyniwyd ac a drafodwyd, penderfynwyd adnewyddu aelodaeth y Cyngor gyda Un Llais Cymru a pholisi yswiriant y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Whiteside Thomas, i bawb am eu gwasanaeth i'r Cyngor yn ystod ei gyfnod gyda'r Cyngor Cymuned gan mai dyma ei gyfarfod olaf fel Cynghorydd. Aeth ymlaen i ddymuno'n dda i'r Cynghorwyr, Geraint Jones a Derfel Jones, oedd hefyd yn sefyll i lawr fel Cynghorwyr. Diolchodd y Cynghorwyr i gyd am wasanaeth ac ymroddiad y tri i'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf ac i Dafydd Thomas am ei waith caled fel Cadeirydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Y Sefydliad Coffia, Llanrug, ar 20 Mai, 2008.



Ar y Lein Eto Fyth

Bethan Gwanas

DYMA'R drydedd (a'r olaf) o ddyddiaduron Bethan yn dilyn llinellau 'Ar y Lein', a'i hanes yn dilyn y cyhydedd o amgylch y byd ydi hwn. Darlledwyd yr wyth rhaglen yn ystod Medi i Dachwedd 2007, a bu'r gyfres yn hynod lwyddiannus gan ennill nifer uchel iawn o wylwyr.

Ond er cystal cyfrwng ydi'r teledu, all o byth ddangos bob dim, ac mae pawb sydd â chamera yn gwybod bod y pethau gorau'n aml yn digwydd pan mae'r camera wedi ei ddiffodd! Yn ffodus, dyw llyfrau ddim yn gorfod cael eu gwasgu i hanner awr, ac mae modd cynnwys y darnau coll i gyd. Yma, cewch wybod be'n union ddigwyddodd ar bob cam o'r daith, o'r trafferthion gafwyd efo'r camera a'r gyrwyr tacsi yn Gabon i'r salwch stumog ar saffari yng Nghenya a'r daith erchyll ar gwch modur yn y Galapagos. Mae'r chwerthin a'r strancio i gyd yma, yn ddigri, yn ddwys a hynod ddarllenadwy.

Merch ffarm o Feirion sydd bellach wedi gwneud enw iddi ei hun fel cyflwynydd teledu yn ogystal ag awdures yw Bethan Gwanas. Mae wedi cyhoeddi 20 o gyfrolau hyd yma ac wedi teithio'r byd deirgwaith efo 'Ar y Lein'. Mae'n byw yn Rhydymain gyda Del, yr ast fach goch, ac yn gobeithio cael trefn ar y tŷ a'r ardd yn 2008; mae hi wedi penderfynu mai'r llinell ddiwethaf oedd y llinell olaf!

Cyhoeddwyr: Gwasg Gwynedd
Pris: £7.95

Lansio Nofel Gywaith *Nerth Bôn Braich*

CAFWYD noson hwyliog yn siop lyfrau Palas Print yng Nghaernarfon nos Wener, 16 Mai, i lansio'r nofel gywaith. Ffrwyth cydweithio rhwng saith o awduresau yw'r nofel hon sy'n dilyn hanes cystadleuaeth i ddarganfod 'Merch Gryfa Cymru'.

Dwy o'r awduresau yw Eurgain Haf o Benisarwaun a Gwen Lasarus o Fethel, dwy o fro'r *Eco*. Bu'r ddwy yn torchi llewys gyda Janice Jones, Annes Glyn, Caron Wyn Edwards, Siân Eirian Rees Davies a Rhiannon Thomas. Llywiwyd y noson yn hwyliog gan Karen Owen a chafwyd darlleniadau o'r nofel a sesiwn o holi ac ateb. Diolchir i Palas Print am y croeso ac i bawb a ddaeth i gefnogi.

MEI DEI
ORIEL DAFYDD HARDY

OS ewch chi i weld arddangosfa Mei Dei, yn Oriel Dafydd Hardy, y peth cyntaf neith eich taro chi ydi'r lliwiau. Mae'r lle yn llawn dop o liwiau llachar. Mae'r stafell yn cael ei goleuo gan liwiau cryf y peintiadau.

Portreadau sy' 'ma yn bennaf. Peintiadau o ferched noeth, peintiadau o rai o ffrindiau'r artist a hunan-bortreadau. Peintiadau sy'n gneud i chi feddwl fod 'na stori y tu ôl i bob llun, bron. Mae rhai o'r peintiadau yn bryfoclyd, rhai yn ddoniol, ond mae'r cwbwl yn gwneud i chi sefyll yn ôl ac edmygu crefft artist ifanc talentog ac addawol.

Yn Bethel y magwyd Meirion Alan Ginsberg, ac ar ôl cyfnod yn astudio celf ym Mangor a Chaerdydd, mae o bellach yn ôl yn yr ardal yma, yn ceisio dilyn gyrfa fel artist. Mae o'n ceisio cadw'n glir oddi wrth bynciau 'traddodiadol' fel tirluniau, ac mae'n defnyddio llawer ar ei deulu a'i ffrindiau fel ysbrydoliaeth i'w waith. Cafodd ei fagu mewn teulu o beintwyr a cherddorion, a chafodd y gymysgedd yma o wahanol gyfryngau ddylanwad arno. Mae hiwmor yn elfen bwysig iawn yn ei waith hefyd, hynny efallai oherwydd fod comics a chartŵns wedi dylanwadu llawer arno pan oedd yn ifanc.

Mae gan Mei ei wefan ei hun – www.maginsberg.co.uk – ac mae'n werth edrych ar honno cyn mynd draw i'r arddangosfa. Mi gewch chi weld mwy o'i waith yn fan'no, yn ogystal â chael cyfle i ddarllen mwy am hanes yr artist a'r hyn mae o'n geisio ei wneud. Ond fel mae Mei ei hun yn deud, dim ond cyflwyniad ydi'r Wefan. Mae'n rhaid i chi weld y gwaith 'yn y cnawd' i chi ei werthfawrogi yn iawn.

Ewch i weld arddangosfa Mei Dei. Cefnogwch artist ifanc lleol sy'n cael cyfle i ddangos ei waith yn yr ardal. Cefnogwch Oriel sy'n gwneud ei gorau i hybu gwaith artistiaid ifanc lleol. Cerwch i weld llond stafell o beintiadau byw, ac arddangosfa wirioneddol dda.

Clwb Darllen ac Ysgrifennu Creadigol

Mae Clwb Darllen ac Ysgrifennu Creadigol wedi cychwyn yn Ystafell Cymuned Llyfrgell Caernarfon ac yn cwrdd bob yn ail nos Iau am 7 o'r gloch. Dowch â'ch syniadau, ysbrydoliaeth a'ch meddyliau ac hefyd dowch â ffrind. Bydd croeso mawr i bawb.

Bydd te, coffi a bisgedan am ddim. Am fwy o fanylion ffoniwch Gwen Lasarus ar (01286) 679465. Dowch yn llu.

Y Fflam

Gweld y gannwyll wen yn olau
Ym mherfeddion oer y gwyll;
Does ond Un â'i ofal drostai,
Rhai yn dweud nad wyf llawn pwyll.

Erys geiriau mewn cyfrolau,
Nid oes neb yn coelio 'ngair,
Chwerthin maent yn llawn dirmyg!
Fel bu gynt â Baban Mair.

Pan mae rhyfel ar y gorwel
A nesáu mae sŵn y gad;
Pan fo'r gwaed yn staenio'r glaswellt,
Mae pob un yn troi i'w Dad.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-Bont

Dal i Gredu

Trodd y gelyn ddoe yn sur
Am na wyddant beth yw'r gwir;
Mae'r hen stori nawr yn stêl,
Bai'r Blaid Lafur, doed â ddêl.
Bydd can ysgol drwy y sir
Yn edwino cyn bo hir,
'Dal i ganu, dal i fynd,
Mae 'na rai sy'n dal yn ffrind.'

Diffyg arian yn y pwrs
Rhaid i bopeth ddilyn cwrs,
'Boliau mawr' yn San Steffan
Sy'n troi'r plant i gyd allan;
'Does gan Gymro unrhyw hawl
Ond ei alw'n 'ffŵl a diawl'.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-Bont

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

UN DDAETH O BELLTER FFORDD, GAN AROS YMA!

Ia'r *chwynnyn afal pinwydd*, a geir rhwng misoedd Mehefin hyd Hydref, yn ffynnu, llechu, a thyfu, wrth fynedfeydd i gaeau, ar bwys llidiardau, ochrau lonydd, mewn lleoedd diffaith, a mannau sydd wedi cael eu hen sathru a'u mathru gan draed plant dynion ac anifeiliaid. Enw arall ar y planhigyn dan sylw ydyw *chwynnyn pinafal*. O'i gleisio, neu dynnu bysedd eich dwylo ar hyd ei ddail, mi allwch chwi arogli afal pin ar eich croen. Dyna'n ddi-os paham y cafodd yr enw *chwynnyn afal pinwydd*!

Cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd y gwyddys, nid oedd y planhigyn hwn ar gael yma yng Nghymru ond, fel arfer, mi rwyf yn barod i'm cywiro ynghylch hyn oll. Dywedir i'r *chwynnyn afal pinwydd* groesi'r Môr Iwerydd, ac mai talaith Oregon, Unol Daleithiau'r America ydoedd dechrau ei daith yma. Yn y flwyddyn 1886 bu i John Storrie, (1843–1901), gyhoeddi llyfr, sy'n ymdrin â phlanhigion a dyfai yng nghyffiniau Caerdydd, ond nid ydyw'n enwi'n un man y *chwynnyn afal pinwydd*. Yn sicr ddigon, fel y dengys ystadegau, erbyn y flwyddyn 1907 roedd *chwynnyn afal pinwydd* ar gael ym Morgannwg.

Hadau bychain ar y naw sydd gan y planhigyn hwn, a byddent yn cael eu gwasgaru yma a thraw, ac yn egino a throi'n blanhigion mewn lleoedd cleiog a mwdlyd. Credir hefyd iddynt ledaenu ar draws gwlad drwy lynu wrth deiars cerbydau, a hefyd esgidiau teithwyr a phobol wrth eu gwaith!

Fel y dywedwyd droeon gyda'r blynyddoedd, a hynny yn y golofn hon mewn gwahanol bytiau yn ymwneud â byd Natur, y mae bodau dynol yn aml yn cyflwyno planhigion, a hefyd greaduriaid estronol i'w cynefin. Gwneir hynny ar ddamwain, yn fwriadol, neu tra'n mynnu dilyn mympwy a ffansi. Dyna fu hanes dyn erioed. Yn hyn o beth nid oes rhaid ond meddwl am y *rhododendron*, y *gastanwydden bêr*, y *gwningen*, y *wiwer lwyd*, ac yn y blaen – ydyw y mae'r cyfan yma'n bodoli wrth ein traed, yn brawf sicr o gyflwyno. Mater arall ydyw a fu iddynt gyfoethogi, neu dlodi, ein hamgylchfydoedd!

A'r *chwynnyn afal pinwydd*? Pa bryd cyrhaeddodd y cyfryw blanhigyn froydd *Eco'r Wyddfa* nid oes neb yn gwybod i sicrwydd. Ond mi ddaeth, ac aros yma!

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

AROS PRYD

hefo'r 'un garw am ei fol'

Ydwyf! mi rydw i'n dal ati i hel yn fy ngheudwll, a gwlychu rhyw fymryn bach ar fy mhig, a'r tro hwn dan sylw mae,

CIAFFI RHEILFFORDD LLYN PADARN CYFYNGEDIG YN Y GILFACH DDU, LLANBERIS

Lle braf i loetran ynddo; lle diddos dros ben. To uchal iddo, a distia sy'n atgoffa dyn o orsaf drenau. Campus wir! Ffenestri hefo hen ddigonadd o oleuni'n treiddio trwyddynt. Hawdd gweld y trenau yn cyrraedd a mynd. Thomas Bach, trên ager o fri, yn aros cyn ail-gychwyn, a hynny ar ôl cael llwyth go dda o lo i'w fol! Lle llawn cynhesrwydd a chroeso gwladaidd.

Hawdd am awr a hannar ydy mwynhau ista mewn caffi! Lle cysurus rhyfeddol ydy Caffi Rheilffordd Llyn Padarn Cyfyngedig. Ceir popeth ynddo wedi ei osod yn drefnus. Ar ben hyn i gyd y mae'r byrddau a'r cadeiriau yn sgleinio fel arian newydd sbon danlli. Ac yn y cefndir gellir clywed y Gymraeg ar ei gorau.

Dyma le y byddwch chwi'n dotio'n lân ato. A dwy Gymraes o Lanber yn tendio arna i – dwy ferch ifanc llawn croeso, ac yn rhoi o'r gorau wrth eu gwaith o ryngu boddau cwsmeriaid, boed yn ddieithriaid neu'n wynebau cyfarwydd.

'Panad o goffi a theisan gri, os gwelwch yn dda!' gofynnais. Bethan, yn hwyliog-sydyn, a baratodd y coffi. Da dros ben hefyd, heb ormodedd o lefrith ynddo, nac heb ei foddi mewn dŵr! Llond cwpan go iawn hefyd!

Eleri, gwraig Eilir, a oedd wedi paratoi'r deisen gri. Un flasus iawn iawn ydoedd y deisan. Blas rhagor? Oedd wir i chwi! Ond pan fyddwch yn pwyso mynydd a hannar fel fi, a'r Musus, wedi imi ddychwelyd adra, o'm cwmpas hefo llinyn mesur bolia', gwell ydoedd ymatal! Ia, rhag ofn imi fyrstio o'm dillad yntê! Go drapia, sori Eleri a Bethan! Y tro nesa genod, a hynny pan fydda i fel cortyn bwrn gwair o dena, mi wna i fwyta llond plateidia o'r teisenna cri, ac yfad dwsinia o baneidia coffi.

Os ydych yn ymweld â'r caffi cofiwch ofyn am deisenna cri' bendigedig Eleri, a choffi blasus Bethan!

Caffi Rheilffordd Llyn Padarn Cyfyngedig? Rhai o'r meini prawf, a osodais hyd yma i'm hunan, yn ystod y gyfres *Aros Pryd* ydyw (a) y croeso, (b) sut fwyd a geir a (c) ydy popeth yn werth ei gael o ran y pris a'i gynnwys? Yr atebion i (a) hyd (c) ydi YDYNT! Ac annogaf chwi i fynd yno er mwyn cael gweld drosoch eich hunain.

Yn y caffi mae modd helpu eich hunain, (cofio yntê, hebrwng yr hambwrdd hefo chwi!), a dewis o'r llu danteithion a diodydd. Ceir yma'r oer yn ogystal â'r poeth. Ceir yma ddigonedd o ddewis. Prydau trymion ac ysgafn; prydau sydyn neu fel arall. Ar y fwydlen 'yn arbennig am y dydd,' pryd y bûm i yno, cynhwysid y canlynol: *Pysgodyn, sglodion a phys: £4.50; lasagne hefo sglodion, neu daten mewn croen, salad a phys: £4.95; i'r plantos – Byrgyr Cig Eidion: £1.95 a Chŵn poeth am £2.*

Rŵan yntê, a dyma be sy'n dda dros ben – y mae Llwybrau Natur Parc Padarn gerllaw, ac y mae teithwyr, (hyd yn oed 'Un garw am ei fol'), angan bwydydd a diodydd i'w cludo hefo nhw! Ydyw! y mae'r caffi hwn yn paratoi te a choffi ar eich cyfer, a baps cig moch a selsig, fel y gallwch eu bwyta dan y coed neu ar lan y llyn. Go dda yntê!

Ond yr hyn sydd o gaffaeliad ydoedd y gwasanaeth rhadlon diffwdan a gynigid gan genod y caffi, sef Bethan ac Eleri, a'r

prisiau – yn rhai a gadwai drefn taclus ar eich waled, (os oes un gennych!), a'ch poced, h.y. nid oes yma godi crogbris. Ac, yn anad dim byd arall, hefo teuluoedd sy'n cynnwys 5–6 aelod, y mae'r oll a gynigir yn cadw pawb yn hapus!

Da iawn wir ddyweda i, a daliwch ati Gaffi tra rhagorol Rheilffordd Llyn Padarn Cyfyngedig! Ydyw! y mae'n werth mynd yno, coeliwch chwi fi!

Gwybodaeth ychwanegol:
Yn agored saith niwrnod yr wsnos rhwng 10.30am–4.00pm
Os am fwy fyth o wybodaeth, cysylltwch da chwi hefo:
Rheilffordd Llyn Padarn Cyfyngedig Llanberis LL55 4TY.
(01286) 870 549.

Gellir cael taflenni amseroedd y mae'r trenau yn y siop, sy'n rhan o'r caffi. Yno, hefyd ceir ar werth nwyddau amrywiol, gan gynnwys llyfrau Cymraeg o bob math.



Ewch ar y trên i Benllyn, ac yno ymweld â'r cartref Celtaidd a chael paned arall yng Nghaffi Fachwen, (yn agored mis Gorffennaf eleni).

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Dyma fraslun o beth ddigwyddodd i'm brawd, fy chwaer a minnau yn (ystod yr Ail Ryfel Byd) ar Ynys Môn, pryd y cipiwyd ni'n tri oddi wrth Dad a Nain a'n rhoi mewn Cartref Plant ar yr ynys.

Colli a Ffeindio

YR ail o Fedi 1981 oedd y diwrnod mwya tyngedfennol i mi, achos dyma'r noson y cefais alwad ffôn gan berson yr oeddwn wedi gweithio iddo o'r blaen yn Swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Mabwysiadu. Gofynnodd imi fynd at fy Mam cyn gynted â phosib a gofyn iddi ai 'Marian' oeddwn i yn wreiddiol; bod gen i chwaer a thad yn byw yng Nghaernarfon, ac, o bosib, brawd yn Lloegr.

Euthum i dŷ Mam y noson honno ond fedrais i ddim gofyn iddi, a phan gefais alwad ffôn eto y bore wedyn roedd yn rhaid imi gyfaddef hynny. Wel, os oedd pethau i symud ymlaen, roedd yn RHAID imi gael y wybodaeth yma. Fy chwaer oedd wedi cymryd y cam cyntaf i ffeindio'i theulu – fy mwriad i oedd gwneud hyn ar ôl i Mam farw (roeddwn wedi colli Nhad yn 1973). Daeth y penwythnos a phan gyrhaeddais dŷ Mam, roedd modryb yno – roedd y ddwy yn byw drws nesa i'w gilydd – a phan ofynnais y cwestiwn iddyn nhw, roeddynt yn llawn cynnwrf.

'Ma gen i amlen i ti yn y tŷ – llun priodas dy chwaer,' a rhedodd modryb i'w nôl, a dywedodd Mam,

'Wsti be, dwi mor falch dy fod wedi dod o hyd i dy chwaer – mi fydd gin ti rywun rŵan ar ôl i mi fynd.'

Roedd y tebygrwydd rhyngom ein dwy yn hynod, a dim ond tri-mis-ar-ddeg oedd rhyngom. O'r diwedd, roedd gen i rywun yr oeddwn yn debyg iddi. Roedd hyn wedi fy mhoeni, wel nid poeni ond '*curiosity*' – roeddwn wrth fy modd yn edrych ar albwn teulu hefo Mam ac yn methu deall pan nad oeddwn i'n debyg i neb o'r teulu, ond ei gadw i mi fy hun wnes i am flynyddoedd.

Roeddwn wedi clywed y gair Saesneg 'adoptio' ond heb holi ymhellach. Pan ddois yn hŷn roedd gen i rhyw, be ddeudwch chi, *gut feeling* mai *adopted* – 'mabwysiedig' oeddwn i. Roeddwn yn eiddigeddus erioed o bawb oedd gan frodyr neu chwiorydd.

* * *

Ymhen wythnos roeddwn yn cyfarfod Ann (Eirlys yn wreiddiol) a John, ei gŵr, yn ei chartref yng Nghaergybi. Roedd fel petaem yn 'nabod ein gilydd erioed. Lecio yr un petha a bron yr un diddordebau. Petaem wedi'n magu hefo'n gilydd, mwya tebyg mi fuasem wedi bod fel unrhyw ddwy chwaer arall – ffraeo mae'n siŵr – benthyg dillad ein gilydd, rhannu problemau cael a cholli cariad a rhannu cyfrinachau. Dyna'r golled a gawsom ond doedd dim dewis gan blant.

Roedd gan Ann ddau o blant ac roedd yn gwybod ers rhai blynyddoedd bod ganddi chwaer yn rhywle meddai, a dim ond chwilio amdana i oedd ei bwriad ar y pryd. Bu'n nyrsio yn y C&A yn ystod y 60au hyd nes cafodd ei phlentyn cyntaf.

Cyn diwedd y mis, roedd Ann a John, a Gwyn a finna, yn cyfarfod ein tad, Harri, yng Nghaernarfon. Roedd wedi ailbriodi erbyn hyn ac yn byw mewn fflat yno ers deuddeng mlynedd. Sawl gwaith tybed y gwnaethom ni basio'n gilydd ar y stryd yn ystod y cyfnod yma?

Mae'n siŵr bod llawer ohonoch chi wedi gweld y rhaglen deledu honno flynyddoedd yn ôl *Surprise, Surprise* – yr emosiwn dwfn, dwfn yna a'r colli dagrau, ond 'dyn diarth' oedd Nhad i mi – dyn annwyl iawn, ond roeddwn wedi cael Tad a Mam i'm magu, a nhw oedd wedi bod yno fel unrhyw dad a mam arall i'm cynnal drwy storm a hindda ac ni fedrai neb gymryd eu lle. Teimlad o biti oedd gen i tuag ato – y golled fawr a gafodd o beidio cael plant o'i gwmpas gydol ei oes. Gwn mai nid o ddewis oedd hyn, wrth gwrs. Dyna oedd y drefn yr adeg hynny.

Erbyn wythnos Diolchgarwch 1981 roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dod o hyd i'n brawd, John, oedd yn briod ac wedi ymgartrefu ers blynyddoedd yn Essex, mewn lle o'r enw Billericay. Yr oeddem i gyd i gyfarfod yn fflat dad yng Nghaernarfon – John a Sue a'u plant, Bethan, Rachel a Megan; Ann a John a'u plant, Ceri a Gareth o Gaergybi, a finna a Gwyn a Delyth, ein plentyn cyntaf, a oedd ychydig dros ddyflwydd oed (yn ddiweddarach y cyrhaeddodd Awen, wrth gwrs). Edrychai Nhad yn llawn emosiwn wrth weld John ac, yn nes ymlaen, mi welwch pam.

Roedd 37 mlynedd wedi mynd heibio hyd nes y daethom at ein gilydd.

* * *

Y Dechrau Cyntaf

Ionawr 1945 oedd hi a ninnau'r tri bach – John yn bedair, Eirlys yn ddyflwydd a minnau (Marian) yn flwydd – yn byw hefo Dad a Nain ar Ynys Môn. Roedd Mam wedi cael ei chipio i Sanatoriwm Bryn Seiont ger Caernarfon, hefo'r diciâu. Yn

1940 roeddem wedi colli Doreen, ein chwaer hynaf (yn bedair oed), hefo'r un afiechyd.

Fel y gwyddoch, doedd 'na ddim cyfleusterau fel dŵr oer a phoeth na 'stafell molchi i'w cael mewn cartrefi pobl gyffredin bryd hynny. Byddai'r mamau yn cario eu pwcedi at y pwmp agosaf yn y pentref. (Hyd yn oed yn y 50au dwi'n cofio mynd hefo'r plant eraill – pawb â'i bwced – i'r pwmp i nôl dŵr). Fe allwch ddychmygu mor anodd oedd hi i Nain hefo tri o rai bach bywiog o'i chwmpas a Dad yn yr armi. Poen fawr Dad a Nain oedd bod Anwen, ein mam, yn y Sanatoriwm ers dechrau'r flwyddyn a dim gobaith, mae'n debyg, o ddod adref.

Pasg 1945 daeth dynes o'r 'Social' i'n gweld ac, o fewn y mis, rhwygwyd y teulu bach pan aethpwyd ag Eirlys a minnau i gartref plant ar yr ynys. Cafodd John aros hefo Dad a Nain, ond am ba hyd oedd hynny, tybed?

Daeth y rhyfel i ben ym Mehefin 1945 ac yn mis Ionawr 1946, a dad erbyn hyn wedi gadael y fyddin ac yn gweithio fel pobydd yn y pentref ac fel peintiwr a phapurwr i gael dau ben llinyn ynghyd. Ymwelodd yr un ddynes â nhw eto, mewn llwyd o'i phen i'w thraed, heb ddim emosiwn yn agos iddi (ebe Dad yn ddiweddarach) a chyhoeddi wrth y ddau y byddai'n rhaid i John hefyd ymuno â'i chwiorydd yn y Cartref ac y byddai hi a swyddog arall yn galw eto ymhen y mis i arwyddo'r papurau efo Nhad. Roedd calon Dad a Nain yn deilchion.

Daeth y diwrnod ofnadwy yn rhy fuan o lawer i'r teulu bach. Ddechrau Chwefror cyrhaeddodd y ddau o'r 'Social' hefo'r papurau a rhybudd y byddent yn dod i nôl John ymhen pythefnos arall, a bod Dad i ddweud hyn wrth y bychan cyn iddynt alw bryd hynny.

Ymhen y pythefnos a'r ddynes i fod i alw y pnawn hwnnw, doedd dim golwg o John! Gweddïai Harri nad oedd am ymddangos o gwbl, i'r hen ddynes ei ddwyn oddi arnyn nhw) ond rhedodd John i mewn i'r tŷ o rhywle ac ychydig wedyn cyrhaeddodd y ddynes 'lwyd' eto – yr un mor surbwch a diemosiwn – gan geisio lliniaru'r sefyllfa trwy ddweud wrtho 'y câi ddigon o ffrindiau i chwarae hefo nhw yn y Cartref'. Rhedodd y bychan i fyny'r grisiau. Nid ar chwarae bach yr oedd cael John ni i fynd hefo hi. Yn y diwedd bu'n rhaid i Nhad fynd i fyny ato fo a dweud,

'Yli, John, 'ngwas i, mi fyddi'n gwmpeini i Eirlys a Marian a chofia mai chdi ydi'r brawd mawr ac mi gei di edrych ar 'i hola nhw. Mi ddo i a Nain i'ch gweld chi,' triodd Dad ei gysuro. 'Dos i nôl dy deganna, John bach,' meddai Dad. 'Mam, ewch chi hefo fo i bacio'i betha?'

Nid anghofiodd Harri, John na Nain y diwrnod hunllefus hwnnw – John yn gafael yn dynn yng nghoes ei dad ac yntau'n cario byd plentyn pum mlwydd oed yn y ces bach brown, hefo'i injan drên fach goch – ei hoff degan. Dim ond unwaith neu ddwy y daeth Dad a Nain i'n gweld ni i'r Cartref – roedd gorfod dŵad adref hebddon ni yn eu rhwygo'n ddarnau.

Fis Mai 1948, cyrhaeddodd teligram i Dad a Nain. Roedd Mam wedi marw yn y Sanatoriwm a hithau ond wyth-ar-hugain oed.

* * *

Fy Mlynyddoedd Cynnar a Phrofiad Gweithio

Daeth cwpwl o ardal Caernarfon i'r Cartref Plant a dyma finnau yn symud dros y dŵr i'r tir mawr.

Pan oeddwn yn naw oed cefais y syrpreis mwyaf bendigedig erioed – dod adref o'r ysgol a gweld piano sgleiniog yn y parlwr, a bu hon yn ganolbwynt fy mywyd.

Cefais fy magu fel unig blentyn a byddwn wrth fy modd yn chwarae hefo'r llond tŷ o blant yn y fferm nesaf bob penwythnos, a oedd yn gwneud i fyny i ryw raddau am fod yn 'unig blentyn'. Yn y gwanwyn, dŵad adre'n wlyb diferol – sgidiau yn fwd a'm sanau 'run lliw – digwyddai hyn bob tro y byddem yn mynd i'r afon i hel penbyliaid.

Yn yr haf aem i gyd ar ein beiciau dros yr Aber – mynd â brechdanau hefo ni a chael clamp o hwyl. Byddai'n braf drwy gydol gwyliau'r ysgol bryd hynny – pedair wythnos a gaem yn y 50au. Pan fyddai'r byd yn wyn (pob gaeaf bryd hynny) sglefrio ar ddarn o hambwrdd nes byddai ein penolau'n wlyb diferol. Dwi'n dal i gredu bod plant yr oes yma'n cael colled o beidio gweld eira yn y gaeaf – peth mor naturiol, yntê! Caem aeafau caled iawn a byddai fy nhad yn gorfod clirio'r llwybrau at y tŷ. Dod adref o'r ysgol bob nos Fawrth gan edrych ymlaen i wrando ar *Galw Gari Tryfan* ar y radio cyn mynd i'r Gobeithlu am chwech o'r gloch.

Gadewais yr ysgol a chael swydd fel ysgrifenyddes llawfer a theipio yn y Cyngor Sir – y Swyddfa Addysg i ddechrau ac yna Swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn yr Adran Mabwysiadu. Dyna fûm yn ei wneud tan y ganed fy merch hynaf, Delyth, yn 1979. Fe ddaeth Awen wedyn yn 1982. Mor eironig, a dweud y gwir – delio â phobl oedd eisiau chwilio am eu teuluoedd yr oeddwn i am flynyddoedd.

Aeth Eirlys hefo cwpwl Seisnig o Whitby Bay, lle roedd ei thad yn Geidwad y Goleudy. Ond, yn rhyfedd iawn, yn ôl y daeth Eirlys i'r ynys pan gafodd ei thad swydd yn South Stack. Roedd yn wyth oed erbyn hyn. Hithau wedyn yn dilyn cwrs nyrsio ym Manceinion a dod yn nyrs wedyn i'r hen C&A.

Bu John yn y Cartref Plant tan yr oedd yn 8 oed ac ni chafodd blentyndod mor hapus â ni'n dwy. Cael ei symud o un cartref maeth i'r lall fu ei hanes a, hyd y dydd heddiw, dydi John ddim am siarad am y cyfnod hwnnw o gwbl. Roedd y diwrnod pan gipiwyd John oddi wrth ei dad yn mynd i fod, ac i ryw raddau yn parhau i fod, yn hunllef iddo.

Cyn mynd i weithio roedd y ddau – Eirlys a John – mewn ysgolion Eilradd ar Ynys Môn, heb yn wybod, wrth gwrs, i'r naill na'r llall. Aeth John wedyn i'r Coleg Celf yng Nghaerdydd, graddio ac wedyn priodi ac ymsefydlu yn Essex fel athro celf a chrochenwaith mewn ysgol Eilradd yno, lle y bu tan ei ymddeoliad y llynedd. Roedd ganddo weithdy crochenwaith yn Llanfairpwll ac yno y byddai'n ymarfer ei grefft bob tro y byddai ganddo wyliau o'r coleg, ac ni wyddai'n Tad hyn o gwbl ac yntau ond ychydig filltiroedd i ffwrdd.

Diolch bod y drefn wedi newid. Faint o gartrefi eraill gafodd eu rhwygo wrth wahanu'r plant oddi wrth eu teuluoedd ac wedyn oddi wrth eu brodyr a'u chwiorydd? Mor frwnt ac annheg oedd y system yntê!

Fel y dywedais yn gynharach, aeth 37 o flynddoedd heibio cyn y gwelsom ein gilydd eto. Mae gennym lawer o ofod i'w lenwi o hyd, a phan fydd fy chwaer a minnau'n cyfarfod bob mis, os medrwn ni – mwya tebyg dros baned o de neu goffi un ai yn Holland Arms neu yng Nghaffi Treborth – mi fyddwn yn siarad pymtheg i'r dwsin (mi fydda i yn siarad dros Gymru gyfan, dwi'n meddwl!). Os clywch chi ddwy yn clebran yn ddi-stop fel hyn, ni'n dwy fydd yno yn trio rhoi'r byd yn ei le.

Fedar John ddim galw mor aml, felly sgwrs dros y ffôn gawn ni hefo fo. Roedd cael teulu bach ei hun wedi bod o help i John, dwi'n siŵr, a gobeithio rŵan y gwnaiff bod yn Daid ei helpu fwy byth.

Do, mi fuom ni'n lwcus iawn ac fel y dywedodd Dad, roedd Nain wedi dweud wrtho fo flynyddoedd a blynyddoedd ynghynt,

'Wsti be, Hari, rwt ti'n siŵr o gal gweld yr hen blant eto.'

Ar ôl y COLLI, bu'r FFEINDIO!

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.

Golchi a ll'nau Ceir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

01286 871521

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill oedd: £40: Helen Williams, 1 Dolerddi, Waunfawr; £25: Emrys Owen, Bryn Môr, Waunfawr; £10: Olwen Owen, 23 Trefeilian, Waunfawr.

Enillwyr mis Mai oedd: £40: Mr G.S. Hughes, Sŵn y Gwynt, Groeslon, Waunfawr; £25: Mrs Dilys Griffith, 14 Trefeilian, Waunfawr; £10: Mr Gareth Jones, Glyn Coris, Waunfawr.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Alun 'Mabon' Williams, sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd.

DYMUNWN adferiad buan i Dewi Owen, Glyn Awel, wedi iddo gael llawdriniaeth i'w benglin.

CYDYMDEIMLO

Daeth profedigaeth i ran rhai o drigolion y pentref ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atynt yn eu colled a'u hiraeth:

Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, a Mr Eifion Williams, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth o golli brawd.

Mrs Siân Pattchet, Anwylfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Mr Fred Buckley, Stad Croes-y-Waun, wedi iddo golli ei chwaer yn ddiweddar.

Mr Robert Williams a theulu Gwernydd, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iddynt.

Mr Iwan Lloyd Griffith a theulu Tŷ Awelog, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.



Aled Llwyd Griffith, a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu y diweddar Tommi Georginson, a oedd yn un o hogiau Y Waun.

LLONGYFARCHIADAU i Sara ac Iwan Davies, Bryn Melyn, ar enedigaeth merch fach, Cadi Llwyd. Chwaer fach i Siôn Ifan ac Efa Llwyd.

ADRAN BENTREF YR URDD.

Bellach mae tymor yr Urdd wedi gorffen am flwyddyn arall a dwi'n siŵr bod pawb wedi mwynhau y gweithgareddau. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ymweliad gan y Frigad Dân, ymweliadau â stiwdio *Uned 5*, Caergylchu a phwll nofio Bangor. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb fu'n sgwrsio efo'r plant ac i'r rhieni a gymerodd eu tro ar y rota.

Cafodd yr adran hwyl yn yr Eisteddfod Cylch gyda'r parti Cerdd Dant a chafodd y Dawnsio Disgo lwyddiant. Diolch i Mrs Dafydd, Mrs Griffith, Mrs Parry a Sasha a fu'n hyfforddi'r plant.

Bu'r plant yn brysur gyda gwaith Celf hefyd. Cafodd Dafydd, Aled a Morgan lwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch a daeth model Aled yn ail yn yr Eisteddfod Sir hefyd. Da iawn chi, hogia, a diolch i Mrs Siân Williams am ddod i'r Urdd i helpu'r plant.

Bydd y tymor yn ailddechrau yn yr Hydref.

YSGOL WAUNFAWR

Rhodd. Carem fel ysgol ddiolch o waelod calon i deulu y ddiweddar Mrs Jennie Monica Roberts am y rhodd haelionus o £500.00 er cof amdani. Bu Mrs Roberts yn glanhau yn yr ysgol am flynyddoedd lawer ac fe'i cofir fel un gymwynasgar, afieithus ac annwyl iawn.

Pontio Cynradd Uwchradd

Cynhaliodd Ms Sara Maynard (Pennaeth Adran Saesneg Ysgol Brynrefail) sesiwn i ddatblygu gweithgareddau llafaredd gyda disgyblion blwyddyn 6. Roedd y plant wedi mwynhau trafod *Great Expectations* yn fawr iawn. Bydd Ms Maynard yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl yr hanner tymor.

Genod Dawnsio Disgo Waunfawr

Cae'r Gors. Ddydd Mercher Ebrill 16, aeth blwyddyn 2 i ymweld â Chae'r Gors. Cawsant gamu'n ôl i'r gorffennol yng nghwmni Sian wrth iddi sôn am ddathliadau yn y cartref ddau gan mlynedd yn ôl.

Dyma adroddiadau Megan Glyn ac Anest o'r diwrnod.

Roedd Cae'r Gors yn lle tawel iawn. Mae tŷ Kate Roberts yn lle hen iawn, iawn. Cefais amser da yn Cae'r Gors. Roeddwn i yn hoffi gweld Miss Roberts yn gwisgo het hen ffasiwn, roedd o'n ddoniol. Roeddwn i yn hoffi Cae'r Gors. Buaswn i yn hoffi byw yn Cae'r Gors.

MEGAN GLYN JONES, BL. 2

* * *

Roedd Cae'r Gors yn Rhosgadfan. Hen dŷ bach ydi Cae'r Gors. Roedd Kate Roberts yn byw yn Cae'r Gors erstalwm. Cefais fynd i Cae'r Gors i gymharu parti penblwydd heddiw a erstalwm. Cefais fynd i grwydro rownd y tŷ i chwilio am hen bethau. Cafodd rhai plant wisgo dillad hen. Cawsom chwarae pass the parcel i weld teganau hen. Cawsom weld sut fath o fwyd oedd yn cael ei fwyta yn parti penblwydd erstalwm. Gwnes i fwynhau gweld Miss Roberts yn gwisgo het hen ffasiwn ar ei phen. Gwnes i fwynhau crwydro rownd y tŷ i fysnesu yn y stafelloedd i gyd. Cefais amser da yn Cae'r Gors.

ANEST WYN JONES, BL.2

* * *

Yr un modd bu blwyddyn 3, 4 a 5 ar ymweliad yno ddechrau fis Mai a chawsant daith gerdded ddiddorol yng nghwmni Gwydion a Gwenllian, a dysgu am y gwahanol gynefinoedd

Dyma adroddiad Tesni Bl 5, Tomos Parry a Mair Loxton Bl 3.

Ein Trip i Cae'r Gors

gan Mair Loxton, Bl. 3

Dydd Llun , Mai 12fed aeth Bl 3 ar drip i Cae'r Gors. Cychwynnodd y bws hanner awr wedi naw a cyrhaeddodd y bws yn Cae'r Gors tua deg o'r gloch.

Aethom ni i mewn i stafell fawr, ac ar ôl ychydig o amser dechreuodd ni gerdded i waelod mynydd Grug. Cyn ni cyrraedd y gwaelod roedd rhaid cerdded trwy bentref Rhosgadfan. Ar ben y mynydd roeddem yn gallu gweld Ysgol Waunfawr, a tŷ fi hefyd!

Erbyn amser yma roeddwn i bron â llwgu. Eisteddodd Elis, Ioan a fi ar ben garreg i fwyta cinio neis. Roedd y gwynt yn chwythu ysbwriel i bob man ac roedd rhaid i Tomos Sion redeg ar ei ôl.

Ar y ffordd yn ôl gwelsom lama a ceffylau yn y cae. Ar ôl ychydig o amser roeddem yn ôl yn Cae'r Gors. Yna aethom i weld tŷ Kate Roberts. Gofynnais lawer o cwestiynnau i'r ddynas!

* * *

Trip Cae'r Gors

gan Tomos Parry, Bl.3

Dydd Llun, Mai 12, aethom ni fel dosbarth i Cae'r Gors. Aethom ni yno ar y bws ac roeddwn yn eistedd wrth ymyl Huw.

Pan gyrhaeddom ni ganolfan Cae'r Gors mi roedd yna frawd a chwaer, Gwydion a Gwenllian, yn disgwyl i fynd â ni ar daith gerdded fyny Moel Smytho. Ar ôl rhyw awr a hanner roedd pawb o grŵp ni eisiau bwyd. Pan gyrhaeddom ni y top, roeddwn yn falch i mi gael cinio. Wrth i ni fwyta bwyd, roedd cap Elis yn hedfan i ffwrdd bob dau funud!

Wrth gerdded i lawr gwelsom lama yn y cae efo ceffylau.

Pan gyrhaeddodd pawb Ganolfan Cae'r Gors oedd pawb yn falch oherwydd roedd ein traed i gyd yn brifo!

* * *

Ymweliad â Cae'r Gors

Tesni, Bl. 5

Ar ôl cyrraedd Cae'r Gors aethom i weld y tŷ a'r arddangosfa. Yn y tŷ roedd yna gegin a phethau i olchi dillad ac ystafell wely.

Wedyn aethom i edrych ar y defnydd tir. Aethom ni am dro i weld os oedd y defnydd tir yn newid ac roedd o yn newid, a bob tro roedden yn mynd yn bellach o'r pentref roedd y tir yn newid mwy.

Aethom am dro wedyn ar Moel Smyddo. Pan oeddem yn cerdded i fyny Moel Smyddo roeddem ni wedi blino ac roedd ein coesau ni'n brifo. Yna pan gyraeddon y copa cawsom ginio. Roedd pawb eisiau bwyd ac wedi blino'n lân.

* * *

Plannu Hadau yn yr Antur. Diolch, fel arfer, i Anna Williams am roi o'i hamser i blannu hadau gyda'r plant yn yr Antur ddiwedd Ebrill. Bydd ein cyfeillion yn yr Antur yn eu meithrin fel eu bod yn barod i'w plannu yn yr ardd ac yn y blychau blodau o gwmpas yr ysgol ar ôl y Sulgwyn.

Gwersi Tenis. Daeth dau hyfforddwr o'r Ganolfan i'r ysgol bnawn Llun, Ebrill 21ain, i roi blas ar wersi tennis i blant blwyddyn 1, 2, 3 a 4.

Cwmni'r Frân Wen. Cafodd disgyblion 3 a 4 gyfle i weld prosiect diweddaraf Cwmni'r Frân Wen 'Y Crwban Mwya yn y Byd' gan Angharad Tomos ddydd Iau, Mai yr 8fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r perfformiad yn arw, ac ambell un yn eu dagrau ar ddiwedd y sioe.

Myfyriwr. Treuliodd Miss Manon Jones gyfnod o fis yn ein cwmni. Gobeithio iddi fwynhau'r profiad o ddysgu blwyddyn 2. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Twrnament Rygbi Clive James. Fore dydd Mercher, 14 Mai, bu'r tîm rygbi yn cystadlu yn y twrnament rygbi yng Nghaernarfon. Dyma adroddiad gan Llywelyn a Dafydd Lloyd, Blwyddyn 6.

Twrnament Rygbi

gan Llywelyn

Ar dydd Mawrth 14/5/08 aethom ni i'r Twrnament Rygbi yng Nghaernarfon. Ein harweinydd ni oedd Mr G. W. Williams, y tîm oedd Peter, Dafydd Ll., Ryan Dion, Gwyndaf, Guto, Shaun a fi, sef Llywelyn.

Y gêm gyntaf oedd yn erbyn Ysgol y Gelli. Roedd y gemau yn 8 munud bob ochr. Roedd yr ychydig funudau nesaf yn dyngedfennol, pwy oedd am sgorio y cais cyntaf? Yr eiliad honno cafodd Gelli y cais cyntaf ac aeth y chwiban am hanner amser. Doedd Mr Williams ddim yn flin o gwbl,

'Anlwcus go iawn, ryda chi yn dîm gwell na nhw,' meddai. Aethom ni ar y cae yn ôl i chwarae rygbi. Roeddem ni yn chwarae ein gorau glas, wedyn cafodd Peter gais.

'HHHWWWRRREEE!!!' gwaeddodd y tîm. Wedyn roedd y chwaraewyr i gyd yn brwydro am gais fel Brwydr Hastings! Ond Gelli gafodd y cais i ennill y gêm

Yr ail gêm oedd yn erbyn Llanrug, blwyddyn 6 i gyd. Roedd y tîm yn un ofnadwy o dda! Colli wnaethom ni o 4 gôl i ddim.

Trefnodd Mr Williams gêm gyfeillgar ac enillom ni 4–1. Dyma fy marn, 'Dim ots bod ni wedi colli, cawsom andros o hwyl.'

* * *

Twrnament Rygbi

gan Dafydd Lloyd Williams

Ar ddydd Mercher roedd rhai o ddisgyblion Ysgol Waunfawr yn mynd i'r twrnament rygbi gyda'r ysgol. Aeth Mam Peter Williams a Mam Guto Roberts â ni i'r twrnament. Roedd y gemau yn cael eu chwarae yn y cae rygbi yng Nghaernarfon. Ar ôl tua chwarter awr cyrhaeddom yng Nghaernarfon.

Ar ôl cyrraedd gwelsom y lîg roeddan i mewn ynddo, roedd Llanrug a Y Gelli. Roedd y ddau dîm yn rhai anodd.

Y gêm gyntaf oedd Llanrug A yn erbyn Y Gelli. Curodd Llanrug A 6–0. Y gêm nesaf oedd Waunfawr yn erbyn Y Gelli. Sgorion nhw gyntaf a wedyn sgoriodd Peter ag yn y munud olaf sgoriodd Y Gelli felly curon nhw 2–1. Llanrug oedd ein gêm nesa ag fe gurodd Llanrug A 4–0.

Ar ôl hynna cawsom gêm gyfeillgar yn erbyn Llanrug B, cawson 7 munud bob ochor ag fe enillon ni 5–1. Sgoriodd Peter 2, fi 1, Daf M. 1, Cian 1.

Ar ôl y gêm aethom adref i Rhyd Ddu a cario ymlaen efo'r gweithgareddau.

* * *

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Rhyd-ddu. Treuliodd blwyddyn 6 dridiau yn Rhyd-ddu yn gwneud gweithgareddau awyr agored gyda Mrs Morfudd Thomas a Mr Cemlyn Jones. Datblygwyd sgiliau tîm a chafodd y plant andros o hwyl gyda'r gweithgareddau dŵr, ond uchafbwynt yr arhosiad yn sicr oedd y daith gerdded i gopa'r Wyddfa. Dyma adroddiad Faye, Mared Rhys a Mared Ynyr.

Y Daith I Rhyd-Ddu

Dydd Mercher Mai 14 am chwarter i naw roedd dosbarth blwyddyn chwech yn disgwyl am fws wrth ymyl y siop sglodion a pysgod. Roedd 19 ohonom yn mynd i Rhyd-Ddu. Doedd Beca ddim yn mynd oherwydd roedd hi yn Twrci, roedd Gruffydd yn sâl, roedd Dafydd Glyn wedi disgyn oddi ar wal ac roedd Shannen yn yr ysbyty yn tynnu ei thonsils. Roeddem yn mynd ar fws Sherpa a pob dydd roeddem yn gorfod talu £2.00 am docyn diwrnod.

Ar ôl cyrraedd Tŷ'r Ysgol roedd Cemlyn a Morfudd yn disgwyl amdanom. Yn gyntaf cawsom dost sydyn a mynd at ein ystafelloedd i ddadbacio. Cyn inni fynd i'n ystafelloedd roedd yn rhaid i Faye, Gwenllian, Mared a fi olchi'r llestri. Erbyn roedd pawb yn barod fe aethom am dro o gwmpas Rhyd-Ddu.

Cyn cinio cawsom ddwy weithgaredd, yr un cyntaf oedd y gêm rhaff. Roedd pawb yn gorfod tynnu y rhaff yn dynn iawn tra roedd rhywun yn cerdded ar ei hyd a roedd y person hwnnw yn gorfod pwyso ar bennau y plant eraill er mwyn mynd o'i gwmpas yn saff. Yna roeddem yn cael ein rhannu i ddau grŵp o naw a gorfod gweithio allan sut y bysan ni'n gallu eistedd ar lin ein gilydd wrth ffurfio cylch. Roedd yn weithgaredd eithaf anodd ond wrth weithio gyda'n gilydd cawsom syniad ac roedd hi yn gweithio.

Cawsom ginio sydyn roeddem wedi paratoi yn ôl yn yr ysgol ac ar ôl hynny roedd rhai o'r bechgyn yn gorfod mynd i'r twrnament Rygbi. Fe aeth y gweddill ohonom am dro o gwmpas y tri llyn, sef Llyn Cwellyn, Llyn Dywarchen a Llyn y Gadair. Ar y ffordd yno gwelsom Lloches Taylor yng nghanol y goedwig. Wrth ymyl ei Lloches hi roedd lle bach yn llawn brigau a coed. Felly cafodd Cemlyn syniad o weithgaredd arall inni, sef cael ein rhannu mewn grŵp o bump a grŵp o chwech. Y weithgaredd oedd gwneud Lloches yr un. Roeddwn i efo Faye, Mared, Lewis a Gwenllian. Cawsom le da iawn i wneud ein Lloches ni, roedd gennym hanner awr i adeiladu un. Yn y diwedd roedd ein Lloches yn edrych yn fendigedig hefo to, blodau a hyd yn oed drws arbennig. Hefyd roedd un ni yn dwt ac yn daclus ond roedd Lloches y grŵp arall braidd yn flêr, roedd o yn edrych fel eu bod nhw wedi lluchio pob dim i bob man.

Ar ôl gwneud hynny fe aethom at Llyn Dywarchen ac fe adroddodd Cemlyn stori inni. Roedd y stori yn ddiddorol hefyd. Ar y Llyn gwelsom hwyaden o Canada. Ar ôl hynny fe aethom yn ôl i'r ysgol ac roedd yr hogia Rygbi wedi cyrraedd yn ôl wedi gwneud yn dda ond dim wedi ennill. Cawsom baned a teisen yn sydyn ac yna cawsom weithgaredd tîm arall.

Roedd yr hogia yn gorfod tynnu crysau-T nhw ac roedd pawb yn gorfod gwisgo dillad hen oherwydd gweithgaredd dŵr oedd o. Roeddem yn mynd yn ôl at ein grwpiau o naw i'w wneud o. Y gweithgaredd oedd fod yna bêl mewn peipen ac roedd pwcedi o ddŵr. Roedd rhai yn gorfod mynd â rheini at y plant oedd yn dal Landeri er mwyn i'r dŵr fynd i'r beipen ond y peth mwyaf anodd oedd roedd tyllau yn y beipen, felly roedd y plant eraill yn gorfod rhoi eu bysedd ar y tyllau fel bod y dŵr ddim yn dod allan.

Yn y nos cawsom wylio ffilm *The Day After Tomorrow.* Erbyn y diwedd roedd hanner awr ar ôl ond roedd hi yn rhy hwyr, felly roedd yn rhaid inni fynd i'r gwely.

Cododd pawb i yn gyffrous oherwydd roeddem yn mynd i gopa'r Wyddfa ar daith gerdded. Cawsom esgidiau cerdded a sachau cefn gennyn nhw. Cyn mynd roedd yn rhaid iddynt wneud brechdanau a gwneud yn siŵr fod popeth gennym. Roeddem yn cael bws i Pen y Pas. Roedd hi yn daith galed oherwydd roedd llawer o risiau ac roeddem yn gorfod dringo ychydig.

Bob tro roeddym yn stopio roedd Dion yn gwneud nyth bach o'i gwmpas ac yn mynd i gysgu yn sownd. Ar ôl cyrraedd y Copa roeddwn ofn oherwydd roeddem mor uchel ond roedd yr olygfa yn hyfryd. Roedd Dion wedi mynd i gysgu ar y Copa hefyd. Roedd mynd i lawr yn eithaf anodd oherwydd roedd y llwybr yn llawn cerrig, felly roedd llawer ohonom yn syrthio. Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r ysgol roedd pawb wedi blino ond mewn chwinciad roedd pawb allan yn chwarae. Roedd Morfudd a Cemlyn wedi cael sioc.

Yn y nos gwelsom ddiwedd *The Day After Tomorrow* ac roedd o yn andros o dda, roeddwn yn wên o glust i glust. Ar ôl hynny cawsom gêm o Bingo, roeddwn wedi gwirioni oherwyddd cefais i Bingo! Y noson honno dywedais,

'Wna i ddim cysgu tan tua dau o'r gloch y bore,' ond fe es i i gysgu yn syth, roeddwn wedi blino gymaint ar ôl y daith hir.

Y peth cyntaf wnaethom oedd gwneud mwy o weithgareddau tîm. Roeddem yn mynd yn ôl i'n timau o naw. Yr un cyntaf gawsom ni wneud oedd y Bêl a'r Landeri. Roedd pawb yn cymeryd Lander ac roedd Morfudd yn rhoi Pêl i'r Lander cyntaf ac wedyn roedd pawb yn gorfod mynd er mwyn cael y Bêl i mewn i'r bwced heb ei gollwng. Y gweithgaredd nesaf gawsom oedd gafael ar y rhaff efo mygydau am ein llygaid ac roeddem yn gorfod ffurfio sgwâr ac yna triongl, roedd hi yn anodd ofnadwy. Y gweithgaredd olaf oedd Planciau. Roeddem yn mynd mewn grŵp o bedwar a thrio ennill y ras, roeddwn i efo Gwenllian, Guto a Kai a daethom yn ail. Roedd y tîm buddugol yn gorfod mynd mewn ras yn erbyn yr athrawon. Ar ôl hynny fe aethom wrth ymyl yr Orsaf Drên i gael cinio. Ac aethom i'r pub i gael diod o Lemonade, Coke neu Oren.

Ar ôl cyrraedd adref roeddwn yn siarad efo Mam a Dad am oesoedd oherwydd roedd o wedi bod yn brofiad bythgofiadwy.

MARED RHYS JONES Bl.6

* * *

(Mwy drosodd)

Y Daith i Fyny'r Wyddfa

Ar y 15fed o Fai, 2008, aethom ar daith i fyny'r Wyddfa. Roedd rhaid i flwyddyn chwech Ysgol Waunfawr i gyd wisgo dillad addas i gyrraedd copa'r Wyddfa. Ar ôl pacio ein sachau cerdded trwm, neidiodd bawb ar fws i fynd i Pen Y Pass.

Daeth dyn a dynas o'r enw Morfydd a Cemlyn efo ni i helpu ar yr daith flinedig. Rhedais nerth fy nhraed oddi ar y bws. Gwelais y copa a phenderfynais i beidio rhoi y ffidil yn y to! Roedd y sachau cerdded ar ein cefnau yn anferth! Pan gychwynnodd pawb gerdded, teimlais yn gyffrous iawn wrth droed yr Wyddfa. Doedd yr Wyddfa ddim yn gwisgo'i chap, felly roedd pawb yn gobeithio gweld golygfeydd arbennig.

Cerddais efo fy ffrindiau gorau: Mared Ynyr, Mared Rhys a Gwenllian. Yn anffodus doedd Beca ddim yn gallu dod. Ar ôl tua hanner awr o gerdded, roedd pawb wedi blino'n lân. Eisteddodd pawb i orffwys ac i fwyta un o'n brechdanau. Gwelais fynydd Crib Goch a meddyliais bod rhaid i'r copa fod yn agos, ond wedyn gwelais fynydd yn y cefndir... Yr Wyddfa! Roedd y daith am fod yn hir iawn.

Gwenodd pawb o glust i glust pan dynnodd Mrs. Dafydd lun o bawb ar ei chamera. Gofynnais wrth Cemlyn os bysa'r genethod yn cael arwain y dosbarth. A felly doedd y genethod ddim yn gorfod bod yn y cefn.

Teimlais yn flinedig iawn ar ôl cyrraedd hanner ffordd. Roedd fy sach cerdded yn rhoi pwysau mawr ar fy nghefn. Gwelais Llyn Glaslyn odanom, roedd y dŵr yn edrych yn groesawus iawn. Dim ond chwarter y ffordd oedd i fynd, roedd pawb bron yna! Roeddym ar y rhan anoddaf o'r daith i gyd. Roedd y ffordd yn serth ac yn gul, roedd yr lôn yn droellog iawn ac yn igam-ogam. Edrychais yn ddewr ar y copa! Roedd pawb yn anadlu'n uchel ac yn sydyn, ar ôl rhedeg i fyny y lôn igam-ogam, gwelais y copa yn glir. Roedd o'n edrych yn hardd!

Cerddodd pawb y camau olaf i fyny at y copa! Cerddais i fyny'r grisiau ac ar y funud yna, fi oedd y person uchaf yng Nghymru a Lloegr! Gwelais bopeth o Waunfawr i Landudno. Bwytais y gweddill o fy mwyd ac aethom yn ôl i lawr ffordd y Snowdon Ranger.

Roedd y ffordd i lawr yn serth ond yn hwyl. Siaradom am oesoedd! Roedd pawb yn teimlo'n hapus! Roedd fy nhraed yn brifo'n arw! Roedd y daith yma yn arbennig. Taith fythgofiadwy!

FAYE LATHAM

* * *

Y Daith i Rhyd Ddu

gan Mared Ynyr

Dydd Mercher, Mai y pedwerydd ar ddeg tan yr unfed ar bymtheg, aeth plant blwyddyn chwech ysgol Waunfawr am drip i Ryd Ddu, am ddwy noson. Aeth Mr Williams a Mrs Dafydd efo ni fel aelodau o staff o ysgol Waunfawr. Roedd Cemlyn a Morfydd yn edrych ar ein holau ni hefyd. Nhw oedd yn trefnu beth roedden ni yn ei wneud am y tri diwrnod nesaf. Roeddwn i yn hoff iawn ohonyn nhw, roedden nhw yn glên dros ben.

Am chwarter i naw cychwynnodd y daith i Ryd Ddu. Cerddom i lawr at y siop sglodion i ddal y bws. Roedd pawb yn gyffrous iawn, roedd hyd yn oed yr athrawon yn edrych fel eu bod nhw yn edrych ymlaen i fynd yno!

O'r diwedd daeth y bws ac aeth pawb arno fel dwn i'm be. Roeddwn i yn edrych yn hurt yn mynd ar fws efo ces anferth, ces clustog, bag mawr trwm ar fy nghefn a sach cysgu.

Cyrhaeddom yr hen ysgol yn Rhyd Ddu. Dyna lle cafodd T.H. Parry-Williams ei fagu. Bardd, awdur a llenor enwog oedd T.H. Parry-Williams. Aethom i fewn i'r ysgol ac i'r tŷ ac roedd llwythi o ffeithiau diddorol am T.H. Parry-Williams, a rhai o bethau a ysgrifennodd o, er enghraifft 'Tŷ'r Ysgol' a 'Hon'.

Roedd popeth yn mynd yn wych tan dywedodd Morfydd un peth, dywedodd yr union eiriau hyn, 'Y chi fydd yn gyfrifol am lanhau ar eich holau a golchi y llestri.' Roedd cegau pawb yn led y pen. Ac i wneud y peth yn waeth y fi a fy ffrindiau oedd yn gorfod gwneud y shifft gyntaf! Ond o leiaf wedyn roedd o wedi ei wneud. Roedd fy mysidd wedi crebachu. Felly aethom i fyny i'n ystafell wely i ddabacio. Ac yna fe ganodd y gloch ar gyfer y weithgaredd gyntaf.

Ein gweithgaredd gyntaf ni oedd gwaith grŵp, felly cerddom ar draws i'r orsaf drên. Cerddom i le gwastad i gael gwneud y weithgaredd yn well. Y weithgaredd oedd cerdded ar raff mewn cylch tra roedd gweddill y tîm yn gafael yn y rhaff yn dynn.

Aethom ymlaen wedyn i wneud y weithgaredd nesaf, sef eistedd mewn cylch ond roedd raid i bawb eistedd ar lin rhywun. Felly roedd pawb yn disgyn! Ond roesom ni ddim ffidil yn y to. Felly fe lwyddom ni i orffen y dasg.

Ar ôl gwneud y tasgau yna aethom am dro i'r goedwig. Roedd yr haul yn danbaid. Felly roeddwn i yn wyn fel dyn eira ar ôl rhoi llwythi o eli haul fel fy mod i ddim yn llosgi. Cawsom ein cinio ar ôl ffindio cysgod. Yng nghanol y goedwig ffindiom loches tu ôl i dŷ un ohonom ni, sef Taylor. Hi a'i brawd oedd wedi gwneud y lloches. Roedd y lloches yn edrych yn wych. Fyswn i wrth fy modd yn cael rhywbeth tebyg fy hun yn yr ardd. Roedd pob math o bethau diddorol yn y lloches, fel byrddau, cadeiriau a llawer mwy.

Yna meddyliodd yr athrawon ar ôl gweld y lloches. Ac wedyn cawsom dasg arall ac y dasg oedd gwneud lloches mewn timau o chwech. Roedden ni yn cael hanner awr i wneud y lloches. Roedd y lloches yn edrych yn anghofiadwy. Rhoddais begiau i ddal ein hetiau a drws prydferth. Aethom wedyn i weld lloches y tîm arall. Ond roeddwn i yn teimlo bod y tîm arall angen cydweithio yn well. Ond pawb a'i farn. Aethom wedyn mlaen efo'r daith cyn iddi hi nosi.

Aethom gyferbyn â mynydd mawr. Roeddwn i wir yn teimlo fel rhoi ffidil yn y to! Ond na roeddwn i am ddyfalbarhau. Ar ôl mynd gyferbyn â fo aethom at llyn Dywarchen. Mae ynys yn llyn Dywarchen ac mae gwyddonwyr wedi gwneud ymchwiliad ac mae'n edrych yn debyg bod yr ynys yn arnofio. Cawsom y stori am y tylwyth teg wrth ymyl y llyn.

Roedden ni wedi dewis diwrnod gwych oherwydd gwelsom chwiaid o Ganada. Roedden nhw wedi hedfan milltiroedd, roedd y daith yn anhygoel. Aethom wedyn ymlaen am llyn y Gadair. Roedd y llyn yn brydferth iawn. Ar ôl taith hir iawn cyrhaeddom yn ôl wrth ymyl yr hen ysgol.

Aethom yn ôl i ein ystafelloedd i newid ac i gael te a chacen. Yn hwyrach yn y nos gwnaethom weithgaredd olaf y dydd. Er bod hi yn hwyr roedd yr haul yn danbaid. Y weithgaredd oedd trio cael pêl i fyny'r landar. Ond roedd tyllau ynddo, felly roedd raid i ni lenwi y tyllau efo ein bysedd i allu cyrraedd y bêl. Ein tîm ni oedd yn fuddugol yn y gêm.

Roeddwn i wedi blino'n lân ac roedd hi'n amser swper. Cawsom spaghetti bolognaise i swper. Esi i newid i fy nillad nos i gael ymlacio tra roeddwn i yn gwylio'r ffilm sef (The Day after Tomorrow). Roedd y ffilm yn wych. Aethom i gysgu yn olew, wel olew i mi efallai ddim hanner nos oedd yr amser esi i gysgu. Oherwydd roedd diwrnod blinedig o'n blaen.

Fe gaiff un o'r plant eraill ddweud yr hanes am y daith i gopa'r Wyddfa.

* * *

Talebau Tesco. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich talebau Tesco. Eleni rydym am brynu microscopau ar gyfer yr ystafell gyfrifiaduron.

Gala Nofio. Dymunwn yn dda i bawb fydd yn cystadlu yn y Gala Nofio yng Nghaernarfon ddydd Iau, Mai yr 22ain.

Ffarwelio. Dymunwn yn dda i Elis a Guto yn eu hysgol newydd yng Nghaerdydd. Pob lwc i chwi'ch dau, gan obeithio y byddwch fel teulu yn hapus yn eich cartref newydd.

SIALENS I GÔR Y WAUN

Yn eu cyfarfod blynyddol diweddar taflodd eu Cadeirydd, Sam Davies, sialens i'r aelodau y gallent fod yn gôr enwog ond iddynt ymroi i waith caled dros y misoedd nesaf. Bydd y Côr yn perfformio gwaith enwog Robat Arwyn, 'Er Hwylio'r Haul', yng nghwmni Iwan Parry ac Alwen Derbyshire, yn Galeri, Caernarfon ar 18 Hydref.

Dywedodd Sam Davies fod y Côr yn mynd o nerth i nerth a chanddo 38 aelod bellach, er bod angen aelodau newydd yn adran y dynion (bas a thenor).

'Rydym yn anelu at berfformio mwy o gyngherddau,' meddai, 'a chystadlu mewn rhai eisteddfodau yn ogystal ac ymweld â'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon. Rydym hefyd yn ddiolchgar eithriadol i Gist Gwynedd am eu rhodd hael, sydd wedi'n helpu i gyrraedd y nod o fil o bunnoedd er mwyn prynu piano newydd i'r Côr.'

SAM DAVIES
Cadeirydd

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PENODIAD. Llongyfarchiadau i Nia Oliver, Gors, ar ei phenodiad fel Pennaeth mewn Gofal yn Ysgol Gymuned Cwmyglo. Bu Nia yn aelod o staff yr ysgol ers chwe mlynedd. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. *Cymdeithas y Capel*. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos lau, Mai 8fed. Cadeirydd y noson oedd Elen George, Sŵn yr Engan. Yn dilyn gair o groeso cynnes i bawb fe'n harweiniwyd mewn myfyrdod ganddi yn seiliedig ar un o gerddi Waldo.

Ymhellach cyflwynodd y siaradwr gwadd, sef ei chymydog, Gwyn Hefin Jones. Testun ei sgwrs oedd 'Shackelton a'i gyfaill o Gymro'. Roedd ei ymweliad ag Antartica yn ddiweddar wedi creu diddordeb amlwg yn y testun a phrofiadau personol yn cyfoethogi'r sgwrs. Diolchwyd yn gynnes iawn i Hefin gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mehefin 5ed. Y siradwr gwadd fydd Hywel Roberts, Caernarfon, ar y testun 'Morwyn Glasgwm Hall', gyda Lowri Roberts Williams yn cadeirio'r noson.

Cofion. Yn ystod oedfaon Mai cyfeiriwyd at rai o'r aelodau nad oedd yn dda eu hiechyd. Bu Joan Williams yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty a threuliodd Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, rai dyddiau yn Ysbyty Gwynedd, lle hefyd ar hyn o bryd mae Dilys Wyn Morris yn derbyn sylw meddygol. Anfonwn ein cofion cynhesaf at y tair ohonynt.

Oedfaon Mehefin

1: am 5.30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel
8: 5.30: Parch R.E. Hughes, Nefyn.
15: 10.00: Parch Ddr Alwyn Roberts, Tregarth
22: 5.30: Mr Maldwyn Thomas, Bangor
29: 5.30: Mr John H. Hughes, Llanberis

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Mai, dan lywyddiaeth Pat Jones, darllenwyd llythyr y mis. Cafwyd trafodaeth ar yr addunedau a phleidleisio, yna pasio'r bleidlais ymlaen i'r cynrychiolydd sydd yn mynd i'r cyfarfod blynyddol cenedlaethol yn Lerpwl.

Ar ôl trafod materion y gangen croesawyd Myfyr ac Eleri Roberts o Ynys Môn a chafwyd Cwis ganddynt. Roed yn noson hwyliog iawn a phawb wedi mwynhau.

Paratowyd y te gan Meria a Carol ac enillwyd y raffl gan Mary. Bydd y cyfarfod nesaf at 19 Mehefin.

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Blodau Racca

(Alwyn and Sarah Jones)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Ffrwydriad y Powdwr Oel, 1869

Digwyddodd hyn ger y Fricsan yng Nghwm y Glo, bu farw rhai a niweidwyd eraill. O'r diwedd mae cofeb lechen wedi'i gosod ar wyneb y graig ar ochr y briffordd, dros y ffordd i'r Fricsan. Mr Martin Kressman o Gwm y Glo roddodd y plac ac fe'i gosodwyd gan Gyngor Cymuned Llanrug.



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Dydd Mawrth, 6 Mai, treuliodd yr aelodau a'u ffrindiau ddiwrnod ar Ynys Môn. Cafwyd cinio blasus wedi ei baratoi gan ferched eglwys Sant Maelog yn yr eglwys ac wedyn cafwyd sgwrs ddiddorol gan Canon Madalaine Brady ar y ffordd mae'r eglwys wedi cael ei moderneiddio heb dynnu dim oddi ar ei chymeriad.

Cafwyd taith o gwmpas yr Ynys a diweddu'r diwrnod yn Pringles. Enillwyd y rafflau gan Miss Meira Williams, Mr Stanley Owen a Mrs Kathleen Jones.

DYMUNA Elwyn Foulkes, 3 Rhes Bryn, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, anrhegion, y galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafodd pan oedd yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yn Festri Capel Ebeneser, Deiniolen. Cafwyd pnawn hapus a hwyliog gyda phlant ysgolion Sul Ebeneser, Bosra a Chapel Coch yn cymryd rhan. Cymerwyd y rhan agoriadol gan aelodau ysgol Sul Ebeneser.

Mwynhaodd y plant a'r oedolion ganu'r emynau o dan arweiniad unigryw Gareth Jones, gyda Mrs Falmai Pritchard wrth yr offeryn. Cafwyd anerchiad hwyliog dros ben gan Dafydd Pritchard. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y Gymanfa gan y Parch John Pritchard.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:
John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau: **31 Awst 2008**
Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Caffi Caban

ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GWAELEDD. Dymunwn wellhad buan i sawl person sydd ddim yn dda yn y pentref, rhai yn yr ysbyty a rhai wedi dod adref. Cofiwn amdanoch.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Ellen ac Anthony ac enedigaeth mab bach, Elis Marc. Mae Taid a Nain, Gordon ac Ann Davies, Sycharth, Bryn Moelyn, wedi gwirioni. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr a phen-blwydd hapus i Elaine Jones, Siop Trin Gwallt, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb 100 am fis Mai oedd: £20: Mrs G. Roberts, Hafle; £7: Mr A. Parry, Bryn Heli; £5: Mrs E. Davies, Llys Alaw.

DIOLCHIADAU. Dymuna Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Unwaith eto, diolch o galon.

APÊL 'AR Y GWEILL' ACHUB Y PLANT. Mae Ellen Roberts, Cartref Foelas, Llanrug (3 Bryn Moelyn gynt) wedi ymateb i Apêl Eurgain Haf drwy wau sawl het fach i blentyn newydd-anedig mewn gwledydd fel Tibet. Da iawn chi.

TAITH GERDDED I ELUSEN. Mae Ruth Martin, cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, ar hyn o bryd ar daith gerdded o Land's End i John o'Groats i gasglu arian i Sefydliad Aren Cymru (*Kidney Wales Foundation*). Mae ei rhieni, Harry a Megan Martin, wedi cefnogi'r achos am flynyddoedd ac mae ei brawd, John, yn gwneud gwaith ymchwil gyda'r sefydliad yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.

Gadawodd Ruth Land's End ar 3 Ebrill ac mae'n gobeithio gorffen y daith hir yn John o'Groats ddechrau mis Gorffennaf. Gellir cysylltu â hi a dilyn ei hymdrech ar www.ruthswalk.co.uk.

Os hoffech chwithau ei chefnogi i hyrwyddo'r gwaith pwysig o roi bywyd newydd i'r cleifion a'u teuluoedd sydd yn dioddef o anhwylder yr arennau, gellir anfon unrhyw gyfraniad (neu siec i Sefydliad Aren Cymru/ *Kidney Wlaes Foundation*) trwy law Harry a Megan Martin, Fairhaven, Llanrug (Ffôn 01286 650316). Diolch yn fawr.

YSGOL LLANRUG

Taith Gerdded. Diolch i bawb a gefnogodd y daith gerdded noddedig. Bu ymateb gwerth chweil unwaith eto.

Parc Glynllifon. Fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Coed', aeth blwyddyn 1 a 2 i Barc Glynllifon i wneud amrywiol weithgareddau yn y goedwig. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn – diwrnod i'w gofio!

Mawr yw ein dyled i Nicky o'r Comisiwn Coedwigaeth am baratoi'r gweithgareddau ac am ei chwmni.

Pêl-droed. Bu tîm pêl-droed y merched yn cystadlu yn Aberystwyth yn nhwrnament yr Urdd. Er nad oeddynt yn fuddugol fe chwaraeon nhw'n arbennig o dda ac rydym yn eu llongyfarch yn fawr iawn.

Diwrnod i'w Gofio. Ar ddau ddiwrnod yn olynnol, mewn tywydd bendigedig, cafodd disgyblion blwyddyn 6 y profiad bythgofiadwy o gerdded i fyny i gopa'r Wyddfa. Roedd y golygfeydd werth eu gweld. Da iawn chi am eich ymdrech!

Diolch i bawb sydd wedi hel y talebau Tesco. Cofiwch amdanon ni os oes gennych rai ar ôl.

Rygbi. Mynychodd dau dîm o'r ysgol dwrnament rygbi yng Nghlwb Rygbi Caernarfon. Mwynhawyd yn fawr gan bawb a chyrhaeddodd un tîm y brig gan ennill y twrnament am y tro cyntaf erioed. Da iawn chi.

Urdd. Daeth llwyddiant i ddau o'r ysgol mewn cystadlaethau unigol yr Urdd eleni. Enillodd Siôn Eifion Land, Bl 3, y gystadleuaeth Graffeg Cyfrifiadurol, a daeth Leisa Gwenllian Brown yn ail am ysgrifennu barddoniaeth. Da iawn chi.

MERCHED Y WAWR.

Gŵyl y Pum Rhanbarth. Fe fwynhaodd aelodau o'r gangen ddiwrnod o Fwyniant Mai yn Ysgol Friars, Bangor, ar Sadwrn 10 Mai. Cafwyd eitemau soniarus gan Gôr Ieuenctid Môn o dan arweiniad medrus Mari Lloyd Prichard. I ddilyn cafwyd gwledd i'r glust eto gan Gerddorfa Linynnol Gwynedd a Môn dan faton yr Aweinydd, Margaret Scoures, a llongyfarchwyd hi fel dysgwr am gyflwyno'r eitemau yn y Gymraeg.

Roedd y cinio yn sicr at ddant pawb a mwy na digon ar gyfer pawb. Yn y pnawn cafwyd awr hwyliog yng nghwmni'r Prifeirdd



Ruth Martin.

Ellen Roberts, Cartref Foelas, gyda'r hetiau wedi eu gwau.

Tudur Dylan a Mererid Hopwood. I gloi, cafwyd darlleniadau gan Maureen Rhys a John Ogwen, dau sy'n dal i gyfrannu o'u hamser prysur i'r gwahanol gymdeithasau. Terfynwyd gyda Chân Mudiad Merched y Wawr.

Ymweliad â Chae'r Gors. Nos Fawrth, 13 Mai, aeth llond bws o aelodau i Gae'r Gors, Canolfan Treftadaeth Kate Roberts, brenhines ein llên. Roedd tair elfen i'n profiad yno. Mwynhawyd ffilm am fywyd Kate Roberts, arddangosfa yn y beudy yn portreadu'r dylanwdau ar lên Kate Roberts a sylwebaeth yn y tŷ gyda phytiau o waith yr awdures.

Diolchir i Siân ac Eirian am y croeso ac am orig ddifyr dros ben, a hynny ar noson braf. Aeth rhai o'r aelodau i gerdded ar hyd y Lôn Wen cyn troi i mewn i Mountain Rangers a mwynahu bwffe amheuthun wedi'i baratoi gan Ceryd McKinnon, Llanrug. Diolchir i Ceryd am yr arlwy.

Diolchir i Meirwen Lloyd am ei sylwebaeth yn y bws am y llefydd diddorol o gwmpas Cae'r Gors – mannau sanctaidd ac annwyl i Kate Roberts ac iddi hithau. Diolchir i Ann Tomos am y trefniadau trylwyr.

Anfonir ein cofion gorau at Enid Williams, sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd

Atgoffir pawb y cynhelir Sioe Ffasiynnau gan 'So-Chic', Bangor ar nos Wener, 20 Mehefin, yn y Mynydd Gwefru, Llanberis, gan y Pwyllgor Rhanbarth.

Nos Fawrth, 10 Mehefin, cynhelir Cyfarfod Blynyddol gyda chaws a gwin i ddilyn. Cofiwch ddod i gloi yr holl weithgareddau diddorol ac amrywiol a fwynhawyd trwy'r flwyddyn.

CAPEL Y RHOS. Aeth nifer o blant a phobl ifanc yr ysgol Sul i Goleg y Bala am benwythnos ddiwedd mis Ebrill. Cafwyd amser arddechog yno a phawb wedi mwynhau yn arw. Diolch i'r athrawon, Anti Gwenno, Anti Non a'r ddwy Anti Rhian, am ofalu amdanynt.

Braf iawn oedd gweld Mrs. Beryl Thomas yn yr Oedfa Gymun ddechrau Mai. Roedd ei ffrindiau o'r Tŷ Gwyn yn y Gwalchmai wedi dod â hi draw a chafodd groeso mawr gan y gweinidog a'i chyd aelodau.

OEDFAON MIS MEHEFIN

1 Parch. Marcus Robinson
8 Dr. Tudor Ellis
15 Parch. Marcus Robinson
22 Mrs. Mair Penri
29 Parch. Irfon Jones.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:
John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau:
31 Awst 2008
Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



Enillwyr cystadlaethau unigol yr Urdd.

Criw rygbi buddugol Ysgol Llanrug.

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

(01286) 675754

Criw o Bl.6 ar gopa'r Wyddfa.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CANRIF GYNTAF CAPEL CAEATHRO. Ym mis Mehefin bydd pedwar ugain mlynedd ers agor y Capel presennol yng Nghaeathro, felly mae'n amserol i ni edrych yn ôl dros y ganrif gyntaf o Anghydffurfiaeth yn yr ardal.

Yn ôl hanes, sefydlwyd Ysgol Sul gan y Methodistiaid Calfinaidd ym Mhenrhos yn 1797. Saif y fferm hon dros y ffordd i'r Penrhos presennol.

Fodd bynnag, yn hwyrach yn y flwyddyn symudwyd i'r Wern ac, o 1819 ymlaen, mae cofnodion o'r achos ar gael. Yn y flwyddyn hon cynhaliwyd pregethau yn Y Wern a Thy'n Lôn (yn ymyl llidiart Tyddyn Whisgin), gyda chyfarfodydd gweddi misol yn Y Wern, Prysgol, Dolgynfynydd, Tyrpeg, Prysgol Isaf a Glangwna Bach.

Yn 1823 derbyniodd yr aelodau ganiatâd i godi ysgoldy ar dir Stad Penrhos, sef safle 'Hen Gapel' heddiw. Cost yr adeilad oedd £400 gyda seddi i 114, a llwyddwyd i glirio'r ddyled erbyn 1853.

Gellir gweld llyfrau'r Capel, o 1826, yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Erbyn 1860 roedd lle i 134 yn yr Ysgoldy.

Yn 1862 prynwyd tir – y safle presennol – ar gyfer capel newydd. Maint yr adeilad oedd 44tr x 86½tr x 64tr, ar gost o £1,100, a chliriwyd yr holl ddyled erbyn 1879. Trwy brynu hanner erw o dir yn 1865 cafwyd mynwent i Gaeathro. Yn 1879 gwerthwyd yr Ysgoldy (Hen Gapel) am £200 ac yn yr un flwyddyn bu'n rhaid atgyweirio'r capel newydd ar gost o £115.

Roedd tŷ capel yn bodoli y tu ôl i'r Capel (a'r adeilad presennol), ac efallai dŷ blaenorol ar y safle hefyd. Fodd bynnag, yn 1895 tynnwyd y tŷ i lawr ac adeiladwyd tŷ capel ac ysgoldy newydd, sef 'Bodawel' a'r 'Festri' bresennol.

Bugail cyntaf yr Eglwys oedd y Parch Robert Wiliams, a ddaeth o Nant Gwrtheyrn, a bu yno tan haf 1898. Yn 1899, y Parch W. O. Jones oedd y gweinidog. Ar droad yr ugeinfed ganrif roedd dyled y capel yn £700!

GWASANAETHAU'R CAPEL
Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Mehefin.

1: 2.00: Parch Ronald Williams, Salem, Caernarfon
8: 11.00 Ysgol Sul
15: 10.00 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel
11.00 Ysgol Sul
22: 11.00 Ysgol Sul
29: 11.00 Ysgol Sul

CYNGOR CYMUNED
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Cyngor newydd ar 12 Mai yn Y Ganolfan, Waunfawr. Etholwyd y Cyng Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Waunfawr yn Gadeirydd.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ymestyn hyd y llinellau melyn dwbl arfaethedig yn ardal Tai Glangwna ac Erw Wen. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ymateb i gwynion ynglŷn â chyflwr llwybr Llety – Ysbytty, na'r un o'r cae pêl-droed i'r ffordd newydd.

Doedd dim gwrthwynebiad i gais cynllunio i addasu adeilad amaethyddol fel stablau.

Roedd swyddogion y Gwasanaeth Tai wedi ymweld â'r ardal ger garejis Bryn y Gof ac wedi hysbysu holl drigolion y Stad a'u rhybuddio i symud unrhyw eiddo sydd yno heb ganiatâd, neu bydd yr eiddo yn cael ei symud i ffwrdd.

Adroddwyd gan Gyngor Gwynedd fod ochrau'r ffyrdd yn ac i Gaeathro yn cael eu glanhau bob mis. Felly cytunwyd i gadw llygad ar y sefyllfa.

PONT YR EFAIL BACH. Diolch i Gyngor Cymuned Y Waunfawr am y gost o baratoi'r llechen ac i lafurwyr anhysbys. Gellir gweld arwydd ar y bont sy'n esbonio hanes y grisiau. Gobeithio y gall Cyngor Gwynedd barhau i ofalu am y strwythr, sy'n rhan o hanes y pentref.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mai oedd:
£40: (18) Tim Lloyd, Tyddyn Cae; £25: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £15: (86) John a Laura Griffiths, Rhanna; £5: (24) Ellen Burke, Arosfa, Caeathro Bach.

MIRI HAF. Bydd Miri Haf Caeathro eleni ar ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf 2008.

CYNGHORYDD CYMUNED. Ar ôl yr Etholiad ar 1af o Fai, dim ond un cynghorydd, yn lle dau, sy'n cynrychioli Ward Caeathro ar Gyngor Cymuned Waunfawr, sef Cyng. Clive James. Felly mae gan y Cyngor yr hawl i gyfethol unigolyn dros 18 oed er mwyn llenwi'r swydd. Fel arfer bydd cyfarfod pob 6 wythnos, gyda'r hwyr yn bennaf, yn y Waunfawr. Dylai pobl sydd â diddordeb gysylltu naill ai â'r Cadeirydd, Cyng. Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Waunfawr (650644), neu Clive James.

Pryd i Bawb

Bwffe blasus o safon at bob achlysur

Priodas
Parti
Te Angladdau
Cinio Busnes

CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Peri Evans, Hafol Olau, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Cofion hefyd at ei gŵr, Mr Iorwerth Evans, a dderbyniodd driniaeth yn ddiweddar.

DYMUNIR hefyd welliant buan i Mr Dafydd Wyn Hughes, Rhydfadog, yn dilyn damwain yn ddiweddar.

Ein cofion gorau hefyd i unrhyw un arall na fuont yn dda yn ddiweddar.

ARHOLIADAU. Pob dymuniad da i bawb ohonoch fydd yn sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

YSGOL SUL UNEDIG. Da iawn i'r plant i gyd a gafodd eu gwobrwyo am ddysgu eu Maes Llafur yn y Gymanfa yng Nghapel Coch Llanberis bnawn Sul, 4 Mai. Cafodd y plant i gyd wobr am wneud mor dda.

CYNHALIWYD Cymanfa Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo yn Festri Capel Ebeneser ddydd Sul, 18 Mai. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul yn ardderchog – Da iawn chi.

DYMUNA Evelyn Jones, 7 Rhes Lôn Las, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Nancy, Mervyn, Carol ac Ian, teulu y diweddar Windsor Williams, 10 Rhes Marian, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion, ymhell ac agos, am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen daid arbennig iddynt. Diolch hefyd am yr ymweliadau, y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion ariannol a dderbyniwyd er cof, a drosglwyddir rhwng Meddygfa Deiniolen a Thŷ Gobaith, Conwy.

Gwerthfawrogwn y fawr y caredigrwydd a'r haelioni a ddangoswyd gan drigolion yr ardal.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:
John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau: **31 Awst 2008**
Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DIOLCH. Dymuna Alun a Nancy, 28 Bro Eglwys, ddiolch o galon i'w teulu a'u cyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod Mai o'r gangen yn yr ysgol yng nghwmni Richard Llwyd yn darllen cerddi a glywyd ar y rhaglen *Talwrn y Beirdd* yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yn ei gwmni. I ddiweddu'r noson darllenodd englyn o'i eiddo'i hun i longyfarch Mr Goronwy Jones ar dderbyn Y Fedal Gee. Diolchwyd i Richard gan y Llywydd, Mrs Margaret Druce.

Dymunodd Margaret yn dda i Mrs Sheila Roberts, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac i Ieuan, gŵr Mrs Gwyneth Williams, sy'n ôl adref yn dilyn triniaeth. Dymunwyd adferiad buan i Ysgrifennydd y gangen, Mrs Joyce Roberts, oedd adref yn sâl. Dymunwyd yn dda hefyd i Eirlys a Mair fydd yn cynrychioli'r gangen ym Machynlleth yn yr Ŵyl.

Derbyniodd Mrs Gwyneth Jones y swydd o Is-drysorydd a daeth Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl, yn aelod o'r pwyllgor at y flwyddyn nesaf.

Mae tocynnau i noson y rhanbarth, y Sioe Ffasiynau, a gynhelir yn y Mynydd Gwefru, Llanberis ar 20 Mehefin am 7.30, ar gael gan y swyddogion – y cyntaf i'r felin!

Taith i Lanystumdwy, gyda Swper yn yr Afr, fydd y cyfarfod nesaf i gloi'r flwyddyn.

BEDYDD. Yn ystod oedfa'r bore, yn ddiweddar bedyddiwyd Iwan Thomas, plentyn bach Mark Anthony a Shioned Wyn Worsley, Bro Eglwys, gan y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Roedd nifer dda o'r teulu a chyfeillion yn bresennol.

CLWB BRO BETHEL. Y siaradwr gwâdd yng nghyfarfod y mis yma oedd Robin Jones, Stad Eryri. Yn dilyn gair o groeso cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo yn olrhain hanesion a oedd wedi ymddangos yn *Y Cymro* dros nifer o flynyddoedd.

Dymunwyd yn dda i Goronwy Jones ac hefyd i Ieuan Williams. Rhannwyd allan rhifyn 4 o *Gwymon*, cylchlythyr Age Concer Gwynedd a Môn, a gofynnwyd am wirfoddlolwyr i gasglu o ddrws i ddrws ym mis Medi.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Croesawodd Ray Bower , yr Ysgrifennydd, aelodau'r clwb uchod i'w cyfarfod ar 24 Ebrill. Diolchwyd i Terry Taylor am blannu eirlysiau o gwmpas cofeb y chwarelwyr yn Allt Ddu. Darllenwyd llythyr i atgoffa'r aelodau o'r casgliad blynyddol a wneir ar ran Age Concern ym mis Medi.

Y wraig wadd oedd Mrs Theta Owen, a ddangosodd i ni sut i osod basged o flodau a llwyddodd i greu campwaith hardd a enillwyd gan Betty Bower. Rhoddwyd y te gan Ann Williams ac enillwyd y gwobrau raffl gan Terry Taylor a Margaret Faulkener.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael at Gymorth Cristnogol.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Jones, 18 Mountain Street, Caernarfon (gynt o 5 Maes Eilian) ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr Mair, a phob bendith a iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

ARVONIA

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

CEIR CYMRU
BETHEL
(01248) 670451
www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC *WINDOWS*

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Alwena a Gwynfryn Thomas, 8 Rock Terrace, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniasant ar eu Priodas Ruddem a phen-blwydd arbennig Alwena.

DYMUNA Gwynfryn Thomas, 8 Rock Terrace, ddiolch i bawb yn Ysbyty Gwynedd, Syrjeri Llanberis, ei ffrindiau, cymdogion a theulu am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da iddo yn ystod ei ymweliad ag Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

HOFFAI Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch o galon i aelodau a Rheithor Eglwysi St. Peris a St. Padarn am y noson fythgofiadwy a drefnwyd ar ei gyfer yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Megan Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Unwaith eto, llawer o ddiolch.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Yn ôl eu harfer ers wyth mlynedd bellach, bu'r Côr yn cynnal eu Cyngerdd Blynyddol yng Nghlwb Rhosgadfan nos Wener, 16 Mai.

Cafwyd noson eithriadol o hwyliog yng nghwmni'r côr a'r gŵr gwadd, Wil McIntyre Huws.

Aeth elw'r noson, yn ôl yr arfer, tuag at elusennau Cancr yn Ysbyty Glan Clwyd.

CAPEL COCH. Cynhaliwyd y Gymanfa yn Capel Coch ddydd Sul, Mai 4, dan arweiniad Gareth Jones, gyda Bethan Holding yn cyfeilio. Gwobrwywyd rhai o blant yr Ysgol Sul am ddysgu eu hadnodau a'u penillion. Arhosodd nifer dda ar ôl ar ddiwedd y Gymanfa i fwynhau paned a chacen oedd wedi eu paratoi ar eu cyfer. Diolch yn fawr iawn i bawb a helpodd efo'r trefniadau i gyd, a diolch yn arbennig am yr help i weini'r baned.

YSGOL SUL CAPEL COCH: Mae cyfnod y Cymanfaoedd wedi mynd heibio eto, ac mae gennym ychydig wythnosau nes daw gwyliau'r haf. A bydd yr wythnosau hynny'n ddigon prysur hefyd. Bydd cyfle i rieni ac eraill i ymuno â phlant yr Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig am 11.15 o'r gloch, ddydd Sul, Mehefin 15.

Yna, ddydd Sul Mehefin 29, fe gynhelir Picnic yr Ysgol Sul.

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 12, bydd Trip yr Ysgol Sul yn mynd i Barc Gulliver's ger Warrington. Ceir rhagor o fanylion am hwnnw gan y Parchg John Pritchard.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch yn fawr iawn i'r bobl a fu o amgylch y pentref yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ganol Mai i ddosbarthu'r amlenni coch er mwyn casglu arian at waith yr elusen. Hebddynt hwy a'u gwaith caled, ni fyddai modd i ni gefnogi'r gwaith hwn bob blwyddyn.

Cynhaliwyd oedfa arbennig Cymorth Cristnogol yn Capel Coch nos Fercher, Mai 14, dan arweiniad y Parchgn. John Pritchard a Robert Townsend, a chymerwyd rhan hefyd gan rai o aelodau'r eglwysi. Bethan Holding oedd yn cyfeilio.

Rhoed cynnig ar fenter newydd eleni trwy drefnu Cwis Cymorth yng Ngwesty'r Dolbadarn nos Wener, Mai 16. Trefnwyd Quiz Aid am y tro cyntaf eleni ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol, ac mae'n debyg iddo gael ei gynnal mewn degau os nad cannoedd o lefydd. Cafwyd noson hwyliog iawn a gwnaed elw o £60 at waith Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth yno, a llongyfarchiadau i'r tri thîm am ateb cymaint o'r cwestiynau'n gywir. Yr enillwyr oedd tîm y Cŵl Dŵds, gyda Lleisiau Lliwedd yn ail a Pherlau Padarn yn drydydd. Dafydd Pritchard oedd yn holi'r cwestiynau, a diolch iddo am ei waith. Diolch hefyd i Aneurin Jones am gael cynnal y Cwis yn y gwesty.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:
John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau: **31 Awst 2008**
Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

• **Priodasau** • **Dathliadau**
• **Achlysuron Arbennig** • **Cynadleddau**
• **Pwyllgorau** • **Bwydlen Bar**
• **Cinio Dydd Sul**

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: **Llanberis (0)870 832 9903**

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

CLWB CANT EGLWYS SANT PERIS. Enillwyr y mis oedd Ken Griffiths, Mair Griffiths a John Ellis.

CYFEILLION EGLWYS SANT PERIS. Diolch o galon am eich cefnogaeth. Y gobaith yw y byddwn yn ôl yn yr hen Eglwys y flwyddyn hon. Os ydych am fod yn aelod o'r Clwb Cant, cysylltwch â Margaret Ellis ar (01286) 871339.

PEN-BLWYDD. Mae dwy o genod Nant yn 18 yn mis Mai, sef Anna Lampard a Gwenno Pritchard. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i chi i'r dyfodol.

CRIW TY'N LLAN YN CODI ARIAN. Bu criw Ty'n Llan a'u ffrindiau yn brysur yn codi arian unwaith eto eleni. Yr elusen y flwyddyn hon yw Tîm Achub Llanberis.

Cychwynnodd y criw am 9 o'r gloch fore Llun, 12 Mehefin, a'r haul yn gwenu'n braf. Eu taith y flwyddyn hon oedd y Glyderau.

Ymdrech ffantastig unwaith eto gan y criw ac mi godwyd dros £3,000. Diolch i bawb a gyfrannodd.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:
John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau: **31 Awst 2008**
Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.



Dyma ni ar y Cantelever stone wrth ochr Glyder Fach.

Taith gerdded y Vaynol Arms, Nant Peris, yn cychwyn yn Pen y Pas.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

FORMAG

Dymuna **Ifor** a **Margaret**,
Siop Formag Llanberis, fynegi eu diolch ddi-ffuant i'w holl gwsmeriaid a fu'n eu cefnogi dros y blynyddoedd.

YSGOL BRYNREFAIL

Amser Arholiadau

Ydy, mae'r amser tyngedfennol yma wedi cyrraedd unwaith eto! Dechreuodd yr arholiadau TGAU ar ddydd Llun, Mai 12fed, a'r arholiadau Uwch Gyfrannol ar ddydd Mercher, Mai 14eg. Bydd yr arholiadau Uwch yn dechrau ar ôl gwyliau'r Sulgwyn. Pob lwc i bob un ohonoch – cofiwch wneud eich gorau glas.

Ffarwelio

Dydd Mercher, Mai 14eg, oedd diwrnod olaf blwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail. Braf oedd gweld pawb yn hapus yng nghwmni ei gilydd ac yn arwyddo crysau ei gilydd ag amrywiol gyfarchion lliwgar! Dyma ychydig o luniau ohonynt:

Dyma negeseuon gan rai o griw y flwyddyn:

Diolch i bawb sydd wedi helpu dros y pum mlynedd diwethaf. Pob lwc i bawb gyda'r arholiadau a'r dyfodol.

ELLEN A MARI

Ga i ddymuno pob lwc i bawb ym mlwyddyn 11 a phob llwyddiant i bawb yn y dyfodol. Diolch hefyd, athrawon YB, am glirio'r llwybr ar gyfer yr arholiadau TGAU.

LIAM TAYLOR

Diolch i bawb o Ysgol Brynrefail, i'r athrawon a'r disgyblion. Pob lwc i bawb yn yr arholiadau ac yn y dyfodol. Mi wnawn ni fethu chi.

CARA, CEINZ, ANEST, MAIR A MEL

Dwi'n diolch i bawb o YB am yr holl hwyl 'dwi wedi ei gael yma. Na i fyth anghofio yr hwyl dwi wedi ei gael hefo'r athrawon. Diolch yn fawr. Caru pawb.

EMMA XXX

Neis i adal ysgol ond am fethu pawb. Diolch i'r athrawon i gyd.

GWYNETH XXX

Diolch i'r athrawon a phawb yn yr ysgol am fy nysgu! Am golli fy ffrindiau ffab! Caru pawb,

MANON JONES X

Diolch i bawb o'r athrawon am roi fyny hefo ni gyd. Methu pawb!

RHIANNON OWEN XXXX

Diolch yn fawr iawn i'r athrawon yn YB dros y blynyddoedd. Pob lwc i bawb ym mlwyddyn 11.

CERI ROBERTS XXX

Diolch yn fawr iawn i bawb yn YB, mynd i fethu pawb ym mlwyddyn 11. Pob lwc,

SIONED

Diolch i'r athrawon am ein helpu a phob lwc i bawb.

FFION A RACHEL XXX

Rydw i wedi cael hwyl ym Mrynrefail ac eisiau diolch i'r athrawon a fy ffrindiau. Rydw i'n mynd i fethu chi gyd a phob lwc yn y dyfodol.

KATHERINE PRYDDERCH

Dw i'n mynd i fethu Ms. A. Llwyd!

DEWI WYNN JONES

Diolch i bob athro/athrawes yn YB a phob lwc i bob disgybl ym mlwyddyn 11 yn y dyfodol.

LLION JONES

Diolch i bawb yn YB am wneud y pum mlynedd diwethaf mor dda!

JANIE, SIAN A CERI XXX

* * *

Bydd Blwyddyn 13 yn gadael ar ddydd Gwener, Mai 23ain – mi fydd yn ddiwrnod emosiynol iawn i bawb.

Ymweliad Criw Craidd

Ar ddydd Gwener, Mai 9fed, ymwelodd sawl mudiad â'r ysgol er mwyn cynnal gweithdai gyda blwyddyn 7. Daeth y gwasanaeth Tân, Diogelwch y Ffyrdd, y Groes Goch, Gwylwyr y Glannau, Heddlu'r Rheilffordd a Childline yma i siarad gyda'r disgyblion am eu gwasanaethau ac i godi eu hymwybyddiaeth o'r peryglon sydd o'u cwmpas. Cafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus, gyda chanmoliaeth uchel i'r holl ddisgyblion am eu diddordeb a'u hymddygiad.

Cwpan Cymru

Dyma adroddiad gan Cain Thomas am y gêm bêl-droed hollbwysig!

* * *

Ar ddydd Sul, 20fed o Ebrill, roedd Ysgol Brynrefail yn chwarae yn erbyn Ysgol Aberaeron yn rownd derfynol Cwpan Cymru. Hwn oedd yr ail rownd derfynol i ni mewn dwy flynedd.

Ar ôl i Mr Phill Holland a Mr Eifion Jones roi 'tim tôc' i'r hogiau, dechreuodd y gêm. Cawsom ddechrau da gyda Daniel Bell yn rhedeg drwy'r rhan fwyaf o chwaraewyr Aberaeron, ond cyn i Brynrefail gael cyfle i ymateb roedd Aberaeron wedi ffeindio dwy gôl mewn deng munud ac, am eiliad, aeth pennau'r hogiau i lawr, ond dal i frwydro tan yr ail hanner wnaethom

Pan ddechreuodd yr ail hanner roedd ein calonnau yn ôl yn y gêm ac roeddem yn brwydro'n galed iawn i gael llawer o'r meddiant. Mewn ychydig o amser cawsom ddwy gôl ond roedd hi'n anodd iawn torri drwy amddiffynwyr a gôl-geidwad Aberaeron. Erbyn chwarter awr diwethaf y gêm, er y chwarae caled a chyson, doedd Brynrefail dal ddim wedi cael hyd i gefn y rhwyd. Newidiodd Mr.Holland y tîm ychydig, gan symud chwaraewyr blinedig a rhoi chwaraewyr newydd ar y cae. Ar ddiwedd yr ail hanner roedd Brynrefail yn brwydro'n galed. Cafwyd rhediad cyflym drwy amddiffynwyr Aberaeron gan Cain Thomas a chroesodd y bêl. Enillodd Brynrefail gic cornel ond clirodd Aberaeron y bêl a chwibanodd y dyfarnwr ei chwib olaf.

Roedd pennau tîm Brynrefail i lawr ond roeddem wedi brwydro tan y chwib olaf. Medal arian oedd gwobr tîm Brynrefail ond dyma'r ail rownd derfynol i ni ei chyrraedd mewn dwy flynedd.

* * *

[Diolch Cain. Hen dro i'r hogiau ond llongyfarchiadau ar gyrraedd y rownd derfynol unwaith eto, ac am frwydro mor galed – rydym yn falch iawn ohonoch!

Beth amdani y flwyddyn nesaf? Pwy a ŵyr, dyfal donc a dyrr y garreg!]

Daniel Bell, capten y tîm.

Yr hogiau yn derbyn eu medalau

Plât Eryri – Rygbi Blwyddyn Wyth

Dydd Mercher, Ebrill 23ain, chwaraeodd tîm rygbi dan 13 Ysgol Brynrefail gêm go gyn-derfynol yn erbyn Ysgol Friars. Sgoriodd Friars y cais cyntaf gyda Brynrefail yn dod yn ôl yn syth gyda chais a throsiad gan Darren Jones. Y sgôr oedd 7–5 i Frynrefail.

Wedyn, ar ôl camgymeriad gan Brynrefs, sgoriodd Friars gais ond methwyd y gic gan adael y sgôr yn 10–7 i Friars. Pum munud cyn hanner amser sgoriodd Rhodri Williams gais a throsiad gan Darren Jones. Felly'r sgôr ar hanner amser oedd 14–10. Dechreuodd yr ail hanner yn dda iawn a sgoriodd Rhodri Williams ei ail gais a throsiad arall gan Darren Jones. Y sgôr terfynol oedd 21–10 i Frynrefail.

Ar ddydd Mawrth, Ebrill 29ain, chwaraeodd tîm rygbi dan 13 Ysgol Brynrefail gêm y rownd gyn-derfynol yn erbyn Ysgol Tryfan. Sgoriodd Tryfan y cais cyntaf gyda Brynrefail yn dod yn ôl gyda chais cyflym. Sgôr hanner amser oedd 14–5 i Frynrefs. Dechreuodd yr ail hanner yn dda gyda Brynrefs yn cario'r bêl i hanner Tryfan gan sgorio cais a chroesi'r trosiad. Y sgôr terfynol oedd 21–10 i Ysgol Brynrefail.

* * *

(Diolch yn fawr iawn i Darren Jones, Michael Owen a Ffion Williams 8E am eu cymorth i ysgrifennu'r adroddiadau uchod.)

Ar ddydd Mercher Ebrill 30ain chwaraeodd tîm rygbi dan 13 Ysgol Brynrefail yn rownd derfynol Plât Eryri yn erbyn Ysgol y Berwyn, Y Bala. Roedd tîm Brynrefail wedi cyrraedd Clwb Rygbi Caernarfon yn llawn hyder ar ôl buddugoliaeth yn erbyn tîm cryf o Ysgol Tryfan yn y rownd gyn-derfynol. Roedd hogia Ysgol y Berwyn yn gryf ac yn gyflym ac roedd yn gêm agos am gyfnodau hir. Roedd Michael Roberts a Rhodri Williams ar eu gorau unwaith eto a chafwyd nifer o sgrymiau yn ystod y gêm a oedd yn fantais i Ysgol y Berwyn, gan fod ganddyn nhw asgellwr chwim. Fe dorrodd eu wythwr drwodd yn ystod yr ail hanner ac roedd rhaid cael tacl nerthol gan Rhys Jones yn yr ail reng i'w atal rhag sgorio. Er fod Brynrefail wedi chwarae'n dda iawn drwy'r tymor, roedd cyflymder cefnwyr Ysgol y Berwyn yn ormod i gefnwyr blinedig Brynrefail.

Rhaid cadw'n pennau'n uchel rŵan a pharhau gyda'r un ymdrech y flwyddyn nesaf. Da iawn chi.

Ymweld â Theatr Gwynedd i Wylio *Siwan*

Ar nos Iau Mai yr wythfed aeth criw o ddeg ar hugain o fyfyrwyr y chweched dosbarth sy'n astudio Cymraeg i wylio cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru o *Siwan* gan Saunders Lewis. Wythnos ynghynt bu myfyrwyr blwyddyn 12 yn profi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ddrama mewn arholiad llafar ffurfiol. Roedd hi'n braf felly cael gwylio'r ddrama a gallu ymlacio a'i mwynhau, yn hytrach na phoeni am ddyfyniadau i'w cofio a chymeriadau i'w hastudio!

Roedd y theatr yn llawn i'r ymylon ar gyfer y perfformiad ac ni chawsom ein siomi. Cadarnhaol iawn oedd ymateb y chweched dosbarth; rhai wedi gwirioni ar berfformiad Alis, sef Lisa Brown, eraill yn edmygu portread Ffion Dafis o Siwan ei hun, ac urddas Dyfan Roberts fel Llywelyn Fawr wedi plesio hefyd.

Roedd ambell gyffyrddiad arbrofol i'r cynhyrchiad a bu cryn drafod ar y bws ar y ffordd yn ôl i Lanrug. Edrychwn ymlaen i gael mynd yn griw i wylio cynhyrchiad nesaf y Theatr Genedlaethol.

Llwyddiannau

Rhaid llongyfarch y canlynol yn wresog am eu llwyddiant yn eu meysydd gwahanol:

- Zoot Warren – cafodd ei ddewis i chwarae'r drymiau ym Mand Jas Cymru.
- Jamie McDaid – wedi ei ddewis i chwarae i garfan pêl-droed Cymru.
- Daniel Bell – pob hwyl iddo y penwythnos yma, Mai 16eg, gan ei fod yn mynd i Manceinion Unedig am dreialon.

Da iawn, y tri ohonoch!



Gwynant Pierce

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Pêl-droed yr Urdd

Ar yr wythfed o Fai 2008 aeth criw o flynyddoedd 7, 8, 9 a 10 i gystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-droed Cenedlaethol Uwchradd 7 Bob Ochr yr Urdd yn Aberystwyth.

Cafwyd cryn lwyddiant yn y gystadleuaeth gyda phawb yn mwynhau'r tywydd braf ac yn gweud ẽu gorau glas. Chwaraeodd tîm genethod blwyddyn 7 ac 8 bedair gêm i gyrraedd y rownd derfynol. Cafwyd gêm gyfartal ond, yn anffodus, ẽollwyd y gêm ar ôl cicio o'r smotyn. Da iawn chi genod am lwyddo i wneud mor dda!

Cafwyd cryn lwyddiant gan fechgyn bl. 9 a 10 yn y gystadleuaeth hefyd. Chwaraeodd y tim bedair gêm i gyrraedd y rownd derfynol gan ennill bob un! Chwaraewyd yn y rownd derfynol yn erbyn Ysgol Corpus Christi a'r sgôr oedd 2–0 i Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau mawr i chi hogia.

Bu tîm genethod blwyddyn 9 a 10 yn llwyddiannus iawn – cyrhaeddasant hwy y rownd derfynol ar ôl ennill pedair gêm. Chwaraeasant yn erbyn ysgol Bro Ddyfi yn y rownd derfynol gan eu chwalu 2–0. Perfformiad ardderchog genod!

Yn amlwg felly, nid y bechgyn yn unig yn Ysgol Brynrefail sy'n serenu ym myd pêl-droed. Gwyliwch hogia, mae'r genod ar eich holau!!



Bêbs Brynrefail - Race For Life 2008

Trefnodd Bethan Dobson, Swyddog 5x60 yr ysgol, bod sawl disgybl o'r ysgol yn cymryd rhan yn y daith enwog hon ar hyd y Foryd yng Nghaernarfon ar ddydd Sul, Mai 11eg. Cafwyd diwrnod bendigedig gyda phawb yn mwynhau'r awyrgylch anhygoel. Codwyd cryn dipyn o arian at yr achos, sef Ymchwil Cancr. Dyma'r criw:

Marged Rhys, Lois Angharad, Sophie Owen, Glesni Haf Owen Mared Wyn Owen, Ffion Angharad Williams, Rebecca Snowden, Gwenno Pritchard, Hanna Gwyn, Christy Roberts, Mari Slater, Manon Pritchard, Awen Hughes, Wena Green, Chloe Roberts, Heledd Roberts, Enfys Roberts

Dyma ddywedodd dwy o 'Fêbs Brynrefail' am y profiad:

'Roedd yn brofiad gwych a llawn hwyl gan fod y tywydd mor braf. Mi ddaru ni fwynhau'r ras gyda'n ffrindiau gan gofio ein bod yn hel arian ar yr un pryd i Ymchwil Cancr. Roeddem yn falch o weld pobl ifanc yn ogystal â phobl hŷn yn cymryd rhan yn y ras. Rydym yn awyddus i gymryd rhan eto y flwyddyn nesaf!'

AWEN HUGHES A
HELEDD ANN ROBERTS

(Mwy o luniau ar dudalen 23)

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Miri Mai. Diolch i blant blwyddyn 5 a 6 am baratoi gemau ar gyfer y noson Miri Mai a drefnwyd gan y Pwyllgor Neuadd nos Wener, 9 Mai. Roedd pawb wedi cael pleser wrth wneud hyn.

Dawns i Bawb. Pnawn dydd Mawrth, 13 Mai, bu'r ysgol gyfan yn y neuadd yn gwylio Sioe. Yn dilyn roedd gweithdy ar gyfer plant 7–11 oed a phawb wedi mwynhau cymryd rhan.

Profiad Gwaith. Croesawyd Megan Jones i'r gegin am wythnos o brofiad gwaith o Ysgol Brynrefail rhwng 19–23 Mai.

Dyddiadau i'w Cofio.

Dydd Iau, 12 Mehefin: plant blwyddyn 6 yn mynd i Ysgol Brynrefail ar eu hail ymweliad. Bydd y dosbarthiadau eraill yn symud i fyny am y diwrnod a byddwn yn croesawu plant Meithrin Medi 2008 yma am y bore.

Nos Sul, 6 Gorffennaf: rhai o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gymanfa i gloi gweithgareddau'r Carnifal yn Eglwys Santes Helen.

Dydd Iau, 10 Gorffennaf: Trip ysgol i'r Gelli Gyffwrdd.

Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf: Mabolgampau'r ysgol.

PWYLLGOR NEUADD CYMUNED Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r enillwyr oedd: Philip Jones, 8 Bryntirion; Alwyn Williams, Penygaer, Siôn Philips, 7 Tai Arthur.

Diolchir i bawb a gefnogodd y Noson Miri Mai yn y Neuadd Gymuned a diolch o galon i blant blwyddyn 5 a 6 am eu parodrwydd i drefnu gemau amrywiol ar fuarth yr ysgol.

Gorffennaf 11; Trefnir Ras Peli i lawr y llethr wrth fynedfa'r ysgol. Y mae aelodau'r Pwyllgor eisoes yn brysur yn gwerthu rhif pêl am £1 yr un. Bydd gwobr deilwng i'r enillydd. Gobeithir gwerthu nifer dda o'r peli er budd costau rhedeg y Neuadd. Trefnir paned a chŵn poeth ar y noson. Felly, dowch i ymuno yn yr hwyl.

Rhagfyr 17: Cynhelir Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion. Gofynnwn yn garedig am addewidion gan garedigion y fro.

YSGOL SUL BOSRA. Bnawn Sul, 18 Mai, mwynhawyd orig hyfryd yn Festri Capel Ebeneser yng ngwasanaeth Cymanfa Cylch Deiniolen a Chwm y Glo. 'Llyfr Da – Ffrind Da' oedd thema Bosra ac o'r holl lyfrau amrywiol a geir, yr un llyfr sydd yn cyrraedd y brig bob tro, sef y Beibl, llyfr da a ffrind da sy'n arwain at fywyd da.

Dymunir diolch i'r plant am eu ffyddlondeb, i'r rhieni am eu hanogaeth a'u cefnogaeth ac i'r athrawon am eu dyfalbarhad. Diolchir i Mr Gareth Jones, Llanberis, am ei arweiniad bywiog a'r dewis da o emynau, i Valmai Pritchard am gyfeilio ac i Dafydd Pritchard am goroni'r cwbl hefo'i neges arbennnig i bawb drwy ei sgets glyfar gyda Anti Glenda a Daniel. Diolchir hefyd i Nia am lywyddu'r gwasanaeth. Roedd pawb, yn blant ac oedolion, wedi mwynhau'r pnawn – diolch i bawb.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, 15 Mehefin, yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, am 2 o'r gloch. Edrychir ymlaen i fwynhau cwmni aelodau ysgolion Sul eraill a chwmni Mererid Mair. Bydd te parti i ddilyn yn y Festri. Erfynnir am gymorth cludiant ceir gan y rhieni

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Mai oedd Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr, gyda rhif 35. Llongyfarchiadau!

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Mrs Gwenda Jones, 11 Bryn Tirion, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 8 Mai.

GWELLHAD BUAN. I Mrs Annie Hughes, 11 Llys y Gwynt, bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty yn dilyn damwain yn ei chartref yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN gyda Mr Dave Paterson a'r teulu, 1 Bryn Tirion. Bu farw brawd iddo yn yr Alban yn ddiweddar.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn18 oed ar 11 Mai. Diolch i Mam a Dad am y parti hwyliog gan sicrhau pen-blwydd i'w gofio.

DYMUNA Eurgain Haf ddiolch i bawb yn y fro am yr ymateb anhygoel i'r ymgyrch gyffrous 'Ar y Gweill' gan yr elusen Achub y Plant. Os oes unryw un angen mwy o wybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg fe'i ceir ar y wefan: www.savethechildren.org.uk/knitting

Y CARNIFAL A'R GWEITHGAREDDAU

Nos Lun, 30 Mehefin: Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Fawrth, 1 Gorffennaf: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys.

Mercher, 2 Gorff: Mabolgampau ar gae yr Ysgol Gymuned.

Iau, 3 Gorff: Disgo yn y Neuadd.

Gwener, 4 Gorffennaf: Helfa Drysor i gychwyn tu allan i Neuadd yr Eglwys.

Sadwrn, 5 Gorff: Y Carnifal ar gae yr Ysgol Gymuned, yn Neuadd yr Ysgol os bydd y tywydd yn anffafriol.

Sul, 6 Gorff: Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen i gloi yr wythnos.'

ARHOLIADAU. Deellir fod yr arholiadau wedi cychwyn. Pob dymuniad da i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Bydd yn braf cael ymlacio wedi'r gwaith caled.

Aelodau Ysgol Sul Bosra yn cyflwyno 'Llyfr Da – Ffrind Da'.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod. Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF

Ffôn: **(01286) 871 562**

Dyddiad cau:
31 Awst 2008

Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN SKODA BMW PEUGEOT FIAT IMPORTS GERMAN SWEDISH

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX

MOT

Ceir Benthyg AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AVW Advanced Vehicle Workshop Car Service BOSCH Service

VOLVO MERCEDES SAAB

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
- Yswiriant Teithio
- Cynllunio Angladd
- Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Os byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynrychiolydd penodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfryngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestredig

A46V4AWST07 MC712

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

hefo Smonach Bach

GYRDI-WENFFLAM!
Y CAR BACH DELA' YN YR HOLL FYD!

Do! Do! Ar rhiw Clegir disgynnodd Gyrdi-Wenfflam oddi ar ben lori Jason Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu. Aeth dros ben y clawdd i ganol y coed, a disgyn i'r rhedyn. Bu iddo gyfarfod tair cwningen – Nicw Nacw sy' ofn bob dim; Twm Cwm Llwm, sy' heb fod ofn ddim byd, a Codli Crinci, y mae gan pawb ei ofn! Y mae'r cwningod yn gwneud eu gora glas i helpu Gyrdi-Wenfflam, ond y mae o'n llithro'n gyflym i lawr y llethr, a bu bron iawn iddo â diflannu i lawr twll mawr heb waelod iddo! Bu i Nicw Nacw, hefo cymorth y ddwy gwningen, achub y car bach, sydd erbyn hyn wedi hedfan dros bentref Llanber a llyn Padarn, a disgyn ar ochor cae yn – Ninorwig!

* * *

'Ew! ble rydw i?' Gyrdi-Wenfflam oedd yn gofyn. 'Hei! ble ydy fan 'ma?'

'Ho! ho! Cae Botwm yn Ninorwig ydy fan 'ma.'

'Cae Botwm? Hei! ble mae fy ffrindia i?'

'Ffrindia?'

'Ia, Nicw Nacw y gwningen fach sy' ofn bob dim, Twm Cwm Llwm, sy' heb fod ofn ddim byd, a Codli Crinci y mae gan pawb ei ofn?'

'O? Y mae nhw yr ochor arall i Llyn Padarn.'

'Na!' Ond doedd dim rhaid i'r car bach dela yn y byd boeni'r un blewyn. Yng Nghoed Clegir safodd Nicw Nacw ar flaenau ei thraed, a dyma'r gwningen fach yn chwibannu deirgwaith. A beth ddaeth heibio ond tair olwyn hadau dant y llew. Dyma'r tair cwningen yn gafael yng nghoesau'r olwynion hadau dant y llew.

'Hei! Wnewch chi ddim hedfan ar draws llyn Padarn heb wynt!' ebe'r coed wrthynt, a dyma'r holl goed yn Clegir yn dechrau chwythu. Chwirhwpchwimchwyngrygllgurhw'bathchwygrogropwll!

A dyna ble roedd Nicw Nacw, Twm Cwm Llwm a Codli Crinci'n hedfan yn yr awyr.

Chwirhwpchwimchwyngrygl lgurhw'bathchwygrogropwll!

Na! Na! Maent yn hedfan am Nant Peris, dros Waunfawr, ac wedyn yn troi'n eu hola' am bentref Llanberis, dros lynnoedd Peris a Phadarn, hyd nes cyrraedd Cae Botwm a Dinorwig.

'Hei Gyrdi-Wenfflam! Yli! Nicw Nacw sy' yma! Fan yma uwch dy ben yn yr awyr! Does gen' i bellach flewyn o ofn!'

'M... m... mae g... g... gen i!' ebe Twm Cwm Llwm.

'A f... f... f inna h... h... he... hefyd!' ebe Codli Crinci.

Ond er craffu a chraffu, ni allai'r car bach dela'n y byd weld y tair cwningen.

A dyma'r coed yr ochr arall i'r llyn yn rhoi'r gorau i chwythu, a'r tair cwningen yn disgyn ar i lawr! Dyna Ddeiniolen. Clwt y Bont ydy' fan 'na. Rŵan Penisa'rwaun, a fan'cw Bethel! A'r môr mawr! Na! Na! Ond wrth Bont Rug, yn gyrru lori am Gaernarfon, mi roedd Jason Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu. A disgynnodd y tair cwningen i gefn y lori. Ew! mi roedd 'na le! Ond Nicw Nacw a gafodd y gair ola' un.

'Mae Gyrdi-Wenfflam yng Nghae Botwm yn Ninorwig!' ebe'r gwningen fach, 'Mae'n rhaid mynd yno a'i achub!'

A dyna ddigwyddodd, wir i chwi! Ac mi gafodd Gyrdi-Wenfflam fynd adref yn nhu ôl lori Jason Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu, a doedd neb yn yr holl fyd mor hapus â Smonach Mawr o weld y car bach dela' yn y byd, – a hefyd y tair cwningen Nicw Nacw, Twm Cwm Llwm, a Codli Crinci!

* * *

Y mis nesa' blant mi fydd Smonach Bach *yn ei ôl hefo chi*!

* * *

Ewch ati i wneud rhywun yn hapus. Beth am liwio'r llun, a'i gyflwyno'n anrheg i rhywun?



Canlyniadau Cystadleuaeth Calan Mai

Y mae'n rhaid bod ein pêl-droedwyr a pêl-droedwragedd, yn llawer rhy brysur, naill ai'n chwarae pêl-droed neu'n gwylio'r gemau ar y teledu! Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r gystadleuaeth: *Nos Fercher, 26ain mis Mawrth 2008*, sef *gêm bêl-droed Cymru yn erbyn Lwcsembwrg*. Dyma'r atebion cywir:

1. Enw rheolwr tîm pêl-droed Cymru ydi John Toshack.
2. 2–0 i Gymru oedd hi ar ddiwedd y gêm.
3. Freddy Eastwood wedi iddi droi 37 munud a sgoriodd y gôl gyntaf i Gymru. Fo hefyd sgoriodd yr ail gôl wedi 46 munud o chwarae fynd heibio. Cafodd ei enwi'n chwaraewr gorau'r gêm.

** Er mwyn codi arian i gynorthwyo Ambiwlans Awyr Cymru, bwriedir eleni eto, yn ystod dydd Sadwrn, 23 Awst, am 9.30 y bore, gynnal stondin gwerthu nwyddau ar faes carafanau fferm Neuadd Glasgoed, Llanrug. Bydd cyfle i chwi brynu hen raglenni pêl-droed yno, neu os ydych yn awyddus i brynu'r rhaglenni pêl-droed cyn hynny, can croeso i chwi gysylltu hefo Linda neu Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 3BB. Yr arian yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru.

Cae'r Gors
CANOLFAN DREFTADAETH
Kate Roberts

Dewch i Gae'r Gors, cartref plentyndod yr awdures Kate Roberts. Mae Cae'r Gors yn gyrchfan hudol i bob oed, gydag ystod o weithgareddau'n cael eu cynnal drwy'r flwyddyn. Os ydych yn dymuno trefnu ymweliad grŵp, gallwn ei deilwra'n arbennig trwy drefniant ymlaen llaw.

Prisiau
Oedolion – £3.80
Pensiynwyr/Plant – £3.20
Tocyn Teulu – £12.00
Gostyngiad i grwpiau

Oriau Agor
Llun – Ar gau
Mawrth i Gwener –10 i 4
Sadwrn a Sul –1 i 4

Cae'r Gors
Canolfan Dreftadaeth
Kate Roberts,
Rhosgadfan, Caernarfon,
Gwynedd. LL54 7EY

www.caergors.org
post@caergors.org
Ffôn: (01286) 831 715

Cystadleuaeth Newydd Sbon Danlli mis Mehefin

Ble ydi fan yma? Wyddoch chwi? Anfonwch eich atebion, eich enw a'ch cyfeiriad yn llawn, erbyn dydd Iau, 12 Mehefin, at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug, Gwynedd LL55 3BB. Y wobr y tro hwn (yr ateb cywir cyntaf o'r *Crochan Ennill Gwobr*) ydi llyfryn Cymraeg sy'n ymwneud â Chwaraeon.

JONI NI

Dechreuodd fel unrhyw fore arall – Joni a finna yn mwynhau brecwast – a finna, fel arfer, yn edrych yn *Yr Herald* am joban fach handi iddo fo! Dyma gnoc ar y drws.

'Rheda i weld pwy sy' na, Joni.'

'Helo, Mald. Tyd i fewn.'

'Mrs Jôns,' ebe Maldwyn Ifans yn gwrtais, 'dan ni wedi dŵad i nôl Joni i fynd i nofio i Pwll Nofio dre.'

Fe wyddai mam Joni yn iawn bod yn well gan y criw fynd i nofio i'r afon y tu cefn i Tai Afon.

'Os mai i'r pwll nofio yn y Ganolfan rydach chi'n mynd, ma'n iawn, debyg. Cofiwch bod 'na ddega o blant a phobol hŷn na chi wedi boddi yn yr hen afon 'na.'

'Mam, peidiwch ag embarasio fi,' ychwanegodd Joni. 'Ylwch, 'dan ni'n hogia call rŵan – dim hogia bach ysgol ydan ni.'

'Wel, ydach debyg. Dwi'n gneud gormod o ffys o lawar – sori, hogia. I ffwrdd â chi rŵan imi gal llonydd i neud tipyn o "spring clinio" a mwynhewch eich hunan. Hwyl!' *(diolch byth – llonydd o'r diwadd, ochneidiodd ei fam).*

* * *

Cyrhaeddodd y drindod y Ganolfan Hamdden ac aethant i'r stafell newid.

'Ew, Joni – pa liw ti'n galw hwnna?' gofynnodd Maldwyn, gan chwerthin.

'Pam? Dwi'n licio melyn eniwe a dydi dy dryncs di a Huw ddim mor ffantastig chwaith.' Sylwodd bod nifer o'r dynion yn edrych ar y tryncs melyn.

Erbyn iddynt fynd i mewn i'r pwll roedd nifer fawr o blant a phobl yno yn mwynhau eu hunain.

'Ew, Joni,' ebe Huw mewn syndod, 'lle nes ti ddysgu nofio'n grêt fel'na?'

Roedd ei dad, cyn iddo orfod mynd i'r ysbyty, wedi gwneud yn saff bod ei fab yn dysgu nofio'n iawn. (*'Wyddost ti be, Joni'* arferai ddweud, *'wyddost ti ddim pryd y daw'r nofio i fewn iti – i achub bywyd rhywun neu i achub dy fywyd dy hun – a chofia hynna.'*) ac roedd Joni yn falch iawn ei fod yn cael cystal hwyl arni.

* * *

Fe aeth pethau'n reit dda – pawb yn nofio'n ôl a blaen – ambell un yn taflu pêl i'w gilydd ond, mwya sydyn, clywyd sgrech – roedd un o'r mamau'n gweiddi dros y lle,

'Ma Tudur wedi suddo i'r gwaelod. Dowch rhywun, gnewch rwbath!' a dyna lle roedd y fam druan mewn panig llwyr, wrth gwrs. 'Lle ma'r dyn 'na sy i fod i edrych ar ôl pawb?'

Daeth yr hogyn ifanc oddi ar ei sedd, mynd i ochr y pwll a deifio i mewn, ond roedd Joni yn y dŵr yn barod ac wedi nofio at y bychan. Yna, gan afael o gwmpas ei wasg, nofiodd i fyny i'r wyneb yn araf, gosod y bychan wedyn ar ochr y pwll a dechrau rhoi cusan bywyd iddo.

Edrychai Maldwyn a Huw yn geg-agored ar Joni a phan ddechreuodd y bychan ddod ato'i hun, dyna'r ddau yn dechrau clapio ac yna dechreuodd pawb yn y pwll nofio glapio a gweiddi 'Hwre! Hwre!' Lapiwyd y bychan mewn tywel cynnes a'i roi ym mreichiau ei fam a phan ddaeth dyn yr ambiwlans ato, trodd pawb i edrych ar Joni.

'Fo ydi'r hero – Joni Jones,' ebe Maldwyn a Huw fel deuawd. Daeth mam Tudur ato,

'Joni, fe fedra i ddeud? Chi nath achub fy hogyn bach i – ia wir, chi ydi arwr y dre 'ma heddiw,' a gafaelodd yn dynn ynddo nes roedd wedi cochi at ei glustiau.

* * *

Cafwyd seremoni i gyflwyno medal aur i Joni yn Swyddfa'r Maer yr wythnos wedyn a dyna lle'r oedd ei fam yn ei dillad newydd a'i het i fatshio wedi gwirioni hefo'i mab 'dewraf yn y byd'.

'Wel, Joni,' ebe'r Maer, 'rydym i gyd yma heddiw i gyflwyno hon ichi am eich dewrder yn y pwll yr wythnos ddiwethaf. Ni wnaiff Tudur na'i deulu byth angofio'r diwrnod.' Plygodd y Maer gan osod y fedal aur o amgylch gwddf Joni, gan ychwanegu, 'Mae Rheolwr y Ganolfan wedi dweud os hoffech chi gael swydd yn y Ganolfan 'ma fel un o'r staff 'achub bywyd' mae 'na swydd i chi yn syth.'

'Rŵan, Joni, sgynnoch chi air bach inni?'

Doedd o rioed wedi siarad yn gyhoeddus ond yn raddol enillodd y dewrder yn ôl,

'Diolch yn fawr, Mistar Maer. Toeddwn i ddim isio'r fedal yma a deud y gwir, achos nes i ddim byd ond gneud be odd yn dŵad yn naturiol i fi, Syr.' (*dechreuodd pawb gymeradwyo*) 'Dad nath fy nysgu i nofio pan oeddwn yn hogyn bach ac iddo fo ma'r diolch,' edrychodd ar ei fam yn y gynulleidfa a gwenodd hithau'n ôl trwy ddagrau o hapusrwydd y tro hwn.

Roedd dyn camera'r teledu yn y sermoni a'r dyn tynnu lluniau lleol i'r *Herald* hefyd, ac ar y diwedd roedd pawb eisiau ysgwyd ei law. Daeth Pennaeth yr Ysgol Gynradd, Rheolwr y Gwesty a hyn yn oed Mrs Cartreit ymlaen ato.

Yn yr *Herald* yr wythnos dilynol gwelodd ei lun ar y dudalen flaen hefo Maldwyn a Huw o bobtu iddo yn gwenu o glust i glust.

Do, fe gymrodd y swydd yn y Ganolfan a heddiw mae o wedi ei ddyrchafu'n un o'r athrawon nofio ac yn llwyddo yn ei waith, a phlant yr ysgolion lleol yn meddwl y byd ohono ac mae llun mawr ohono gyda hanes y diwrnod hwnnw oddi tano yng nghyntedd y Ganolfan.

Ni fu erioed fam mor falch o'i mab â Mrs Susan Jôns. Doedd dim rhaid iddi mwyach edrych am joban fach iddo bob wsnos yn yr *Herald* nac ochneidio bob tro y deuai adref heb waith, neu wedi cael ei ddiarddel! Y diwrnod hunllefus hwnnw, fe drodd Joni Jôns o fod yn hogyn deunaw oed i fod yn 'ddyn', ac yn lle chwerthin am ei ben fel o'r blaen, mae pawb yn edrych i fyny arno.

Daeth Joni adref o'i waith – mynd i'r stafell gefn – edrych ar y llun ar y cwpwrdd a deud,

'Diolch, Dad.'

EM. H.

Mwy o lunaiu YSGOL BRYNREFAIL

Aros Dros Nos

Ar nos Wener, y 18fed o Ebrill, arhosodd dros 50 o fyfyrwyr y chweched dosbarth dros nos yn yr ysgol i godi arian tuag ar gronfa'r ysgol. Bu'r criw yn chwarae gemau, gwylio ffilmiau yn y llyfrgell, chwarae gêm o bêl-droed yn y gampfa, ac hefyd bu rasus sachau cysgu yn y neuadd! Bu'r noson yn llwyddiannus iawn ac fe gasglwyd oddeutu £600 fel cyfanswm. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cydweithrediad ac i'r athrawon am eu hamynedd!

Awen, Iwan a Dewi.

Hanna a Siôn yn chwarae Twister.

Gwylio ffilm yn y Llyfrgell.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 6ed o Fai.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones. Penodwyd yr Is-Gadeirydd, Geraint Hughes, yn Gadeirydd a Richard Llwyd Jones yn Is-Gadeirydd.

Llongyfarchwyd Len Jones ar ennill yr etholiad ac amlygwyd bodlonrwydd o gael y tri Cynghorydd Sir yn ôl.

Dywedodd Merfyn Morris nad oedd ei bapur enwebu wedi ei dderbyn mewn pryd. Penderfynwyd ei gyf-ethol.

Dywedodd y Clerc bod cais wedi ei ddanfon i Wynedd i gyf-ethol Elspeth Mitcheson, Phyllip Jones a Gwilym Williams, ond nad oedd yr hysbysebion wedi cyrraedd.

Cofnodion Cyfarfod Ebrill
Derbyniwyd y cofnodion fel arall yn gywir.

Materion o'r Cofnodion
Cyflwynwyd ateb Dafydd Einion Jones a llythyrau Alun Ffred Jones AC a Hywel Williams AS ynglŷn â band Eang Rhiwlas. Penderfynwyd mai'r unig ffordd ymlaen yw swnian ar BT.

Cynllun EFE. Derbyniwyd ateb Susan Williams bod Prifathrawes ysgol Rhiwlas yn fwy na pharod i wahodd Gweithiwr Cristionogol i'r ysgol. Penderfynwyd cyfrannu £500 at yr ymgyrch ac ystyried rhodd eto y flwyddyn nesaf.

Delweddau Gareth Roberts. Penderfynwyd ei atgoffa gan obeithio am ateb erbyn y cyfarfod nesaf. Dywedodd Geraint Hughes bod llyfryn wedi ei gyhoeddi yn ardal Beddgelert, buasai'n fanteisiol cael golwg ar hwnnw.

Mainc Dinorwig. Nid oedd ateb i law oddi wrth yr Heddlu. Dywedodd Len Jones bod y fainc gan Barc Padarn a'i fod am ofyn iddynt am bris i'w hatgyweirio. Penderfynwyd hysbysu'r yswirwyr hefyd.

Cyllid
Derbyniwyd mantolen ariannol y Cyngor am 2007/2008.
Derbyniwyd telerau'r Clerc yn ei absenoldeb:

Gofynnodd Elspeth Mitcheson pam bod praesept Llanddeiniolen y lleiaf ond un yng Ngwynedd. Eglurwyd bod y gymuned yn chwe phentref, felly mwy o drethdalwyr.

Codwyd y braesept ar gyfer rhodd i Eisteddfod Eryri ac i roi Byrddau Gwyn i'r ysgolion. Mae digon o gyllid wrth gefn i dalu am gyhoeddiad hanes llwybrau yn ystod y flwyddyn.

Gohebiaethau eraill
Cyfeiriodd Gwilym Williams at y prinder Meddygon yn Neiniolen. Aeth person mewn oed ar fws i Ddeiniolen, cerdded trwy dywydd mawr o ganol y pentref i'r feddygfa a chael gwybod nad oedd lle iddi am fod 16? wedi cofrestru'n barod. Penderfynwyd gofyn i'r Meddygon beth yw trefn eu contract ac a oes modd cael mwy nag un meddyg i weithredu syrjeri agored. Mae pedwar meddyg yr un pryd yn Llanberis.

Soniodd Aled Green am gael arwyddion 'Gyrrwch yn ofalus' yn Seion. Dywedodd Huw P. Hughes bod cyfrifydd a osodwyd yno wedi mesur cyflymder ceir yn 27m.y.a a bod cyfrifydd i'w osod yno eto.

Heddlu. Dywedodd Huw P. Hughes bod y Rheolwr Rhawd, Gethyn Jones, a'r Swyddog Cefnogi, Joanna Clarc, wedi eu symud o'r ardal a bod Swyddog uniaith Saesneg wedi ei benodi – llythyr i'r Prif Uwch Arolygydd Geraint A Williams.

Gwaelod Fachwen. Cyfeiriodd Huw P. Hughes at bentyrau o sbwriel rhwng y lôn a diwedd y rheilffordd, a bod rhannau o'r wal 8 troedfedd wedi disgyn ac yn beryglus – llythyr i Mr Ken Latham, Parc Padarn.

Dryll Deiniolen. Mae oddeutu 20 o geir yn parcio'n barhaol ar ochr y ffordd fawr, rhaid i gerddwyr fentro i ganol llwybr y drafnidiaeth. Penderfynwyd hysbysu Gwynedd bod hyn yn achosi peryglon i gerddwyr.

Cynllunio
Cais cynllunio i adeiladu estyniad at Hafod Tŷ Rhiwlas, dywedwyd ei fod yn rhy agos at yr ysgol a bydd perygl o barcio ceir lle bydd plant yn cerdded – llythyr i Wynedd i bwysleisio ar ddiogelwch y plant.

Codi tŷ fforddiadwy ger Weirglodd Goch/ Cynefin, Penisa'rwaun. Cyflwynwyd llythyrau Martin a Delyth Gayther, a Gwilym a Gwenllian Roberts, yn amau nad yw'r cais yn cydymffurfio â ffin Cynllun Unedol Gwynedd. Trafodwyd cynnwys y llythyrau a phenderfynwyd gwneud y pwyntiau canlynol i Wynedd:

- Mae'r cais y tu allan i'r ffin gynllunio
- Nid yw'r llain o dir yn ffinio'n union â phreswylfa bresennol
- Be ydi amlinelliad tŷ fforddiadwy, ac a yw'r tŷ a fwriedir yn cydymffurfio â hynny?

Llwybrau
Llwybr 102: Celyn, o Groeslon Uchaf at Clwt y Bont;
Llwybr 105: Celyn Cottage at Dryll;
Llwybr 99: Celyn i lawr at Cae'r Bythod.
Coed angen eu torri a mieri heb eu torri ers blynyddoedd ar y tri llwybr uchod. Cynhwysir rhain ar raglen torri gwair y Cyngor yma o hyn ymlaen, gan obethio bydd yr uchod wedi eu gwneud cyn toriad cyntaf yr haf yma.
Mae giât segur ar lwybr 101 a dymuna perchennog Celyn ei chael.

Cyfeiriodd Hefin Williams at newid yn y rheolau yn gwneud camfeydd yn anghyfreithlon – gofyn i Wynedd beth yw eu rhaglen i newid rhain am giatiau mochyn.

Gofyn i Wynedd hefyd am fapiau'r llwybrau yn eu hetholaethau i bob aelod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 3ydd o Fehefin.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau o'r Gronfa uchod.
Ceir ffurflen gais a manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arni i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LI55 4LF

Ffôn: **(01286) 871 562**
Dyddiad cau: **31 Awst 2008**

Ni ystyrir unrhyw gais ar ôl y dyddiad cau.



CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Atgofion Hen Sgotwr

Y gamp fwyaf anodd wrth hel atgofion am Lyn Padarn yw ymhle i ddechrau, ac hefyd faint i'w adael allan.

Rwyf wedi pysgota'r llyn am sawl awr, rwyf bron â dweud pe bawn wedi cael swllt am bob tro fe fuaswn yn eitha cyfoethog erbyn hyn. Ond rwyf am ddechrau wrth ddweud gair neu ddau am bysgota'r llyn gyda chwch.

Fel y gŵyr rhai ohonoch, rwy'n siŵr, llyn cynnar yw Llyn Padarn, ac yn y pum a'r chwe degau roeddem yn dechrau ar y glannau ar y cyntaf o Fawrth. Dyna ddechrau y tymor. Roedd modd pysgota'r glannau o Glanbala ar hyd y dolydd a rhwng Buwch a Llo tan i chi gyrraedd sidings y Glyn.

Doedd neb yn eich gwrthod yn yr oes honno, ac yn sicr doedd dim arwyddion PRIVATE yn unman. Caech grwydro fel y mynnech a chostiai trwydded bysgota ddim ond 5/-, ia 25c yn arian heddiw.

Wrth edrych yn ôl mae'r byd wedi newid cryn dipyn!

Ond pan ddelai mis Mai roedd y pysgod yn tueddu i fynd am ganol y llyn ac yn aml iawn dim ond naid nos oedd i chi. Erbyn mis Mehefin roedd y naid wedi symud yn fwy at ochr y Fachwen, cyn dod yn ei hôl at ochr Llanberis yn ail hanner Gorffennaf.

Mis Awst oedd y mis salaf am bysgod ond roedd Medi eto i ddod ar hyd y glannau, y dolydd ac hefyd yn afon Bala.

Y cyngor pwysicaf gefais i wrth bysgota'r llyn oedd – os oedd caban pen doman Awstralia o'r golwg gan niwl neu gymylau, waeth i chi fynd adref ddim – ac roedd hynny'n wir pob gair.

Wedi darllen hyn fe ddeallwch fod cael llogi cwch yn fanteisiol iawn os am helfa gwerth ei chael. Ac roedd yn rhaid os am Dorgoch.

Y cyntaf a gofiaf yn llogi cychod oedd Mr Breimar Jones. Roedd ganddo, yr amser hynny, ddau gwch, ond nid oedd yn fodlon iawn llogi i hogiau ifainc trwy'r gyda'r nos. Os y caech chi un, swllt oedd y gost, ac fe gododd hyn i swllt a chwech, ia 5c neu 7c. Dyna beth oedd bargen!

Ond gan Mr Ernie Morris yr oeddwn i'n cael cwch ran amlaf. Roedd gan Mr Morris tua dwsin ohonynt ac roeddem yn cael llogi un am y noson am 2/-, 10c heddiw. Byddem yn cloi'r cwch ar y lan wedyn a rhoi'r rhwyfau mewn sied a oedd ganddo ar lan llyn. Wedyn rhoi'r goriadau trwy flwch llythyrau y Lodge. Fe aeth hyn ymlaen tan y cymerwyd y cychod trosodd gan Mr John Rees Jones rai blynyddoedd wedyn.

Roedd 'na amryw o bysgotwyr ar y llyn y dyddiau hynny, a blynyddoedd o brofiad tu ôl iddynt. Y cyntaf a ddaw i'm meddwl yw Mr Rhys Owen. Fe gefais yr anrhydedd o bysgota a saethu gyda Rhys Owen a hefyd ei fab, John Rhys. Saethu snipe dros gorsydd Cwm y Glo.

Un atgof sydd gennyf hyd heddiw yw pysgota Afon Bala a chael hwyl eithriadol arni, ac wedi bachu naw brithyll gwerth eu cael. Yna gweld Rhys Owen ar Bont y Bala yn fy nisgwyl. Gofynnodd,

'Wedi dal rhywbeth?' Dangosais fy mhysgod a dyma ei eiriau, 'O heddiw ymlaen, mi gei di alw dy hun yn bysgotwr pluen!' A dyna ydwyf hyd heddiw.

Rhai eraill oedd yn pysgota llawer ar y llyn gyda'u cwch eu hunain oedd y brodyr Rowlands. Ia, Harry Rowlands a Robin Rowlands. Bûm yn pysgota gyda'r ddau ond rhan amlaf gyda Mr Robin Rowlands. Dyma fy athrawon ar Lyn Padarn ac fe gefais fy nysgu'n dda ganddynt i bysgota brithyll llyn.

Ond, os oeddech yn meddwl am y Torgoch yn y blynyddoedd hynny byddai'n rhaid cael y wybodaeth ymhle roedd y naid, a pha ddyfnder oeddynt. A'r rhai i gael y wybodaeth honno ganddynt oedd y brodyr Toleman. Ia, dim ond eu gwylio hwy a cheisio'u dilyn.

Hefyd, yr amser honno, roedd yn gyfreithlon i ddefnyddio hynny o enweiriau oedd gennych. Rwy'n cofio clywed am hanner cant o Dorgoch yn cael eu dal mewn noson. Cofiwch roedd angen amynedd Job i bysgota am Dorgoch, a thuniad da o faco hefyd!

Ond, erbyn heddiw mae popeth wedi newid. Byddaf yn meddwl yn aml be fuasai'r hen bysgotwyr yn ddwued. Melys eu cofio a heddwch i'w llwch.

Mae yna bum llyn arall yn yr ardal, fe gewch eu hanes y mis nesaf.

R.Elwyn Griffith

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n hyfryd cael gwahoddiad ambell dro i le na fuoch chi 'rioed yno. Ym Modwrog ar Ynys Môn yr oeddwn i'n gorffen galwadau'r gaeaf am eleni – wel, roedd hi'n wanwyn bellach, ac yn noson braf yn niwedd Ebrill.

Gwahoddiad gan Ferched y Wawr oedd yr achlysur. Pedair cangen o'r Ynys yn cyfarfod ym Modwrog, ac roedd 'na wledd arbennig ar gyfer tua 80 ohonom ar y diwedd. Rhai da ydi'r merched 'ma am drefnu gwleddoedd.

Gan fod fy nghyfaill, Ellis Wyn Roberts, yn byw yn y pentref agosaf, sef Bodffordd, fe ges i wahoddiad i alw yno cyn mynd at y merched. Cefais bnawn difyr yn ei gwmni. Elis Wyn, yr adroddwr a'r hyfforddwr ac enillydd Medal Syr T. H. Parry-Williams yn y Brifwyl.

Aeth â fi am dro ar hyd lonydd cul, troellog yng nghanol yr Ynys, a chefais wers hanes a daearyddiaeth ddiddorol yn ei gwmni. Pnawn hynod o ddifyr a the gwerth chweil gan ei briod, Ann, a chroeso Huwcyn, y ci.

Fe ddaeth y merched i gadw cwmni i mi ym Modwrog gyda'r nos tra roedd Ellis yn edrych ymlaen at y gêm, Man U. a Barcelona, ar y teledu. Oeddwn, roeddwn i'n eitha cenfigennus ohono, ond mi ges innau noson hwyliog a chroeso cynnes yng nghwmni'r merched hefyd.

Yr hyn rydw i wedi sylwi arno, o grwydro i wahanol gymdeithasau llenyddol, canghennau Merched y Wawr a sefydliadau cyffelyb ydi mai ychydig iawn o bobol ifanc sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn, ac mae hyn yn wir, fel y gwyddom, am wasanaethau ein capeli. Tua deuddeg ohonom ni fydd yn cyfarfod yn rheolaidd yn y gwasanaeth boreol ar fore Sul ym Methel, ac mi fentra i ddeud bod y mwyafrif ohonom ar drothwy oed yr addewid, ac ambell un ohonom wedi cael bonws eitha hael hefyd!

* * *

Chwith oedd clywed am farwolaeth hynafgwr a fu, hyd ei ddyddiau olaf, yn gefnogol i'r 'Pethe' ac yn cystadlu yn ffyddlon yn ein heisteddfodau. Roedd John Lewis Jones yn 94 mlwydd oed ac yn bencampwr am lunio telynegion. Mi gefais y fraint o'i wobrwyo ddwsinau o weithiau, ac anfonodd o 'rioed yr un un gerdd i mi dros yr holl flynyddoedd. Mae hyn yn wahanol iawn i'r rhai hynny sy'n cystadlu am gadeiriau ein

(Parhad ar dudalen nesaf)



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG , YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill
(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

heisteddfodau lleol.

Roedd John wedi colli'i olwg ers rhai blynyddoedd a Falmai Williams, Aberdesach, fyddai'n teipio ei gerddi ac yn eu hanfon i'r gwahanol eisteddfodau, yn ogystal ac anfon cerddi o'i gwaith ei hun. Sawl gwaith ydan ni wedi clywed y dyfarniad: 'Cyntaf – John Lewis Jones, Gwern y Mynydd; Ail: Falmai Williams, Aberdesach.' Neu fel arall: 'Falmai yn gyntaf a John yn ail.'

Mae Famlai, wrth gwrs, wedi ennill ar y delyneg yn y Brifwyl ar ddau achlysur. Awgrymais iddyn nhw fwy nag unwaith y dylent gyhoeddi llyfr o'u telynegion a darnau eraill o'u gwaith, gan gynnwys emynau John a'r darnau adrodd i blant gan Falmai. Beth amdani, Falmai?

* * *

Fel arfer yr adeg yma bob blwyddyn, mi fydda i'n teimlo'n eitha trist. Na, nid am fy mod wedi cyrraedd pen-blwydd arall, ond am fod y tymor pêl-droed yn dod i ben. Mae diwrnod y Cup Ffeinal a dydd fy mhen-blwydd i tua'r un adeg bob blwyddyn ac eleni roedd hi'n ffeinal arbennig, gan fod ein prifddinas yn Wembli, ac roedd hi'n ben-blwydd go arbennig arna innau hefyd.

Os ces fy siomi yng nghanlyniad y ffeinal yn Wembli, mi ges i sioc bleserus gyda'r nos. Roeddwn i ar ddeall ein bod ni'n mynd am swper tawel, gan i Euron a'r teulu ddod adre i ddathlu'r ffaith fod ei dad yn cael 25 ceiniog yr wythnos o bensiwn ychwanegol.

Wyddwn i ddim bod fy ffrindiau o bell ac agos wedi cael gwahoddiad i'r Fic i Lanbêr, ac yn naturiol roedd o'n sioc bleserus a hefyd yn un dagreuol. Dagrau a oedd yn dwyn yn ôl atgofion blynyddoedd. Ac, yn goron ar y cyfan, fe gyflwynodd Arwyn lun enfawr ohona i yn fy ngwisg Archdderwyddol – yr un llun a fydd yn mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol i Aberystwyth. Sut y trefnwyd hyn i gyd mor gyfrinachol? Rwy'n gwybod bellach, a rhaid imi gydnabod i mi fwynhau y noson yn fawr ar ôl dod dros y sioc.

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, ac am y llu cyfarchion, yn lleol ac o bell. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan. Edrychaf ymlaen yn awr at 19 Mai, 2028, gan i mi wahodd yr un criw a ddaeth i'r Fic i ddod yno eto ymhen ugain mlynedd, pryd y byddwn yn cyd-gerdded i fyny'r Wyddfa i gael pryd o fwyd yn Hafod Eryri a dod i lawr gyda'r trên– os byw ac iach, yntê!

Wel, pam lai? Fe gerddodd yr Archdderwydd cyntaf un – Clwydfardd – i gopa'r Wyddfa ac yntau yn 93 mlwydd oed. Does dim yn rhoi mwy o bleser i rywun na thorri record, nagoes, ac rwy'n edrych ymlaen at y sialens. Ia, os byw ac iach, yntê!

Ar Ben Arall y Lein



Brithyll Llyn Padarn eleni.

Yn ystod y mis, y ddau le sydd wedi bod yn cael sylw yw Llynnoedd Dywarchen a Padarn. Dywarchen, wrth gwrs, am fod y stoc cyntaf o frithyll yr Enfys wedi cyrraedd yn ystod wythnos gyntaf Ebrill, a'r ail, sef y 200 o bysgod braf a gyrhaeddodd ar 14 Fai. Bydd y cynllun stocio'n cael ei gario 'mlaen yn fisol hyd at ddiwedd Medi.

Ochr arall i'r geiniog yw Llyn Padarn, sydd yn llyn hollol naturiol ble does dim stocio'n cymryd lle. Dyma'r dynfa cyn belled ac rwyf i yn y cwestiwn, a'r flwyddyn yma rwyf wedi cael hwyl arbennig o dda gyda'r brithyll brown. Ond y peth syfyrdanol yw nad wyf wedi gweld neb arall allan ar y cychod. Dwi wedi cael y llyn i gyd i mi fy hun.

Mae'n bleser cael adrodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi tipyn o sylw i rywogaethau Padarn. Hyd yn hyn, mae arbrofion ar niferoedd a maint trigolion y dyfnder wedi bod yn galonogol eithriadol, gyda nifer helaeth o bysgod yn dangos ar y darganfyddwyr pysgod sensitif a ddefnyddiwyd. Yr unig broblem, wrth gwrs, yw na all y peiriannau yma ddadansoddi pa bysgod sy'n dangos i fyny. I geisio rhoi mwy o gig ar esgyrn yr arbrofion bydd rhwydo'n cael ei gario allan yn ystod misoedd yr haf. Rwy'n edrych ymlaen at gael cip ar be fydd yn mynd ymlaen.

Mae'n debyg fod rhai wedi sylwi, ar ddechrau mis Rhagfyr diwethaf, bod rhwydi wedi eu gosod yn Afon y Bala gan Brifysgol Bangor, i geisio cael gwybodaeth am nifer y torgoch. Siomedig oedd y canlyniad ond, pan welais i y rhwydi, roeddynt yn y mannau anghywir.

Mae lleoliadau gosod rhwydi wedi eu profi dro ar ôl tro, ers amser y diweddar Dr. Alister Rogers, a oedd yn astudio'r torgoch yn ystod adeiladu Gorsaf Drydan Dinorwig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ei hunain wedi bod yn gosod eu rhwydi yn yr union leoliadau, ac wedi cael llwyddiant mawr bob tro y byddent yn cario allan arolwg o'r fath.

Os dwi'n cofio iawn, y tro olaf i hyn ddigwydd oedd tua pedair blynedd yn ôl, ac fe gafwyd helfa dda o'r pysgod arbennig hyn. Rwy'n credu fod hyn i ddigwydd eto yn ystod Rhagfyr eleni.

Cefais amser difyr iawn yn ystod diwedd y 1970's a dechrau'r 1980 yn sgwrsio gyda Dr. Rogers a chefais wybodaeth arbennig ganddo. Un ffaith yr oedd yn bendant ohoni oedd mai'r dyddiad tyngedfennol i'r torgoch ddod o'r dyfynderoedd i fwrw grawn yn Afon y Bala oedd dau ddiwrnod bob ochr i'r 13eg o Rhagfyr. Dros y blynyddoedd mae hyn wedi'i brofi'n berffaith gywir. Oes, mae pethau gwyrthiol iawn yn digwydd ar ein trothwy.

Os buasai Gwalch y Pysgod yn dangos ei big yn Afon y Bala dros y dyddiau hyn, mi fyddai cannoedd yn dod yno i'w wylio a byddai arian mawr yn cael ei wario i greu llecynnau pwrpasol iddynt ei weld. Ond y torgoch druan...!

* * *

Mawr yw'r gobaith y bydd dau fore o hyfforddi pysgota yn digwydd yn ystod Gorffennaf. Bydd y dyddiadau ar gael erbyn y mis nesaf a Llyn Dywarchen fydd y lleoliad. Roeddym wedi gobeithio cynnal un diwrnod ar y Seiont yn Crawia, ond mae canllawiau'r hyfforddwyr yn dweud: ar afon, rhy beryglys – rhaid cael un hyfforddwr i bob un sydd eisiau hyfforddiant, a'r rhain i ġyd i fod gyda thystysgrif diogelwch gan yr heddlu. Mae cost pob tystysgrif yn rhyw £70. Dychmygwch y gost gan fod oddeutu 40 yn troi i fyny pan fydd dyddiau o'r fath yn cael eu cynnal. Felly ar y llyn y bydd pethau. Pam fod pethau o'r fath yn cael eu caniatáu ar lyn tybed? Efallai, yn wir, y bydd rhaid gwagio'r dŵr cyn dechrau!!!

HUW PRICE HUGHES

DRAENOG

Yn ôl pob sôn, y mae N—Rhos, mi wyddoch chwi ble, yn gudyll wyllt, a phwy a'i beier! Yr wsnos cyn diwetha', a'r tywydd yn fwy nac eithriadol o braf, mi 'r oedd ganddi lond lein o ddillad yn sychu'n hyfryd llonyddol braf yn yr haul, ac wedi eu gosod yno toc wedi wyth o'r gloch y bora, ond pan aeth N yno adag panad deg o'r gloch mi 'r oedd y cyfan ar y llawr-ia, y blwmin lein ddillad a phopath! Bu'n rhaid rhoi caniad ar y teliffon. Daeth B Rhos, mi wyddoch chwi ble, adra o'i waith, ac yn drefnus ddigon ail-osodwyd y lein, a'r dillad. 'Cymer banad cyn mynd yn ôl at dy waith B,' ebe N wrth ei gŵr. Ac wrth ben ei banad Teiffŵ dyma B Rhos yn codi ei lyg'id. O na! mi 'r oedd y lein ddillad i lawr, a phrysurodd i'r ardd gefn, ac ail-osod y cyfan, ond wedi cyrra'dd y gegin, mi welodd – ia Huw Jôs, cythra'l o alshatian mawr sy'n byw a chyfarth yn y tŷ drws nesa' – yn llamu dros y ffens, ac yn neidio am y lein a'r dillad!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod nos Iau y 15fed o Fai, 2008 a gynhaliwyd yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Presennol ac Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Gavin Allsup, Elwyn Davies (Cadeirydd), Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Ymddiheuriadau: Emlyn Baylis, Barry Davies,

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau yr 17eg o Ebrill, 2008. Cynnig ac eilio: FO / DP.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

• Cae Pêl-droed UEFA: Mae gwaith paratoi y safle wedi dechrau. Yn ystod y mis cafwyd caniatâd cynllunio a grant o un o gronfeydd Cyngor Gwynedd (CG). Arwyddwyd cytundebau rhwng Y Ganolfan a CG, a rhwng y Cyngor Cymuned (CC) a'r Ganolfan ynglŷn â'r safle a'i ddyfodol. Y CC fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw y safle a'r cae yn unol â'r cytundeb rhwng y Cyngor a'r Ganolfan. Nid oes sicrwydd hyd yma faint yn union o arian fydd cyfraniad y CC tuag at y gwaith. Yn ôl adroddiad papur newydd roedd y Cynghorydd Sir lleol yn dweud fod gweddill yr arian ar wahân i'r grant wedi ei sicrhau ganddo ef oddi wrth fudiadau a chwmnïau lleol. Nodwyd mai cyfrifoldeb CG ar y cyd â'r CC fyddai clirio a dychwelyd safle'r cae i'w ffurf wreiddiol ar ddiwedd oes y cae, ac awgrymwyd gan y Cadeirydd y dylid sefydlu cronfa ar gyfer hynny, gan neilltuo ychydig arian bob blwyddyn ar ei chyfer. Dywedodd y Clerc fod cryn ddiolch yn ddyledus i swyddogion CG am y gwaith a wnaed ganddynt, yn enwedig Ken Jones a Dafydd Einion Jones. Roedd Barry Davies hefyd wedi bod yn hynod gefnogol, ac ar ochr y Ganolfan rhaid oedd diolch i Ken Jones (Blaen Ddôl), yr ysgrifennydd. Dywedodd ED, y Cadeirydd, fod y Clerc hefyd wedi cyfrannu yn fawr at y llwyddiant.

• Angorfa: Nodwyd bod gwaith symud creiriau Amgueddfa T. Rowland Hughes wedi dechrau a bod y Cadeirydd yn chwilio am weddill cyrn y Band. Yn y cyfamser roedd angen cartref i'r cyrn a'r gerddoriaeth a oedd yn Angorfa. Gyda pheth syndod y deallwyd mai'r CC oedd yn gyfrifol am offer yr hen fand. Y flaenoriaeth yn awr ydi cael hyd i'r cyrn a chael cartref iddynt.

• Cae Chwarae Min y Llyn: Mae'r gwaith ar y gweill i roi giât newydd ar y safle ac i godi ffens goed gyda ymyl y ffordd osgoi. Mewn llythyr oddi wrth BD dywedwyd fod y llwybr o'r maes parcio i'r maes chwarae i gael wyneb newydd.

• Hafod Eryri: Adroddodd y Clerc iddo ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) ynglŷn â'r ffaith fod 'Snowdon Summit Hotel' yn cael ei ddefnyddio yn barod yn lle'r enw Cymraeg swyddogol. Derbyniodd gydnabyddiaeth, ond dim mwy!

• Arwyddion Strydoedd: Cafwyd gwybod am ddwy stryd a oedd angen plac enw. Cytunwyd i archwilio'r pentref yn fwy manwl erbyn y cyfarfod nesaf.

• Maes Parcio'r Llyn: Yn llythyr BD dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai llinellau melyn yn cael eu rhoi yma i atal parcio ar y palmant pan fyddai'r gwaith o roi wyneb newydd ar fynedfeydd y pentref o'r ffordd osgoi wedi ei gwblhau.

• Trafnidiaeth Unffordd: Trafodwyd yn fanwl y posibilrwydd o gael trafnidiaeth i fynd i un cyfeiriad yn unig trwy Faes Padarn, gwelwyd fod dadleuon o blaid ac yn erbyn ac felly penderfynwyd gadael y mater am y tro. Nodwyd fod trafnidiaeth yn dal i ddod i mewn i'r stad o'r fynedfa ger Pont Fictoria a holwyd tybed a fyddai modd gwneud hynny yn anos trwy efallai gyfyngu ar led y fynedfa. Soniwyd hefyd fod bws lleol yn cael ei barcio yn y stad yn achlysurol ac fod hynny hefyd yn beryglus.

Penderfynwyd gofyn i un o swyddogion CG ddod i edrych a ellid gwneud ffyrdd y stadau yn fwy diogel.

• Parcio Nantperis: Dywedodd y Clerc iddo drafod dyfodol Maes Parcio APCE efo un o swyddogion Goriad Gwyrdd a chael ar ddeall y byddai'n rhaid talu am barcio yno o fewn dyddiau. Roedd y Clerc wedi adrodd wrth y swyddog ei fod yn gobeithio na fyddai hynny yn golygu trafferthion parcio pellach yn Nantperis wrth i ymwelwyr barcio'n answyddogol yn lle talu. £4 fydd pris tocyn diwrnod, £2 am hanner diwrnod. Gyda'r tocyn diwrnod byddai tocyn mantais i un person deithio ar y bws 'Sherpa' am ddim.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

• C08A/0145/15/CR – Trosi cyn fwyty i 3 Uned byw hunan gynhaliol – 59 Stryd Fawr, Llanberis (cais diwygiedig). Y newid yn seiliedig ar edrychiad yr adeilad. – Gwrthwynebu'r cais gwreiddiol gan nodi nad oes unrhyw ddarpariaeth parcio ar gyfer yr unedau yma, ac fod cwynion o strydoedd cyfagos am fod ceir pobl mewn unedau eraill yn yr adeilad yma yn parcio, yn arbennig yn Stryd yr Wyddfa, gan greu prinder llefydd parcio i drigolion.

• C08A/0265/15/LL – Porth ar flaen yr annedd, estyniad llawr cyntaf ar ochr yr annedd – 47 Maes Padarn, Llanberis – Dim gwrthwynebiad.

Wedi eu gwrthod/caniatáu

CG: Caniatáu

• C08A/0169/15/LL – Estyniad cefn – 1 Field Terrace, Llanberis.

• C08A/0130/15/R3 – Creu maes chwarae synthetig bychan, codi ffens a chreu llwybr troed – Cae Dôl y Goeden, Llanberis.

APCE: Caniatáu

• NP3/15/182A – Gosod tanc olew, decio pren a tirlunio sy'n gysylltiedig â'r anecs presennol – Ty'n Ffynnon, Nantperis.

Llwybrau

• Cafwyd adroddiad gan DP fod angen trwsio camfa ar y llwybr sy'n dod o Ryd-ddu trwy Fwlch Cwm Brwynog i Lanberis. Yr ail gamfa o'r Bwlch ydi'r un ddiffygiol.

Gohebiaeth

• *CG Adain Trwyddedu:* Llythyr yn nodi na fedrid derbyn gwrthwynebiad y CC i drwyddedu gwerthu alcohol hwyr, ac ar wyliau Banc gaeaf a gwanwyn yn Hafod Eryri ar gopa'r Wyddfa. Nodwyd nad oedd tystiolaeth fod hynny yn beryglus ac nad oedd tystiolaeth preswylwyr yng nghyffiniau'r eiddo chwaith. (Pa breswylwyr?)

• *Dulas Engineering:* Derbyniwyd llythyr a chynlluniau oddi wrth y cwmni o Fachynlleth mewn perthynas â'r hen waith trydan dŵr lle tynnir y dŵr o'r pwll wrth droed Rhaeadr (*Waterfall*) Llanberis. Y bwriad ydi ehangu'r pwll er mwyn gael mwy o ddŵr i gynhyrchu ynni adnewyddol.

Roedd arddangosfa o'r cynlluniau hefyd wedi bod yn y pentref fel ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae'n debyg y daw'r cais cynllunio gerbron i'w ystyried maes o law.

• Ymgynghoriad ar strwythur newydd y Gwasnaeth Iechyd (GIG) yng Nghymru. (HS i'w ddarllen)

• Llythyr casglu gwybodaeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn holi am hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd gan y CC. Nid oedd dim.

• CG – Llythyr yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r angen i baratoi ar gyfer 'ffliw bydeang' a allai gyrraedd ynys Prydain. Yn arbennig gofynnir i gynghorau sydd â mynwentydd sicrhau fod modd cynnal unrhyw wasnaethau angenrheidiol, fel claddu, pe bai Clerc neu swyddogion eraill y Cyngor yn wael.

• *Un Llais Cymru:* Angen enw cynrychiolydd i'r pwyllgor lleol a derbyneb aelodaeth.

• *Goriad Gwyrdd Eryri* – Strategaeth a Chynllun Gwaith 2008–9 (DT i'w ddarllen)

• *Yr Heddlu*: Llythyr yn holi am gefnogaeth i Orchymyn Gwasgaru gan yr Heddlu lleol. Penderfynwyd gofyn am gyflwyniad ar y mater yn y cyfarfod nesaf gan yr Heddwas Kennedy, ac i holi beth oedd barn y pentrefwyr am gynllun o'r fath. Honai yr Heddlu fod yna gefnogaeth i gael Gorchymyn a fyddai'n rhoi hawl i'r Heddlu wasgaru grwpiau o bobl, a'u harestio, os na fyddent yn cydymffurfio.

Unrhyw Fater Arall

• *Gwerthu Hufen Iâ:* Holwyd a oedd gan berchennog y fan hufen iâ hawl i weithredu yn Maes Parcio y Lanfa. Gofynnwyd i'r Clerc holi CG yn y bore.

• *Glyn Peris, Nantperis:* Cafwyd adroddiad gan IO a GR iddynt gael ar ddeall gan APCE fod yr apêl cynllunio wedi ei wrthod ac na fyddai tai gwyliau yn cael eu codi ar y tir ger yr hen Swyddfa Bost. Yr oedd IO yn falch ryfeddol o'r gefnogaeth unedig a gafwyd yn y pentref i wrthwynebu datblygiad anghydnaws ac annerbyniol. Ofnai y byddai'r cais wedi llwyddo onibai am hynny. Ategwyd hynny gan amryw. Roedd y CC hefyd wedi gwrthwynebu'r cais o'r dechrau.

• Adroddwyd fod bagiau a sbwriel yn yr afon ger y tir uchod ac fod blerwch cyffredinol ar y safle.

• Mynegwyd pryder fod modurwyr yn dal i yrru'n gyflym trwy Nantperis er fod yr Heddlu wedi bod yno'n gwylio traffig yn ddiweddar.

• Llyn Marchlyn: Cafwyd adroddiad gan DJ am agoriad swyddogol ehangu llyn Marchlyn. Bu yno ar ran y Cyngor a dywedodd fod y gwaith wedi ei wneud i safon uchel. Yn ôl DJ rhoddwyd pwyslais mawr ar ddiogelwch wrth i'r llyn gael ei ehangu i ddal mwy o ddŵr i gynhyrchu rhagor o drydan yng Ngorsaf Drydan Dinorwig

Cyfarfod Nesaf

Gwesty Victoria nos Iau y 19eg o Fehefin, 2008 am 7 yr hwyr.

DRAENOG

Pwy o ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* sy'n gw'bod am berson unigryw o'r mwya' sy'n credu'n hollol gydwybodol hyd daeru a thyngu llwon mai o beiriant ac nid o bwrs y fuwch y daw llefrith? Mae o hefyd yn coleddu'r syniad slwjlyd gynddeiriog mai o beiriant y daw pys! Tybed, Em, Bro Dawal, y bydd di cyn bo hir hefyd, a thithau'n dad i wyth o blant, yn credu mai o beirannau y daw plant bach? Bobol Em! Dos cyn gyntad bosib ar gwrs Bywydag rywla! Twt! Twr! Ddyn mawr.

CHWARAEON

Rhedeg Mynydd

Mae gwahanol rasus mynydd yn cael eu cynnal yn wythnosol bellach; llawer ohonynt yn yr ardal hon. Cyfres boblogaidd iawn yw'r Gynghrair Nos Fawrth, cyfres o wyth ras weddol fyr yn cael eu noddi gan gwmni Great Arete. Mae'r rhain yn rhoi blas ar redeg mynydd i'r rhai na fu'n cystadlu o'r blaen, ac ar yr un pryd yn ymarfer arbennig o dda i redwyr mwy profiadol gan fod angen ymdrech arbennig ym mhob ras i geisio'r sgôr gorau posibl. Nid safleoedd sy'n cyfri yn y rasus hyn, ond sgôr. Mae'n bosibl dod i mewn yn bymthegfed mewn un ras gyda sgôr well na'r degfed safle mewn ras arall. Mae'n golygu fod pob rhedwr yn gorfod gwthio'i hun i'r eithaf ym mhob ras.

Eisoes cynhaliwyd rasus Moel Tryfan, Foel Lus, Mynydd Mawr, Cwm Dudodyn a Moel y Gest. Ac erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r wasg, bydd Ras Cefn Drum, Llanberis, wedi ei chynnal. Bydd dwy wedyn yn weddill, sef Moel Faban ac Aber.

Mae Iain Ridgeway (Nant Peris) ac Iwan Morton (Cwm y Glo) yn wythfed a nawfed ar hyn o bryd. Daw Arwel Lewis (Bethel) yn drydydd yn yr adran dros 40 oed, a Dafydd Thomas (Llanrug) yn ail yn yr adran dros 60 oed.

Ymhlith y merched mae Jenny Heming (Llanberis) yn ail, Ali Thomas (Llanberis) ar y blaen i ferched dros 40 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) yn arwain y merched dros 60 oed. Siawns felly na ddaw gwobrau i fro'r *Eco* erbyn diwedd y gyfres.

Llongyfarchiadau hefyd i Jenny Heming, aelod o dîm merched gogledd Cymru a enillodd fedal arian ym Mhencampwriaeth Siroedd Prydain yn Cumbria yn ddiweddar.



Dafydd Whtesdie yn cyrraedd diwedd y ras yn Moel y Gest, Borthy Gest.

Yn ystod mis Mai cynhaliwyd ras flynyddol Moel Eilio, un o rasus mynydd mwyaf poblogaidd Prydain. Eleni, roedd yn rhan o Bencampwriaeth Prydain, a daeth dros ddau gant a hanner o redwyr i herio'r pedwar copa, gan ddringo o Lanberis i gopa Moel Eilio, y Foel Gron, y Foel Goch a Moel Cynghorion, cyn disgyn yn ôl i'r hostel ieuenctid ar hyd llwybr Maesgwm.

Llongyfarchiadau arbennig i'r trefnwyr, Tim a Jayne Lloyd, o Bontrug ac i holl aelodau'r tîm am gynnal digwyddiad mor llwyddiannus.

Rhedwr ifanc o Brifysgol Bangor, ond aelod o dîm Cumberland Fell Runners oedd yn fuddugol, gan dorri'r record mewn amser o 59 munud ac eiliad. Y Cymro cyntaf oedd Richard Roberts o Fethesda mewn 64 munud a thair eiliad. Y cyntaf o fro'r *Eco* oedd Iain Ridgeway o Nant Peris mewn 68 munud a 45 eiliad. Roedd nifer o redwyr lleol eraill yn cystadlu hefyd, ond yr unig un i ennill gwobr oedd Maggie Oliver o Ddinorwig a ddaeth yn gyntaf yn yr adran i ferched ros 60 oed mewn amser o 99 munud.

Roedd y ras hefyd yn rhan o Bencampwriaeth Cymru, ond nid yw'r safleoedd terfynol yn yr adran honno wedi eu pennu eto.

Mae dwy ras leol arall i'w cynnal yn ystod diwedd Mai a mis Mehefin, sef ras y Carneddau a ras Moel Hebog. Wedi hynny, bydd yr holl redwyr lleol yn edrych ymlaen am uchafbwynt y tymor i amryw, sef Ras yr Wyddfa.

TLWS YR ECO 2008

Erbyn hyn mae'r clybiau wedi dechrau ymateb, a diolch i'r rhai hynny. Gofynnaf i'r clybiau gysylltu â mi yn uniongyrchol gyda'r nifer o dimau a'r tâl – sef £10 y tîm. Dylid gwneud unrhyw siec yn daladwy i *Eco'r Wyddfa*. Ni fydd ffurflen ymaelodi eleni.

Fe fydd trefn y gystadleuaeth yr un fath eleni yn achos y bêl-droed. Gobeithir cael digon o dimau i gael dwy gynghrair ymhob oedran. Fe fydd pob tîm yn cael rhestr o drefn y gemau ar y noson. Ym mhob oedran – pêl-droed a phêl-rwyd – bydd carfan o 10, gyda 8 chwaraewr ar y maes ar unrhyw adeg. Bydd y timau buddugol ac ail orau yn derbyn 10 medal.



Arwel Lewis o Bethel ar gychwyn ras Moel Eilio.

I atgoffa pawb, y dyddiadau pwysig yw:

Nos Fercher, 25 Mehefin
Pêl-droed dan 7 a Phêl-rwyd yn Ysgol Llanrug.

Nos Iau, 26 Mehefin
Pêl-droed dan 9 ar Y Bwthyn, Deiniolen.

Nos Lun, 30 Mehefin
Pêl-droed dan 11 ym Methel.

Fel arfer bydd y pwyllgorau wedi trefnu y gwirfoddolwyr i ddarparu lluniaeth ysgafn ar y tair noson a diolchaf iddynt o flaen llaw. Buaswn yn dra diolchgar hefyd os buasai'r pentrefi yn gallu trefnu dyfarnwyr ar gyfer y gemau.

Gofynnaf hefyd i reolwyr y timau a enillodd y tlysau llynedd wneud siŵr eu bod wedi eu dychwelyd ar gyfer y noson. Edrychwn ymlaen felly i'n cystadleuaeth fach 'ni', a dymunwn bob lwc ymlaen llaw i'r holl dimau.

YSTADEGAU

Peth diflas yw astudio ystadegau. Gellir bob amser eu gwyrdroi i gefnogi safbwynt bersonol.

Digwydd edrych ar Sky Sports yr oeddwn un noson, ac roedd yr ystadegau am y tymor diwethaf yn cael eu chwdu allan. Does dim rhyfedd mai'r pedwar mawr: Man. U., Chelsea, Arsenal a Lerpwl, sy'n rheoli. Yma mae'r torfeydd, yma mae'r cyflogau mawr ac yma mae'r noddwyr... Â blaen eu bysedd mae Lerpwl o fewn cyrraedd unrhyw lwyddiant, yna Everton, ac yna naid aruthrol i gyfforddusrwydd timau canol y Gynghrair. A dyna Derby druan, gyda llai na phymtheg pwynt am y tymor cyfan. Nid oes unrhyw obaith i dimau'r uwch gynghrair herio y tri mawr am y llwyddiannau.

Ond, i fod yn deg ymddengys fod y tri mawr yn cystadlu am bob tlws – y Bencampwriaeth, Cwpan Lloegr, Cwpan Carling ac, wrth gwrs, Cwpan Ewrop. Anodd deall Lerpwl. Ymddengys fod sawl cystadleuaeth yn cael ei haberthu ar allor Cwpan Ewrop. Strategaeth â dipyn o risg iddi.

Yr unig lygedyn o newid oedd rownd derfynol Cwpan Lloegr, gyda thimau 'bach' yn cyrraedd y rownd derfynol. Braf oedd hyn, a nifer o wir gefnogwyr yn cael cyfle i flasu'r 'diwrnod mawr'. Trist na ddychwelodd y Cwpan i Gymru, gan nad oedd llawer rhwng y ddau dîm.

Yn y timau mawr, wrth gwrs, mae'r llu o chwaraewyr tramor. I roi cyfle i ddosrannu mwy o'r gacen ariannol bêl-droedaidd, beth am wahardd y tramorwyr o ambell gystadleuaeth – Cwpan Carling – dyweder. Be fuasai'r canlyniadau pe byddai ond Prydeinwyr yn cael chwarae yn y timau? Ond y 'sêr tramor' sy'n denu'r torfeydd a'r noddwyr, meddai'r gwrthwynebwyr. Ac felly, mwy o arian i dalu cyflogau uwch.

Ie, dadl mewn cylch yw hi'n wastad, ac fel y bydd y clybiau mawr yn cynyddu eu cyfoeth a'u dylanwad, bydd clybiau traddodiadol fel Wrecsam yn suddo yn dawel i lefel led-broffesiynol.

JUDO

Mae lle ar gael i blant 9–14 oed i ddysgu Judo
Gwersi ar nos Lun rhwng 7–8yh yng Nghanolfan y Capel, Caeathro

£2.50 y wers

Am fwy o fanylion ffoniwch Norman ar **(01286) 672344**

Clwb Judo Segontium
Aelod o Gymdeithas Judo Cymru